Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Beth nesaf?

## Materion allweddol ar gyfer y Seithfed Senedd

Mai 2026



Ewch i'n gwefan:
**senedd.cymru**

# Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl.

Mae'r Senedd fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NS**

Tel: **0300 200 6565**



**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2026**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Beth nesaf?

## Materion allweddol ar gyfer y Seithfed Senedd

Mai 2026

**Golygyddion:** Alana MacAskill, Božo Lugonja, Christian Tipples, Delyth Thomas, Gareth England, Gareth Thomas, Gwen Davies, Gwennan Hardy, Helen Jones, Joanne McCarthy, Josh Jenkins, Kathryn Potter, Lorna Scurlock, Martin Jennings, Matt Sutton, Michael Dauncey, Osian Bowyer, Owen Holzinger, Peter Davies, Robin Wilkinson, Sam Jones, Tom Douch

**Cyfranwyr:** Adam Cooke, Alana MacAskill, Amy Clifton, Andrew Minnis, Christian Tipples, Claire Thomas, Elfyn Henderson, Francesca Howorth, Gareth England, Gareth Thomas, Gwen Davies, Gwennan Hardy, Helen Jones, Jennie Bibbings, John Hitchcock, Josh Hayman, Josh Jenkins, Katy Orford, Lorna Scurlock, Lucy Yarham, Matt Sutton, Michael Dauncey, Nyle Bevan-Clark, Osian Bowyer, Owen Holzinger, Peter Davies, Philippa Watkins, Robin Wilkinson, Sam Jones, Sara Moran, Sarah Hatherley, Siân Thomas, Tom Douch

Ewch i'n gwefan:
**senedd.cymru**

# Cynnwys


Croeso i'r Seithfed Senedd ....... 6
Cipolwg ar Gymru ....... 8

**Iechyd a gofal ....... 13**

Dyfodol cynaliadwy i GIG Cymru: tu hwnt i fodel yn-yr-ysbyty-o-arfer ....... 15
Diwygio gofal cymdeithasol oedolion: a yw Cymru yn barod i wynebu'r pwysau cynyddol ar y system gofal? ....... 21
A all GIG Cymru fynd yn ddigidol? ....... 29

**Yr economi ....... 35**

Adnewyddu economaidd: mynd i'r afael â heriau hen a newydd ....... 37
O'r crud i'r bedd: torri cylch anghydraddoldeb a thlodi ....... 47

**Plant ac addysg ....... 57**

Barod am yr ysgol? Presenoldeb, ymddygiad a llesiant ....... 59
Yn y fantol: cyllid Addysg Uwch ....... 69
Gofal plant am ddim: pam, i bwy a sut? ....... 81

**Arian cyhoeddus ....... 89**

Datblygiadau yn nhirwedd gyllidol Cymru ....... 91
Cyllideb Cymru a chyllid cyhoeddus: newidiadau'r gorffennol a heriau'r dyfodol ....... 99
System dan straen: cynaliadwyedd llywodraeth leol ....... 107

**Yr amgylchedd ....... 113**

Beth nesaf o ran natur a gweithredu ar yr hinsawdd? ....... 115
Y llanw ar fin troi: dylunio sector dŵr ar gyfer y dyfodol yng Nghymru ....... 129
Beth yw pwrpas cefn gwlad? ....... 137

**Byw yng Nghymru ....... 149**

A yw hi'n argyfwng ar ddiwylliant? ....... 151
Llwybr at filiwn o siaradwyr Cymraeg: rôl yr ystafell ddosbarth ....... 161

**Cymunedau ........ 169**

A all Cymru integreiddio trafnidiaeth gyhoeddus o'r diwedd? ........ 171
Digartrefedd a'r argyfwng tai: atebion newydd i heriau hirsefydlog? ........ 183
Mewnfudo yng Nghymru: y niferoedd a'r naratif ........ 191

**Cyfansoddiad ........ 203**

Datganoli – beth nesaf? ........ 205
Ar ba faterion y caiff y Senedd ddeddfu? ........ 212
Datganoli a materion rhyngwladol ........ 215
Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru ........ 221

# Croeso i'r Seithfed Senedd

Y brif her yn yr amgylchedd ymchwil heddiw yw gormod o wybodaeth. Mewn byd lle mae gwybodaeth yn cael ei chreu gan ddeallusrwydd artiffisial a'i ddosbarthu gan gyfryngau cymdeithasol, mae gan y rhai sy'n gwneud penderfyniadau fynediad at fwy o wybodaeth nag ar unrhyw adeg yn hanes pobl. Gyda chymaint o wybodaeth ar flaenau eich bysedd, gall fod yn anodd gwybod ble i edrych a beth i ymddiried ynddo. Mae tîm o arbenigwyr polisi a gwybodaeth Ymchwil y Senedd yma i'ch helpu i wahanu'r signal oddi wrth y sŵn gyda dadansoddiadau dibynadwy a diduedd y gallwch ddibynnu arnynt.

Mae'r erthyglau yn y casgliad hwn yn dadansoddi rhai o'r materion o bwys yr ydym yn credu a fydd yn mynd â sylw gwleidyddion wrth i ni gychwyn y Seithfed Senedd. Eu bwriad yw taflu goleuni ar rai o'r prif bynciau – o'r galw cynyddol ar y GIG i'r pwysau cynyddol ar lywodraeth leol – ac egluro pam eu bod yn broblemau dyrys na fydd yn diflannu. Mae gan bob erthygl awdur wedi'i enwi sy'n hapus i drafod y materion hyn ymhellach gydag Aelodau a'u staff.

Mae gan bob senedd ledled y DU, a llawer y tu hwnt i'r DU, wasanaethau ymchwil a gwybodaeth mewnol, sy'n darparu gwybodaeth i gynrychiolwyr etholedig y gallant ymddiried ynddi. Mae'r rôl yn hen, fel y mae ein gwerthoedd o ddidueddrwydd a chywirdeb, ond mae sut rydym yn darparu'r gwasanaethau hyn yn newid ochr yn ochr â thechnoleg.

Rydym yn defnyddio deallusrwydd artiffisial fel offeryn, pan mae'n ddefnyddiol, ond yn diffinio ein hunain yn erbyn ei natur amhersonol ac anhysbys. Nid yw ein gwaith byth yn ddienw nac yn awtomataidd. Mae popeth a wnawn wedi'i seilio ar arbenigedd, ac mae'n waith gan arbenigwr polisi sy'n deall eu pwnc, a pham ei fod yn bwysig yng nghyd-destun seneddol Cymru.

Rydym yn deall natur unigryw ac amrywiol swydd gwleidydd, ac rydym yma i helpu lle bynnag y gallwn. Rydym yn gwneud hyn drwy **gyhoeddi erthyglau'n uniongyrchol** i'ch mewnflwch ac ar ein gwefan, gan ddarparu cymorth ymchwil i bwyllgorau'r Senedd, a thrwy ymateb yn uniongyrchol i gwestiynau gan Aelodau a'u staff.

Addewid ehangu'r Senedd oedd deddfwrfa fwy effeithiol, gyda digon o gapasiti i wneud penderfyniadau gwybodus. Mae penderfyniadau da yn cael eu gwneud ar sail gwybodaeth dda. Edrychwn ymlaen at eich cefnogi yn eich gwaith yn y Seithfed Senedd.




**Kathryn Potter**
**Pennaeth Ymchwil y Senedd**

## Cysylltwch â ni

- Sganiwch am restr cyswllt Ymchwil y Senedd **(at ddefnydd mewnol yn unig)**

# Cipolwg ar Gymru

### Ffigur 1: Newid yn y boblogaeth ar gyfer awdurdodau lleol rhwng 1999 a 2024





▸ **Ffynhonnell:** StatsCymru a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol - Amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn a dadansoddiad Ymchwil y Senedd

Caerdydd (23.72%) a Chasnewydd (22.90%) yw'r unig awdurdodau lleol yng Nghymru sydd â chynnydd canrannol uwch yn y boblogaeth na chyfartaledd Lloegr (19.55%). Blaenau Gwent (-4.44%) a Cheredigion (-1.95%) yw'r unig awdurdodau lleol yng Nghymru sydd wedi gweld gostyngiad yn y newid yn y boblogaeth ers 1999.



**Ffigur 2: Coeden boblogaeth Cymru a Lloegr rhwng 1999 a 2024, 0 i 84 oed***





► **Ffynhonnell:** **StatsCymru a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol - Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth** a dadansoddiad Ymchwil y Senedd

*Nid yw poblogaethau 85+ oed wedi'u cynnwys oherwydd sut y cyflwynwyd data ym 1999.

Mae newid poblogaeth Cymru ers 1999 yn dangos symudiad clir tuag at boblogaeth hŷn (55 oed+) ac mewn cyferbyniad llwyr â phoblogaeth Lloegr, gwelir gostyngiad yn y boblogaeth iau (dan 16 oed).



### Ffigur 3: Safleoedd amddifadedd yn 2025, wedi'u cymharu ar draws awdurdodau lleol Cymru




▸ **Ffynhonnell**: Ystadegau Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru Llywodraeth Cymru a gwaith dadansoddi Ymchwil y Senedd.

*Amrediad rhyngchwarterol

Mae'r siart hwn yn dangos sut mae amddifadedd wedi'i ddosbarthu o fewn pob awdurdod lleol yng Nghymru, o'r lleiaf amddifad ar y chwith i'r mwyaf amddifad ar y dde, gyda'r pwynt canol yn nodi'r lefel gyfartalog (canolrifol) o amddifadedd. Nid yw bod yn amddifad ddim ond yn golygu bod yn dlawd; gall hefyd olygu cael llai o adnoddau a chyfleoedd nag y byddem yn ei ddisgwyl yn ein cymdeithas, er enghraifft o ran iechyd, addysg neu fynediad at wasanaethau. Mae gan y rhan fwyaf o awdurdodau ddosbarthiad eang,

sy'n dangos eu bod yn cynnwys cymysgedd o ardaloedd mwy a llai amddifad yn hytrach na bod yn unffurf. Mae awdurdodau fel Blaenau Gwent, Castell-nedd Port Talbot, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf yn gogwyddo tuag at amddifadedd uwch ar y cyfan, tra bod lleoedd fel Bro Morgannwg a Sir Fynwy yn tueddu i fod yn llai amddifad ar gyfartaledd. Mae awdurdodau trefol mawr fel Caerdydd ac Abertawe yn dangos ystodau arbennig o eang, gan dynnu sylw at anghydraddoldeb sylweddol o fewn yr un awdurdod lleol.



# Iechyd a gofal




ynedfa Damweiniau ac Achosion
ccident & Emergency Entra
AMBIWLANS
CN17 BVB

# Dyfodol cynaliadwy i GIG Cymru: tu hwnt i fodel yn-yr-ysbyty-o-arfer

## Wrth i'r pwysau gynyddu ar draws y system iechyd, sut gall Cymru symud tuag at ofal sy'n rhoi mwy o bwyslais ar atal a gofal yn y gymuned?

Mae'n foment hollbwysig i **GIG Cymru**. Mae salwch cronig ar gynnydd, mae mwy o bobl yn byw gyda sawl cyflwr hirdymor ac mae mwy o'n bywydau'n cael eu treulio mewn afiechyd. Ystyr hyn yw bod y galw am ofal ysbyty bellach yn llawer mwy na'r capasiti. Ni fydd cynyddu'r cyllid i ysbytai yn datrys y mater ar ei ben ei hun. Mae'n hanfodol i Gymru symud tuag at **system sy'n darparu mwy o ofal yn agosach at gartrefi pobl** ac sy'n gwneud atal yn flaenoriaeth.

Mae'r newid hwn, a elwir yn un 'symud i'r chwith', wedi bod yn uchelgais ers tro byd; mae'n ganolog i bolisïau Llywodraeth Cymru a chaiff gefnogaeth helaeth gan randdeiliaid. Eto i gyd, mae'r cynnydd wedi bod yn araf, wedi'i atal gan bwysau dwys, blaenoriaethau tymor byr, a modelau ariannu nad ydynt yn cymell atal.

### Pam mae angen trawsnewid

Mae model presennol y GIG yn cael ei lethu gan anghenion nad oedd wedi'i gynllunio i'w diwallu. Cafodd ysbytai acíwt eu sefydlu i drin pobl sydd angen gofal brys, byrdymor neu arbenigol. Fodd bynnag, mae llawer o bwysau erbyn hyn yn deillio o gyflyrau cronig, y gellir eu hatal yn aml, fel clefyd cardiofasgwlaidd, diabetes, cyflyrau anadlol, a llesgedd - cyflyrau sy'n datblygu dros nifer o flynyddoedd ac sydd angen rheolaeth barhaus a chydlynol.

- Mae **48% o oedolion** yng Nghymru yn byw gydag o leiaf un cyflwr cronig neu hirdymor, ac mae 20% yn byw gyda dau gyflwr neu fwy.
- Caiff ei ragweld y bydd cynnydd yn nifer y **cyflyrau hirdymor**. Mae poblogaeth sy'n heneiddio yn rhannol gyfrifol am hyn gan fod oedran yn ffactor risg allweddol i lawer o gyflyrau. Mae disgwyl i **amlafiechedd cymhleth** (pedwar cyflwr hirdymor neu fwy) bron ddyblu erbyn 2035.

- Mae **anghydraddoldebau iechyd** wedi hen sefydlu eu hunain ac maent yn ehangu. Mae dynion yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru yn treulio mwy na **20 mlynedd yn llai mewn iechyd da** na'r rhai yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig, ac mae menywod yn treulio 25 mlynedd yn llai mewn iechyd da.

Pan fydd cyflyrau pobl yn gwaethygu, mae ysbytai yn trin problemau y mae'n bosibl y byddent wedi'u hatal gyda chymorth cynharach. Mae hyn yn creu problemau o ran llwyth gwaith, yn amharu ar ofal wedi'i gynllunio, yn cyfrannu at arosiadau hirach yn yr ysbyty ac yn arafu'r broses o ryddhau pobl o'r ysbyty, gan roi mwy o straen ar system sydd eisoes dan bwysau.

Achos dan sylw: Diabetes Math 2

**Mae 220,000 o bobl yng Nghymru yn byw gyda diabetes** (tua 90% o'r achosion yn Math 2). Erbyn 2035, rhagwelir y gall niferoedd gynyddu o 48,000 - gan ddod â'r cyfanswm i tua 1 ym mhob 11 oedolyn.

Mae **amddifadedd** yn ffactor o ran risg a mynychder diabetes.

Yn 2019-20, roedd **dros un o bob pump o dderbyniadau i'r ysbyty** ar gyfer pobl 65 oed a hŷn yn cynnwys diabetes fel diagnosis cynradd neu eilaidd.

Cafodd ei amcangyfrif mai cost uniongyrchol diabetes yn y DU oedd **£10.7 biliwn** yn 2021-22, gyda dros 60% o'r gwariant hwn yn cyfrif tuag at reoli cymhlethdodau.

Mae tystiolaeth yn awgrymu bod modd **atal dros hanner yr achosion o ddiabetes Math 2**, er enghraifft drwy nodi risg yn gynharach a rhoi cymorth wedi'i dargedu i helpu pobl i feithrin ffyrdd iachach o fyw.

## Beth yw ystyr symudiad i'r chwith?

Mewn polisi iechyd, mae **symudiad i'r chwith yn cyfeirio at symud gofal ar hyd y gadwyn gyflenwi** - trwy atal, ymyrraeth gynnar, gofal sylfaenol cryfach a gwell gofal yn y gymuned – a lleihau dibyniaeth ar ofal costus mewn ysbytai. Mae'r dull hwn yn ganolog i **Cymru Iachach** (2018), sef cynllun hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, a nododd weledigaeth ar gyfer gwasanaethau di-dor, yn agosach i'r cartref, sy'n canolbwyntio ar bobl gyda phwyslais ar eu cadw yn iach ac yn annibynnol.

Yn ymarferol, mae'r newid hwn yn cynnwys **cefnogi pobl yn eu cymunedau eu hunain** drwy, er enghraifft, ddefnyddio system o feddygon teulu a thimau cymunedol integredig a gofal iechyd a chymdeithasol wedi'u cysylltu'n well, ac offer digidol sy'n helpu pobl i reoli eu hiechyd yn y cartref. Mae hefyd yn dibynnu ar bartneriaethau amlasiantaeth rhwng meysydd tai, gofal cymdeithasol, sefydliadau cymunedol, a'r trydydd sector.

## Rhwystrau i newid

Er gwaethaf cytundeb bras bod symudiad i'r chwith yn hanfodol ar gyfer cynaliadwyedd hirdymor y GIG, mae Cymru wedi cael trafferth symud gofal o ysbytai i wasanaethau cymunedol a gwasanaethau ataliol ar gyflymder. Mae hyn oherwydd cyfuniad o bwysau ar y system sydd wedi ymwreiddio a rhwystrau strwythurol.

Yn ogystal â'r **baich cynyddol oherwydd cyflyrau cronig**, mae'r rhwystrau allweddol yn cynnwys y rhai canlynol:

- Oherwydd **pwysau enbyd ac ôl-groniadau wedi'r pandemig** mae'r GIG yn canolbwyntio ar weithgarwch ysbytai uniongyrchol. Mae hyn yn cael ei atgyfnerthu gan sylw gwleidyddol a sylw yn y cyfryngau ar faterion fel amseroedd aros ysbytai.
- Mae **prinder yn y gweithlu a rolau tameidiog**, wedi'u hynysu, yn llesteirio datblygiad y timau amlddisgyblaethol sydd eu hangen i gynnig gofal ataliol yn y gymuned.
- **Mae capasiti cyfyngedig yn y gymuned ac mewn gofal cymdeithasol** yn golygu bod oedi wrth ryddhau cleifion a bod llif cleifion yn arafu, gan gyfyngu ar allu'r system i symud gweithgarwch allan o'r ysbyty.
- **Mae cyllidebau blynyddol a fframweithiau perfformiad yn cymell gweithgarwch acíwt**, tra bod gwasanaethau ataliol a chymunedol - lle mae manteision yn dod i'r amlwg dros nifer o flynyddoedd ac yn rhychwantu ffiniau sefydliadol - yn cael trafferth sicrhau buddsoddiad hirdymor sefydlog.

Un o'r prif heriau yw symud adnoddau oddi wrth ofal eilaidd heb ansefydlogi gwasanaethau ysbyty hanfodol. Er enghraifft, er yn croesawu ehangu gwasanaethau optometreg cymunedol, **rhybuddiodd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol** yn y Chweched Senedd bod tynnu sylw neu fuddsoddiad oddi ar ofal offthalmoleg eilaidd yn bygwth gwaethygu arosiadau hir, gyda

chanlyniadau difrifol i bobl sydd mewn perygl o golli golwg y mae modd ei atal.

Mae trawsnewid system yn llwyddiannus hefyd yn dibynnu ar gefnogaeth gadarn gan y cyhoedd. Mae **ymgysylltu cynnar ac ystyrlon ar lefelau cenedlaethol a lleol** yn allweddol i sicrhau mewnbwn a chefnogaeth y gymuned ar gyfer newidiadau o ran sut a ble mae gwasanaethau'n cael eu darparu.

## Tystiolaeth ryngwladol: beth all Cymru ei ddysgu o wledydd eraill?

Mae profiad rhyngwladol yn dangos nad yw'r rhwystrau hyn yn unigryw i Gymru, ond hefyd bod cynnydd yn bosibl gyda buddsoddiad parhaus ac ymrwymiad ar draws y system. Er bod systemau iechyd yn wahanol ar draws gwledydd, mae'r enghreifftiau hyn yn cynnig mewnwelediadau sy'n berthnasol i'r cyd-destun Cymreig.

Mae adroddiad **sganio'r gorwel** Iechyd Cyhoeddus Cymru 2023 yn tynnu sylw at wledydd fel Brasil a Slofenia, lle mae atal sydd wedi'i wreiddio yn y gymuned, presgripsiynu cymdeithasol, hyfforddiant ar y cyd, a chydweithio traws-sector wedi helpu i leihau'r pwysau ar ysbytai.

Mae gwersi pellach o adroddiad 2025 Ymddiriedolaeth Nuffield, **From Hospital to Community** - sy'n edrych ar Ddenmarc ac Iwerddon - yn dangos bod strategaethau symud i'r chwith llwyddiannus yn dibynnu ar gydsyniad trawsbleidiol, cynllunio hirdymor, a chryfhau'r gweithlu cymunedol.

Yn hollbwysig, mae gwasanaethau cymunedol yn y gwledydd hyn wedi cael eu cryfhau yn gyfochrog yn hytrach na'u hariannu drwy doriadau i gyllidebau ysbytai, gan gydnabod bod yn rhaid i ostyngiad mewn gweithgarwch ysbytai gyd-fynd â digon o gapasiti cymunedol i amsugno mwy o alw.

## Mae angen gweithredu y tu hwnt i'r GIG

Ni all symud i'r chwith lwyddo os yw **tai o ansawdd gwael**, **ansicrwydd o ran gwaith**, neu **ynysu cymdeithasol**, yn parhau i danseilio iechyd pobl. Mae'r GIG yn rhan hanfodol o'r system, ond mae'r ffactorau sy'n dylanwadu fwyaf ar iechyd yn bodoli y tu hwnt i ofal iechyd.

Amodau cymdeithasol, diwylliannol, economaidd, amgylcheddol a strwythurol sy'n dylanwadu ar fywydau pobl - gan gynnwys addysg, gwaith teg, incwm, tai, trafnidiaeth, a'r amgylchedd naturiol ac adeiledig - **yw'r penderfynyddion**

**ehangach o ran iechyd**. Mae'r penderfynyddion hyn yn sbarduno canlyniadau ac anghydraddoldebau iechyd i raddau llawer mwy na gofal iechyd yn unig, ac maen nhw wrth wraidd dull hirdymor Cymru o wella llesiant, gan gynnwys **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**.

Mae tystiolaeth gan **y Sefydliad Iechyd**, **Comisiwn y BMJ**, a **Chronfa'r Brenin** yn dangos yn gyson na all y GIG, ar ei ben ei hun, gyflawni gwelliannau mawr yn iechyd y boblogaeth. Mae cynnydd parhaol yn dibynnu ar gamau cydlynol trawslywodraethol a thraws-sector i wella'r amodau y mae pobl yn byw ynddynt, gan leihau'r galw y mae modd ei osgoi ar wasanaethau iechyd a gofal, a galluogi pobl i ffynnu yn eu cymunedau.

## O'r weledigaeth i'r gweithredu

Mae Cymru wedi cydnabod ers tro bod angen symud gofal tuag at atal, ymyrraeth gynharach, a chefnogaeth yn y gymuned. Mae'r uchelgais yn glir, ac mae llawer o'r meini ar gyfer system iechyd a gofal mwy cynaliadwy eisoes yn eu lle. Bydd cyflwyno'r newid 'symud i'r chwith' yn gofyn am fuddsoddiad hirdymor mewn gwasanaethau cymunedol, cymhellion wedi'u halinio ar gyfer atal, a model gweithlu sy'n ystyried parhad a gofal rhagweithiol. Y cwestiwn nawr yw, nid a all Cymru fforddio newid, ond a all fforddio peidio â gwneud hynny.

### Ffynonellau allweddol

- Llywodraeth Cymru, **Cymru Iachach** (2018 a diweddariadau)
- Llywodraeth Cymru, **Cyngor ar Wyddoniaeth a Thystiolaeth: Y GIG mewn 10 mlynedd a mwy - Archwiliad o effaith amcanestynedig cyflyrau hirdymor a ffactorau risg yng Nghymru** (2023)
- Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, **Cefnogi pobl sydd â chyflyrau cronig** (2025)
- Ymddiriedolaeth Nuffield, **Building community health and care capacity: Reflections from other countries** (2023)

**Erthygl gan Philippa Watkins, Ymchwil y Senedd, Senedd Cymru**



# Diwygio gofal cymdeithasol oedolion: a yw Cymru yn barod i wynebu'r pwysau cynyddol ar y system gofal?

**Mae degawdau o oedi o ran diwygio, cynnydd mewn costau a galw, a gweithlu dan bwysau wedi creu ansefydlogrwydd a fydd ond yn dwysáu os na fydd camau mawr yn cael eu cymryd i greu system gofal fwy cynaliadwy.**

Gall gofal cymdeithasol da fod yn drawsnewidiol, gan alluogi pobl i fyw gydag urddas, bod mor annibynnol â phosibl, a chael ansawdd bywyd gwell.

Fodd bynnag, mae'r sector gofal o dan bwysau difrifol a chynyddol. Mae cynnydd mewn galw, anghenion cynyddol gymhleth, prinder parhaus o ran gweithlu, a phwysau ariannol wedi creu sefyllfa fregus o ran gofal cymdeithasol oedolion a phlant fel ei gilydd. Mae gwasanaethau yn cael trafferth diwallu anghenion, ac mae dibyniaeth gynyddol ar ofalwyr di-dâl. Mae llawer o'r heriau ym maes **gofal cymdeithasol oedolion** a **phlant**, a gafodd eu hamlygu yn ystod gwaith craffu yn y Chweched Senedd, yn parhau heddiw.

Gall costau gofal i'r rhai sydd ei angen fod yn uchel iawn ac yn anodd eu rhagweld. Mae'r problemau gyda'r model cyllido presennol wedi cael eu cydnabod ers degawdau. Fel y gwnaeth **Llywodraeth Cymru** gydnabod yn 2009, mae'r "system bresennol o dalu am ofal yn rhy gymhleth, yn annheg, ac yn amhosibl i'w chynnal yn y tymor hwy".

Er gwaethaf nifer o adolygiadau a chomisiynau gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, bu oedi dro ar ôl tro o ran diwygiadau mawr. Mae **Ymddiriedolaeth Nuffield yn disgrifio** 30 mlynedd o ddiffyg gweithredu yn Lloegr, sydd â chanlyniadau clir o ran cynnydd yng Nghymru.

## Beth sydd wedi digwydd yng Nghymru a Lloegr?

Yn 2011, fe wnaeth y **Comisiwn Dilnot argymell diwygiadau**, gan gynnwys cap oes ar gostau gofal, gan rybuddio bod cyllid gofal cymdeithasol oedolion wedi cael ei anwybyddu am rhy hir, a heb weithredu y byddai'r problemau'n

gwaethygu ac yn niweidio'r rhai mwyaf agored i niwed. Bwriad cychwynnol Llywodraeth y DU **oedd gweithredu fersiwn o'r diwygiadau hyn** yn Lloegr (gyda chyllid canlyniadol i Gymru), ond cafodd hyn ei oedi dro ar ôl tro gan lywodraethau dilynol ac yn y pen draw **cafodd ei ganslo gan Lywodraeth bresennol y DU** yn 2024 fel rhan o ostyngiadau ehangach mewn gwariant cyhoeddus. **Yn 2025, sefydlodd gomisiwn annibynnol newydd, dan gadeiryddiaeth y Farwnes Casey**, i adeiladu consensws cenedlaethol ynghylch gwasanaeth gofal cenedlaethol newydd, a fydd yn ceisio mynd i'r afael o'r diwedd â diwygio gofal cymdeithasol.

Fe wnaeth **Llywodraeth Cymru roi ystyriaeth am gyfnod byr** i gynyddu treth incwm i ariannu gofal cymdeithasol, yn dilyn **cynnig yr Athro Holtham (2018)** ar gyfer model yswiriant cymdeithasol datblygedig, wedi'i ariannu gan ardoll. Cafodd y dull hwn — sef ei gwneud yn ofynnol i bobl gyfrannu cyfran o'u hincwm i gronfa gofal ar gyfer y dyfodol — **ei ddiystyru'n ddiweddarach** cyn etholiad y Senedd 2021.

Gwnaeth **Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Senedd y DU (2025) y sylw** fod llywodraethau wedi camu'n ôl dro ar ôl tro o ddiwygio gofal cymdeithasol oedolion pan oedd rhaid wynebu'r gost, heb ystyried y gost ddynol ac ariannol yn sgil diffyg gweithredu. Tynnodd sylw at dystiolaeth y gallai pob £1 sy'n cael ei buddsoddi mewn gofal cymdeithasol roi £1.75 i'r economi ehangach.

## Beth yw cyflwr presennol gofal cymdeithasol oedolion yng Nghymru?

Mae **Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) yn pwysleisio** bod gwasanaethau cymdeithasol yn wynebu heriau ariannol acíwt sy'n ehangu, gyda mwy na **81,000 o bobl** yn dibynnu ar ofal a chymorth. Ym mis Mawrth 2026, **nododd cynghorau** orwariant o £69 miliwn yn ystod y flwyddyn mewn gofal cymdeithasol, wedi'i yrru gan alw cynyddol ac achosion cynyddol gymhleth.

**Dywed Fforwm Gofal Cymru** fod y sector o dan straen enfawr, gan orfod mynd i'r afael â phwysau gweithlu parhaus, cyfraddau ffioedd anghynaladwy, a chostau cyflogwyr cynyddol. Yn aml, nid yw'r cyfraddau ffioedd sy'n cael eu pennu gan awdurdodau lleol yn talu am gost lawn gofal, ac maent yn amrywio'n sylweddol ledled Cymru. Mae **tystiolaeth i Bwyllgor Llywodraeth Leol a Thai y Chweched Senedd** yn dangos y gall ffioedd am ofal nyrsio amrywio cymaint â £9,000 y flwyddyn rhwng awdurdodau cyfagos.

I'r rhai sy'n ariannu eu gofal eu hunain yn llawn ('hunan-arianwyr'), mae **costau wythnosol cyfartalog** tua £1,156 ar gyfer gofal preswyl, a £1,394 ar gyfer gofal nyrsio. Mae'r **Comisiynydd Pobl Hŷn** yn tynnu sylw at annhegwch lle mae defnyddwyr gwasanaeth yn ysgwyddo pwysau ariannu, gyda strwythurau ffioedd a ffioedd ychwanegol anghyfartal yn golygu bod llawer o hunan-arianwyr i bob pwrpas yn rhoi cymhorthdal i leoliadau cartrefi gofal a ariennir yn gyhoeddus.

## Y pwysau ar y gweithlu

Mae pwysau staffio yn parhau i fod yn bryder mawr, gydag anawsterau parhaus o ran swyddi a recriwtio a chadw, er gwaethaf cyflwyno'r **cyflog byw gwirioneddol ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol**. Mae **mwy na chwarter y gweithwyr gofal cartref** ar gontractau dim oriau. Yn ôl **arolwg gweithlu diweddaraf Gofal Cymdeithasol Cymru** (2025) roedd un o bob pump o weithwyr gofal cymdeithasol yn anelu at adael y sector o fewn tua 14 mis, gan nodi cyflog isel, amodau gwael a dilyniant cyfyngedig.

## Cynnydd mewn oedi a rhestrau aros

Ar hyn o bryd, nid yw Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi data ar amseroedd aros ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol, ond mae rhanddeiliaid yn nodi bod oedi hir a chynyddol.

- Mae **CLlLC yn tynnu sylw** at aros cynyddol am asesiadau, pecynnau gofal, offer cymorth a therapi galwedigaethol.
- Dangosodd **ymchwil Age Cymru** yn 2024 fod bron i un o bob pedwar o bobl hŷn yn dal i aros mwy na 30 diwrnod am asesiad gofal, ac roedd un o bob chwech yn aros mwy na 30 diwrnod i ofal gael ei drefnu.
- Yn ôl **Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS) Cymru** mae rhestrau aros ar gyfer asesiadau gofalwyr yn y rhan fwyaf o ardaloedd, sy'n atal gofalwyr rhag cael y cymorth sydd ei angen arnynt.

## Y pwysau ar ofalwyr di-dâl

Amcangyfrifwyd bod gwerth gofal di-dâl yng Nghymru (yn 2023) tua **£10.6 biliwn y flwyddyn**, ond mae llawer o ofalwyr yn **agos at dorri i lawr**. Mae Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Senedd **yn dweud** bod achosion

helaeth o anghenion heb eu diwallu, gyda gofalwyr yn profi caledi ariannol, dirywiad o ran iechyd corfforol a meddyliol, a blinder.

**Daeth Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y DU i'r casgliad** mai gofalwyr di-dâl sy'n ysgwyddo'r gost fwyaf o'r methiant i ddiwygio gofal cymdeithasol oedolion, ac argymhellodd y dylai Comisiwn Casey sefydlu ffrwd waith bwrpasol ynghylch lleihau'r pwysau ar ofalwyr.

## Sut y gellid ariannu gofal cymdeithasol oedolion yn wahanol?

Mae yna amryw **opsiynau ar gyfer modelau cyllido amgen** a allai cymryd lle'r **system prawf modd bresennol**, megis:

- **Yswiriant cymdeithasol:** Mae pawb yn talu i gronfa yn ystod eu bywyd ac yn derbyn cymorth os byddant yn datblygu anghenion gofal. Mae modelau yswiriant cymdeithasol yn gweithredu mewn nifer o wledydd, gan gynnwys **yr Almaen**, **Japan**, ac **Awstria**.
- **Gofal personol am ddim:** Mae cymorth gyda thasgau bywyd bob dydd (e.e. golchi a gwisgo) am ddim, ond mae gofal preswyl yn parhau i fod yn ddibynnol ar brawf modd, fel yn **yr Alban**.
- **System tebyg i'r GIG:** Byddai gofal cymdeithasol cynhwysfawr am ddim pan fyddai ei angen, yn debyg i fodel **Denmarc**. Nododd **Cytundeb Cydweithio Llywodraeth Cymru â Phlaid Cymru** yn 2021 uchelgais ar y cyd ar gyfer Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol yn seiliedig ar yr egwyddor hon.

## Y llwybr at Wasanaeth Gofal Cenedlaethol

Fe wnaeth Llywodraeth flaenorol Cymru ymgynnull grŵp arbenigol i gynghori ar ddatblygu Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol a wnaeth **argymell ddull graddol o ddiwygio codi tâl**. Ers hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi lansio'r **Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth**, a chyhoeddodd **gynllun gweithredu Cam 1,** ac yna **adroddiad diweddaru a chynllun arfaethedig Cam 2** ar ddiwedd y Chweched Senedd.

Mae'r **diweddariad diweddaraf yn dweud** bod angen gwaith ymchwil pellach i asesu opsiynau cyllido, gan ddechrau gyda modelu effeithiau gwneud gofal amhreswyl am ddim pan fydd ei angen, ac yna ymestyn gofal am ddim (ac eithrio costau llety) i leoliadau preswyl.

Mae cwestiynau mawr o hyd ynghylch sut y gellid ariannu Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol, a phryd y gallai hyn ddod yn realiti. Mae adroddiad diweddar gan y **Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg (CIPFA) ac Uned Gwybodaeth Llywodraeth Leol (LGiU)** yn cyfeirio at feirniadaeth rhanddeiliaid, sef er bod cynllun gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol a'i Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth wedi rhoi'r argraff bod cynnydd yn cael ei wneud, nad ydynt wedi trosi i ganlyniadau diriaethol.

Fe wnaeth y **grŵp arbenigol argymell** 'sgwrs genedlaethol' ar lefel y cyllid sydd ei angen, ac a yw'r cyhoedd yn fodlon talu am hyn. Tynnodd sylw hefyd at yr angen i ystyried a oes modd blaenoriaethu gofal cymdeithasol dros feysydd gwariant eraill ac, os na, a ddylid ystyried mecanweithiau fel pwerau treth incwm datganoledig. Rhybuddiodd y bydd diffygion presennol yn dwysáu heb gyllid newydd.

## Beth sy'n wynebu gofal cymdeithasol oedolion?

Eleni mae **Comisiwn Casey yn bwriadu** rhyddhau ei adroddiad cyntaf a lansio sgwrs genedlaethol ar ddyfodol gofal cymdeithasol oedolion yn Lloegr, gyda disgwyl adroddiad terfynol yn 2028. Mae **cynllun gweithredu Cam 2 arfaethedig (2026-28)** Llywodraeth Cymru yn cynnwys cynlluniau i ymgynghori ar egwyddorion dylunio cenedlaethol ar gyfer Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol.

Mae Cymru bellach yn wynebu moment dyngedfennol o ran gofal cymdeithasol oedolion. Er bod Llywodraeth flaenorol Cymru wedi gosod gweledigaeth hirdymor ar gyfer Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol, bydd cynnydd ystyrlon gyda diwygiadau yn dibynnu ar wynebu cwestiynau sylfaenol am gyllid, ewyllys gwleidyddol, a chonsensws y cyhoedd.

A fydd camau yn cael eu cymryd yn y Seithfed Senedd i adeiladu system gofal sy'n decach, yn fwy cynaliadwy ac yn wydn — un y mae'r rhan fwyaf ohonom yn debygol o ddibynnu arni ar ryw adeg yn ein bywydau?

## Ffynonellau allweddol

- Llywodraeth Cymru, **Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol: cyflawni a'r camau nesaf** (2026)
- Llywodraeth Cymru, **Tuag at Wasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol, Adroddiad y Grŵp Arbenigol** (2022)
- CIPFA a LGiU, **A National Care Service Series** (2025-26)
- The King's Fund, **Fixing Social Care: the six key problems and how to tackle them** (2025)

**Erthygl gan Amy Clifton, Ymchwil y Senedd, Senedd Cymru**





# A all GIG Cymru fynd yn ddigidol?

## Mae adnoddau digidol eisoes yn ail-lunio sut mae cleifion yn rhyngweithio â GIG Cymru, ond beth fydd ei angen i droi'r cynnydd cynnar hwn yn drawsnewidiad ar draws y system?

Mae'r newid o bapur i ddigidol yn newid sut mae'r GIG yn darparu gofal yng Nghymru. Gall cleifion nawr archebu presgripsiynau amlroddadwy o'u ffôn, gweld arbenigwr dros fideo o'u hystafell fyw, neu gael teclyn deallusrwydd artiffisial i helpu i ganfod canser o belydr-X o'r frest.

Gallai'r newidiadau hyn ddod â manteision sylweddol mewn gwlad sydd â **phoblogaeth wledig fawr**, lle mae'n rhaid i lawer o gleifion deithio pellteroedd maith i gael mynediad at wasanaethau ysbyty. Eto i gyd, mae'n annhebygol y bydd y newid yn syml. Rhaid i Gymru ymdopi â **phoblogaeth sy'n heneiddio** a **chyfraddau uwch o allgáu digidol** na chyfartaledd y DU. Mae yna hefyd **bryderon parhaus** ynglŷn â gallu **Iechyd a Gofal Digidol Cymru** i gyflwyno rhaglenni mawr.

Roedd **Strategaeth Ddigidol a Data ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol** Llywodraeth flaenorol Cymru yn gosod y cyfeiriad ar gyfer trawsnewid digidol. Bydd angen i'r llywodraeth newydd benderfynu ar y ffordd orau o adeiladu arno, ar ba gyflymder y gellir ei gyflawni, a ble mae'r anghenion mwyaf.

### Ap GIG Cymru

Efallai mai'r arwydd mwyaf gweladwy o drawsnewidiad i gleifion yw **Ap GIG Cymru**, sy'n cael ei ddefnyddio gan dros **650,000 o bobl**, sef tua un o bob pum oedolyn yng Nghymru. Mae'r ap yn caniatáu i ddefnyddwyr archebu presgripsiynau amlroddadwy, gweld eu safle ar restrau aros ysbytai, a chael mynediad at gyngor a gwybodaeth iechyd. Mae nodweddion ychwanegol, gan gynnwys mynediad at ganlyniadau profion a chofnodion iechyd, **wedi'u cynllunio ar gyfer y flwyddyn i ddod**.

Y weledigaeth yw i'r ap ddod yn '**ddrws ffrynt digidol**' i wasanaethau iechyd a gofal yng Nghymru, ac mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn bwriadu cynyddu nifer y defnyddwyr rheolaidd i **dros 1 miliwn erbyn 2030**. Ac eto, mae'r ap yn dal i gynnig llai o nodweddion na'r **ap cyfatebol yn Lloegr**, sef bwlch a ddaeth i'r

amlwg **yn ystod gwaith craffu** yn y Chweched Senedd.

## Diwedd presgripsiynau papur?

Mae presgripsiynu wedi dibynnu ers tro ar bapur: presgripsiynau wedi'u llofnodi'n cael eu cario i fferyllfeydd a siartiau cyffuriau wedi'u hysgrifennu â llaw wrth ochr gwelyau cleifion. Nod y rhaglen **Moddion Digidol** yw digideiddio'r prosesau hyn ar draws pob lleoliad gofal.

Mewn gofal sylfaenol, mae'r **Gwasanaeth Presgripsiynau Electronig** yn caniatáu i feddygon teulu anfon presgripsiynau'n uniongyrchol i fferyllfeydd, gan ryddhau amser clinigwyr, lleihau gwallau, a dileu'r angen i gleifion ymweld â meddygfa i gasglu presgripsiwn.

Roedd Cymru yn hwyr i fabwysiadu'r system hon. Cyflwynodd **Lloegr** a'r **Alban** bresgripsiynau electronig yn 2009, tra bod y presgripsiwn electronig cyntaf yng Nghymru wedi'i roi ym mis **Tachwedd 2023**. Ers hynny, fodd bynnag, mae'r nifer wedi cynyddu, gyda mwy na 15 miliwn o eitemau wedi'u dosbarthu erbyn mis **Chwefror 2026**.

Mewn ysbytai, mae **Rhagnodi a Gweinyddu Meddyginiaethau Gofal Eilaidd yn Electronig (ePMA)** yn disodli siartiau cyffuriau papur gyda system ddigidol sy'n cynnwys gwiriadau diogelwch. Yn ddiweddar, **Ysbyty Maelor Wrecsam** oedd y safle acíwt cyntaf yng Nghymru i ddefnyddio ePMA ar draws pob ward cleifion mewnol ac i fwydo gwybodaeth am feddyginiaethau rhyddhau i'r system genedlaethol, **Cofnod Meddyginiaethau a Rennir**. Y nod yw i hyn wasanaethu fel un cofnod cyfredol o feddyginiaethau pob claf yng Nghymru.

## Adeiladu un cofnod claf

Mae hyn i gyd yn dibynnu ar seilwaith data a all gysylltu systemau, cofnodion a gwasanaethau. Ledled Cymru, mae **cannoedd o systemau digidol ar wahân** yn golygu y dylai gwybodaeth am gleifion lifo'n ddi-dor rhwng gwasanaethau, **ond yn aml nid yw hyn yn digwydd**, gyda **chanlyniadau difrifol** posibl o ran diogelwch cleifion.

**Uchelgais hirdymor** Iechyd a Gofal Digidol Cymru yw creu un cofnod electronig sy'n cwmpasu iechyd a gofal i bob person yng Nghymru, gan sicrhau bod gwybodaeth hanfodol yn dilyn cleifion lle bynnag y cânt eu trin.

Mae'r cynnydd sydd wedi cael ei wneud tuag at hyn yn cynnwys **Porth Clinigol Cymru**, sy'n rhoi mynediad i weithwyr proffesiynol y GIG at gofnodion iechyd

digidol cleifion. Cymru oedd **y genedl gyntaf yn y DU** i rannu'r wybodaeth hon ar draws ffiniau pob bwrdd iechyd. Mae **Adnodd Data Cenedlaethol** yn cael ei ddatblygu i ategu'r system, a thrwy'r rhaglen **Cysylltu Gofal**, mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn datblygu **Cofnod Gofal Integredig** i gysylltu gwybodaeth ar draws y GIG, gofal cymdeithasol, a'r sector gwirfoddol.

Fodd bynnag, ni ddylwn danamcangyfrif maint y dasg. Mae prosiectau tebyg yn y DU wedi **wynebu anawsterau**, ac mae capasiti dosbarthu Iechyd a Gofal Digidol Cymru wedi cael ei gwestiynu. Yn 2023, **nododd pwyllgorau'r Senedd ddiffygion** yng ngwaith cynllunio a chyfeiriad strategol Iechyd a Gofal Digidol Cymru, ac ers hynny mae Llywodraeth Cymru wedi gosod y sefydliad mewn sefyllfa sy'n golygu **monitro estynedig** oherwydd **pryderon difrifol** ynglŷn â'i allu i gyflwyno rhaglenni mawr.

## Hyder y cyhoedd a diogelwch data

Hyd yn oed os gellir goresgyn yr heriau technegol, bydd angen ennill hyder y cyhoedd. Tra bod **y rhan fwyaf o gleifion** yn dweud y byddent yn cefnogi rhannu eu data iechyd, mae pryderon ynghylch camddefnyddio neu fynediad heb awdurdod yn parhau.

Hyd yma mae Cymru wedi creu **safle nodedig** drwy'r **Banc Data SAIL**, sy'n rheoli data iechyd dienw ar gyfer gwaith ymchwil ac sydd wedi osgoi'r **dadleuon rhannu data meddygon teulu** a gafodd eu gweld yn Lloegr. Fodd bynnag, mae digideiddio yn gwneud pethau'n fwy agored i fygythiadau seiber, ac mae'r GIG ledled y DU wedi wynebu **toriadau data difrifol** yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Bydd cynnal hyder y cyhoedd yn y ffordd y mae data yn cael eu defnyddio, pwy all gael mynediad iddynt, a sut y maent yn cael eu diogelu, yn hanfodol wrth i'r uchelgais ar gyfer rhannu data dyfu.

## Addewid a therfynau deallusrwydd artiffisial

Mae deallusrwydd artiffisial eisoes yn cael ei ddefnyddio yn GIG Cymru, gyda'i fanteision mwyaf gweladwy yn dod i'r amlwg mewn diagnosteg. Cymru oedd y rhan gyntaf o'r DU i gyflwyno'r llwyfan **Brainomix 360 ar gyfer Strôc** yn genedlaethol, sy'n defnyddio deallusrwydd artiffisial i roi dadansoddiad amser real o sganiau ymennydd i glinigwyr ac sydd wedi helpu i **gyflymu penderfyniadau o ran triniaeth**. Ym maes patholeg canser, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr oedd y **cyntaf yn y DU** i ddefnyddio'r llwyfan **Ibex Galen** i gynorthwyo gyda diagnosis o ganser y prostad, gyda threialon yn dangos **cynnydd o 13%** wrth ganfod canser. Mae GIG Cymru hefyd wedi cynnal

peilot o'r llwyfan **Paige PanCancer Detect**, ac yn ôl **adroddiadau**, mae hyn wedi lleihau'r amser o'r sampl gychwynnol hyd at y diagnosis, o dri mis i wythnos neu ddwy.

Mae deallusrwydd artiffisial hefyd yn lleihau'r baich gweinyddol ar glinigwyr. Mae offer ysgrifennu deallusrwydd artiffisial fel **Magic Notes**, sy'n cael ei **ddefnyddio gan dimau gofal cymdeithasol ym Mhowys**, yn gallu gwrando ar sgyrsiau clinigol a'u trosi'n awtomatig yn ddogfennaeth feddygol strwythuredig, gan ryddhau amser staff ar gyfer gofal uniongyrchol.

Fodd bynnag, ar draws yr holl ddatblygiadau hyn mae egwyddor gyson yn berthnasol: y dylai deallusrwydd artiffisial gefnogi, nid disodli, barn glinigol. Mae sail dda i'r rhybudd hwn. Er bod deallusrwydd artiffisial yn perfformio'n gryf mewn tasgau strwythuredig, wedi'u diffinio'n dda, mae ei ddibynadwyedd **yn gostwng yn sylweddol** wrth ymdrin ag ansicrwydd neu resymu agored.

Mae **ChatGPT Health**, a gafodd ei lansio ym mis Ionawr 2026, ond **nid yw ar gael yn y DU ar hyn o bryd**, yn dangos y risg o gymhwyso deallusrwydd artiffisial at ddiben cyffredinol mewn lleoliadau clinigol. Yn ôl **astudiaeth ddiweddar**, methodd dros hanner yr argyfyngau meddygol difrifol.

## Mynediad gwell i rai, rhwystrau newydd i eraill

Mae trawsnewid digidol mewn perygl o adael y bobl a fydd yn elwa fwyaf ar ôl. Amcangyfrifir nad yw **4% o oedolion** yng Nghymru yn defnyddio'r rhyngrwyd o gwbl, ac mae allgáu digidol yn effeithio'n anghymesur ar **bobl hŷn, cymunedau gwledig, a'r rhai ar incwm isel**.

Eto i gyd, gall absenoldeb gwasanaethau digidol fod yn eithriol ynddo'i hun. Ym Mhowys, lle nad oes ysbyty cyffredinol dosbarth, mae **clinigau rhithwir** yn caniatáu i gleifion weld arbenigwyr drwy fideo yn hytrach na theithio i ysbytai y tu allan i'r sir. Mae **wardiau rhithwir** yn mynd â hyn gam ymhellach, gan alluogi cleifion i wella gartref gyda dyfeisiau gwisgadwy sy'n olrhain arwyddion hanfodol ac yn rhybuddio timau clinigol am arwyddion cynnar o ddirywiad.

Ond mae'r manteision hyn yn dibynnu ar allu cleifion i gael gafael arnynt. I'r rhai heb ryngrwyd dibynadwy, dyfeisiau fforddiadwy, na'r hyder i'w defnyddio, y risg yw bod trawsnewid digidol yn ehangu'r bwlch y mae'n bwriadu ei gau.

## A all y broses o gyflawni gyd-fynd â'r uchelgais?

Bydd angen i'r Seithfed Senedd graffu ar sut mae Llywodraeth Cymru yn llywio'r risgiau a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â thrawsnewid digidol, ac mae rhai cwestiynau anodd o'n blaenau.

A oes digon o fuddsoddiad i gyflawni trawsnewidiad ar y raddfa a'r cyflymder sydd eu hangen? Sut y gall arloesi digidol leihau, yn hytrach na lledaenu, anghydraddoldebau iechyd presennol? A sut gall y GIG roi hyder i gleifion fod eu data iechyd yn ddiogel, yn sicr, ac yn cael eu defnyddio er eu buddiannau?

### Ffynonellau allweddol


- Llywodraeth Cymru, **Strategaeth digidol a data ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru** (2023)
- Llywodraeth Cymru, **Rhagolwg cynhwysiant digidol: tuag at Gymru ddigidol hyderus** (2020)
- Iechyd a Gofal Digidol Cymru, **Strategaeth Sefydliadol 2024–2030** (2024)
- NHS Alliance, **Sut mae gwasanaethau digidol a data yn cael eu darparu yn y GIG yng Nghymru?** (2025) (Saesneg yn unig)


**Erthygl gan John Hitchcock, Ymchwil y Senedd, Senedd Cymru**


Average monthly

# Yr economi





# Adnewyddu economaidd: mynd i'r afael â heriau hen a newydd

## Mae economi Cymru yn wynebu heriau strwythurol hirsefydlog, fel bylchau o ran cynhyrchiant, incwm a sgiliau, yn ogystal ag anghydraddoldebau rhanbarthol. Mewn cyd-destun byd-eang ansicr, sut gallai Llywodraeth newydd Cymru geisio mynd i'r afael â'r rhain?


Roedd yr Athro Kevin Morgan o Brifysgol Caerdydd **yn dadlau bod** Cymru yn agosáu at ganrif o ddirywiad economaidd cymharol. **Mae cyfraddau cyflogaeth yn uwch**, ac mae cyfraddau **diweithdra** ac **anweithgarwch economaidd** yn is nag ar ddechrau datganoli. Fodd bynnag, mae bylchau parhaus rhwng Cymru a rhannau eraill o'r DU yn parhau o ran twf, cynhyrchiant, sgiliau ac anghydraddoldebau rhanbarthol.

### Heriau twf hirdymor


Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol **yn disgrifio Cynnyrch Domestig Gros fel** y prif fesur o dwf economaidd yn seiliedig ar werth nwyddau a gwasanaethau a gynhyrchir yn ystod cyfnod penodol.

Mae Cynnyrch Domestig Gros Cymru fesul pen **wedi bod tua 75% o gyfartaledd y DU ers dechrau datganoli**. Mae'r ffigurau diweddaraf yn rhoi Cymru islaw holl ranbarthau Lloegr, ac eithrio gogledd-ddwyrain Lloegr, ac islaw'r gwledydd datganoledig eraill. Un o'r ffactorau allweddol sy'n achosi hyn yw **lefelau cynhyrchiant is o'i gymharu â rhannau eraill o'r DU**. Mae Llundain a de-ddwyrain Lloegr yn elwa'n arbennig o **'effeithiau crynhoi'** sy'n gysylltiedig â dwysedd cwmnïau a phoblogaeth uwch. Mae anghydraddoldebau economaidd rhanbarthol hirsefydlog yng Nghymru hefyd.


### Ffigur 1: Cynnyrch Domestig Gros fesul pen fel % o gyfartaledd y DU, 1999-2023




▸ **Ffynhonnell:** Swyddfa Ystadegau Gwladol, **Gweithgarwch economaidd rhanbarthol yn ôl cynnyrch domestig gros, y DU: 1998 i 2023**



**Ffigur 2: Cynnyrch Domestig Gros fesul pen fel % o gyfartaledd y DU ar gyfer awdurdodau lleol Cymru, 2023**




▸ **Ffynhonnell:** Swyddfa Ystadegau Gwladol, **Gweithgarwch economaidd rhanbarthol yn ôl cynnyrch domestig gros, y DU: 1998 i 2023**

Dywed Llywodraeth y DU mai **twf economaidd yw ei phrif genhadaeth**, ac mae'n allweddol ar gyfer galluogi buddsoddiad mewn gwasanaethau cyhoeddus a chodi safonau byw. I angori twf a buddsoddiad mewnol, **mae Cydffederasiwn y Diwydiant Busnes (CBI) Cymru eisiau** amgylchedd mwy rhagweladwy, sy'n cefnogi menter. Mae Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru **yn galw am strategaeth economaidd newydd** sy'n canolbwyntio ar dyfu busnesau Cymru, ynghyd ag asiantaeth datblygu economaidd.

Mae Ysgrifennydd Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig wedi **galw am symud i ffwrdd o ganolbwyntio ar Gynnyrch Domestig Gros**, gan awgrymu nad yw hyn yn ystyried cynaliadwyedd yn ddigonol. Mae o blaid cael system economaidd sy'n rhoi gwerth i'r hyn sy'n bwysig – llesiant pobl.

Datblygodd Llywodraeth flaenorol Cymru **ddangosfwrdd** ar gyfer asesu perfformiad yn erbyn wyth dangosydd economaidd allweddol, ac wedi **datblygu dangosyddion ehangach i fesur cynnydd Cymru yn erbyn saith nod llesiant**, gan gynnwys 'Cymru lewyrchus'. Mae'r **Sefydliad Materion Cymreig yn awgrymu**, er bod twf yn bwysig, yr hyn sy'n bwysicach yw'r math o dwf sy'n cael ei gyflawni a sut y gellir teimlo hyn ym mywydau pobl yng Nghymru. Mae'n


dadlau y bydd Llywodraeth nesaf Cymru yn gallu gwella llesiant yn haws gyda'i dulliau polisi nag ysgogi twf, a dylai flaenoriaethu canlyniadau sy'n cynyddu llesiant i'r eithaf.

## Cynhyrchiant araf a safonau byw yn aros yn eu hunfan

Mae cynhyrchiant yn cael **ei ddiffinio gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol fel** y berthynas rhwng mewnbynnau ac allbynnau yn yr economi: po leiaf o fewnbynnau sy'n cael eu defnyddio i gynhyrchu'r un faint o allbynnau, y mwyaf cynhyrchiol yw'r broses honno.

Mae'r DU wedi **wynebu 'penbleth cynhyrchiant'** gyda thwf cynhyrchiant yn annisgwyl o araf ers argyfwng ariannol 2008. Mae Fforwm Cynhyrchiant Cymru yn **nodi bod Cymru yn wynebu her ychwanegol**, gyda bwlch hirsefydlog rhwng lefelau cynhyrchiant Cymru a'r DU, a dim tystiolaeth bod hyn yn newid dros amser.

**Ffigur 3: Cynhyrchiant fesul awr a gafodd ei weithio fel % o gyfartaledd y DU, 1999 i 2023**




▸ **Ffynhonnell:** Swyddfa Ystadegau Gwladol, **Cynhyrchiant rhanbarthol ac is-ranbarthol, y DU: 2023**

**Er gwybodaeth**: Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi **tynnu sylw at nifer o ffactorau** y gallent wneud y data ar gyfer 2023 yn fwy anwadal nag arfer, yn enwedig ar gyfer ardaloedd llai lle mae data cynhyrchiant fel arfer yn fwy anwadal.

Dywedodd yr Athro Emeritws Andrew Henley o Brifysgol Caerdydd fod Cymru ymhell ar ôl rhanbarthau a gwledydd eraill y DU y tu allan i Lundain a de-ddwyrain Lloegr o ran arloesedd a buddsoddiad, ac y dylai **flaenoriaethu hybu cynhyrchiant yn yr ardaloedd hyn**.

Mae Llywodraeth flaenorol Cymru a Llywodraeth flaenorol y DU **wedi datblygu Cronfa Twf Lleol** i gynyddu cynhyrchiant a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb economaidd. Fodd bynnag, mae'r cyllid sydd ar gael **yn llai nag o dan raglenni datblygu rhanbarthol blaenorol**, ac **mae pryderon** ynghylch dyluniad a threfniadau cyflawni'r gronfa.

Er bod **gobaith y bydd deallusrwydd artiffisial yn ysgogi cynhyrchiant cynyddol**, mae pryderon yn parhau ynghylch y potensial ar gyfer canlyniadau negyddol ehangach. Er enghraifft, **yn ôl ymchwil diweddar gan Gyngres yr Undebau Llafur (TUC) Cymru**, mae 60% o weithwyr Cymru yn pryderu ynghylch effaith deallusrwydd artiffisial a thechnolegau newydd ar eu swydd.

Yn ogystal â bod y **prif ysgogydd twf economaidd hirdymor**, mae cynhyrchiant **yn annatod yn cael ei gysylltu â safonau byw**. Fel y **dywed yr economegydd Paul Krugman**:


> Productivity isn't everything, but, in the long run, it is almost everything. A country's ability to improve its standard of living over time depends almost entirely on its ability to raise its output per worker.

Yn dilyn twf cynhyrchiant araf ers yr argyfwng ariannol, mae safonau byw **wedi aros yn eu hunfan ledled y DU**. Mae'r Sefydliad Cenedlaethol Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol **yn amcangyfrif y byddai aelwydydd y DU bron £2,000 y flwyddyn yn well eu byd** pe bai incwm wedi parhau i dyfu yn unol â'r tueddiadau hanesyddol a welwyd cyn argyfwng ariannol 2008.

Mae'r **Swyddfa Ystadegau Gwladol** yn disgrifio Incwm Gwario Gros Aelwydydd (GDHI) fel y swm o arian y mae'n rhaid i aelwydydd a phobl sy'n byw mewn sefydliadau cymunedol ei wario neu ei arbed ar ôl talu trethi a/neu dderbyn budd-daliadau. Mae hefyd yn cynnwys incwm busnes pobl hunangyflogedig.


Yn 2023, roedd GDHI fesul pen yng Nghymru **yn 81% o gyfartaledd y DU**, yr isaf ers dechrau datganoli, ac yn is nag ym mhob rhan o'r DU ac eithrio gogledd-ddwyrain Lloegr.

**Ffigur 4: GDHI fesul pen fel % o gyfartaledd y DU, 1999 i 2023**




▸ **Ffynhonnell:** Swyddfa Ystadegau Gwladol, **Incwm gwario gros aelwydydd rhanbarthol, y DU: 1997 i 2023**

**Ffigur 5: GDHI fesul pen fel % o gyfartaledd y DU ar gyfer awdurdodau lleol Cymru, 2023**




▸ **Ffynhonnell:** Swyddfa Ystadegau Gwladol, **Incwm gwario gros aelwydydd rhanbarthol, y DU: 1997 i 2023**

Mae pwysau costau byw wedi gwaethygu'r heriau y mae llawer o aelwydydd eisoes yn eu hwynebu, ac mae eu heffeithiau'n dal i gael eu teimlo ledled Cymru. Yn ôl **cipolwg diweddaraf Sefydliad Bevan o dlodi yng Nghymru**, yn y tri mis hyd at fis Medi/Hydref 2025, aeth bron i chwarter o oedolion heb wres. Roedd cyfran debyg wedi mynd heb brydau bwyd neu wedi lleihau maint eu prydau.

Mae Cyngor ar Bopeth Cymru wedi galw ar **Lywodraeth newydd Cymru i gymryd camau** i hybu incwm aelwydydd a mynd i'r afael â chostau tai ac ynni cynyddol. Wedi dweud hynny, mae llawer o ysgogiadau allweddol y tu allan i ddwylo Llywodraeth Cymru. Mae'r Resolution Foundation **yn tynnu sylw at yr angen am** fynegeio cyson a sefydlog o fudd-daliadau nawdd cymdeithasol, yn ogystal â mesurau i gefnogi twf cyflogau.

Fodd bynnag, mae rhagolygon llwm ar gyfer yr ychydig flynyddoedd nesaf, hyd yn oed cyn unrhyw effeithiau posibl o'r gwrthdaro yn Iran. Mae'r **Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol** yn rhagweld y bydd safonau byw y DU yn parhau yn eu

hunfan am weddill y degawd.

## Cyfraddau parhaus o bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) a heriau o ran sgiliau

Mae Cymru yn gweld **gostyngiad yn nifer y prentisiaid** a **gostyngiad yng nghyfran y bobl 18 oed sy'n mynd i'r brifysgol**. Gwnaeth y rhai a ddechreuodd brentisiaethau **leihau 48% yn y sector adeiladu**, sy'n "[g]waethygu prinder gweithwyr" mewn diwydiant "sydd ei angen ar gyfer sgiliau gwyrdd a thwf yn y dyfodol". Mae **Prifysgolion Cymru** yn adrodd y bydd angen 400,000 o raddedigion ychwanegol ar Gymru erbyn 2035 i ddiwallu anghenion sgiliau cynyddol.

**Mae pobl ifanc wedi nodi ansicrwydd ynghylch cyfeiriad eu bywydau** a'r rhwystrau maen nhw'n eu hwynebu i gael mynediad at addysg, cyflogaeth a hyfforddiant. Ar yr un pryd, **mae cyflogwyr yn aml yn ei chael hi'n anodd** dod o hyd i'r sgiliau sydd eu hangen arnynt.

**Mae diweithdra ymhlith pobl ifanc yng Nghymru** wedi bod yn anwadal ond yn gyffredinol wedi gostwng dros y degawd diwethaf hyd at gynnydd dros y flwyddyn hyd at fis Medi 2025. Mae cyfran y **bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant** (NEET) yng Nghymru yn parhau i fod yn ystyfnig ac yn annerbyniol o uchel, ac **mae cynnydd wedi bod** dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae niferoedd uchel o bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn **broblem ledled y DU**, sydd wedi ysgogi Llywodraeth y DU i gomisiynu **ymchwiliad annibynnol** i bobl ifanc a gwaith.

Yn 2021, lansiodd **Llywodraeth flaenorol Cymru** y Warant i Bobl Ifanc gyda'r nod o atal pobl ifanc rhag cyrraedd sefyllfa lle nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Fodd bynnag, fe wnaeth y Prif Weinidog ar y pryd gydnabod ym mis Mawrth 2026 fod **cwestiynau ynghylch pam mae diweithdra ymhlith pobl ifanc a nifer y bobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) yn cynyddu** pan fo'r Warant i Bobl Ifanc ar gael.

Mae'r materion hyn yn codi'r cwestiwn ynghylch a yw'r system hyfforddiant a sgiliau yn cyflawni ar gyfer pobl, busnesau ac economi Cymru. O ystyried y newidiadau economaidd sydd i ddod, fel deallusrwydd artiffisial a'r newid i economi fwy gwyrdd, mae angen i'r system sgiliau fod â digon o hyblygrwydd i

ddiwallu anghenion cyflogeion a busnesau.

## Blwch derbyn llawn

Gyda dyfodol economaidd ansicr, a'r posibilrwydd y bydd sioc economaidd fyd-eang yn taro twf a safonau byw ymhellach, mae'n bosibl y bydd Llywodraeth newydd Cymru yn wynebu anawsterau byrdymor yn ogystal â'r heriau economaidd tymor hwy sy'n bodoli eisoes. Ynghyd â Llywodraeth y DU, bydd angen iddi ystyried sut i fynd i'r afael â'r rhain, yn ogystal â materion fel datgarboneiddio'r economi, deallusrwydd artiffisial a llawer mwy.

### Ffynonellau allweddol

- Sefydliad Bevan, **Ciplun ar dlodi yn hydref 2025** (2025)
- Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru, **Bargen Newydd i Fusnes** (2026)
- Jones, M. dros y Sefydliad Cynhyrchiant, **Her Cynhyrchiant Cymru: Ffocws ar y Dyfodol** (2025)
- Sefydliad Cenedlaethol Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol, **Adolygiad Safonau Byw y DU ar gyfer 2025** (2025)
- Resolution Foundation, **Rhagolygon Safonau Byw 2026** (2026)
- Llywodraeth Cymru, **Adroddiad Economaidd a Chyllidol Cymru 2025** (2025)
- Llywodraeth Cymru, **Llesiant Cymru 2025: Cymru lewyrchus** (2025)
- Llywodraeth Cymru, **Economi Cymru mewn rhifau** (2026)

**Erthygl gan Gareth Thomas a Lucy Yarham, Ymchwil y Senedd, Senedd Cymru**



# O'r crud i'r bedd: torri cylch anghydraddoldeb a thlodi

I rai pobl, mae anghydraddoldeb yn golygu dechrau'r ysgol eisoes ar ôl eu cyfoedion, wynebu gwaith ansicr a chyflogau is fel oedolion, neu gael trafferth ag iechyd gwael yn ddiweddarach mewn bywyd. Mae'r anghydraddoldebau hyn yn aml yn cael eu gwaethygu oherwydd bod gan unigolyn nodwedd warchodedig. Sut mae llunwyr polisi yn sicrhau nad yw dyfodol pobl yn cael ei bennu gan anghydraddoldebau strwythurol a thlodi?


Mae'r erthygl hon yn rhoi cipolwg ar gydraddoldeb a thlodi yng Nghymru ac yn tynnu sylw at ymyriadau polisi a gafodd eu cymryd neu eu cynnig i fynd i'r afael â'r materion hyn.

## Rhagweld y dyfodol: anghydraddoldeb yn ystod plentyndod

**Mae anghydraddoldeb yn dechrau'n gynnar** a gall bara am oes.

Ers dechrau datganoli, plant yw'r grŵp oedran **sydd fwyaf tebygol o fyw mewn tlodi**, gyda bron i draean o blant Cymru yn byw mewn tlodi ar hyn o bryd. Mae plant mewn rhai grwpiau demograffig **yn arbennig o debygol o fyw mewn tlodi**. Mae'r rhain yn cynnwys plant mewn teuluoedd mwy, plant mewn teuluoedd rhiant sengl, plant sy'n byw mewn aelwyd lle mae rhywun yn anabl, a phlant sy'n byw mewn aelwyd heb waith.

**Ffigur 1: Canran y plant sy'n byw mewn tlodi cymharol ar ôl costau tai ar gyfer y gwledydd datganoledig a rhanbarthau Lloegr, 2022-23 i 2024-25**




▸ **Ffynhonnell:** Yr Adran Gwaith a Phensiynau, **Aelwydydd sydd islaw'r incwm cyfartalog: ar gyfer y blynyddoedd ariannol a ddaeth i ben rhwng 1995 a 2025** (mae'r data a ddefnyddir ar gyfer 2022-23 i 2024-25)

Mae tystiolaeth yn dangos bod tlodi plant yn effeithio ar ddyfodol plentyn o ran **cyrhaeddiad addysgol**, **iechyd, cyflogaeth,** ac **a ydynt yn debygol o brofi tlodi fel oedolyn**.

Mae plant yng Nghymru yn wynebu ystod gymhleth o anghydraddoldebau, gan gynnwys:

- Mae'r cyfraddau marwolaethau babanod uchaf yn **parhau i fod ymhlith babanod o grwpiau ethnig Du ac Asiaidd**.
- Mae mwy nag un ym mhob 100 o blant yng Nghymru mewn gofal, ac **mae cysylltiad** rhwng tlodi a'r cynnydd yn y niferoedd. Mae tlodi yn **sbardun allweddol** o niwed i blant, gan gynnwys camdriniaeth ac esgeulustod.
- Roedd bron i 60% o blant ysgol uwchradd sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim **yn absennol yn gyson o'r ysgol yn 2024/25.**

- **Mae merched yn tueddu i gyflawni canlyniadau addysgol gwell na bechgyn**, ar gyfer TGAU a Lefel A fel ei gilydd.
- **Mae merched yn fwy tebygol o brofi lles meddwl gwael na bechgyn**, gan nodi teimladau o hwyliau isel, annifyrrwch, nerfusrwydd, neu anawsterau cysgu.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn tynnu sylw at y ffaith bod **ymyriadau gan y llywodraeth yn cael yr effaith fwyaf yn ystod y 1,000 diwrnod cyntaf** – o'r adeg genhedlu hyd at yr ail ben-blwydd. Mae'n nodi bod polisïau cost-effeithiol, sydd wedi dangos eu bod yn sicrhau budd net neu enillion ar fuddsoddiad, yn cynnwys gofal plant cyffredinol a chyfnod mamolaeth/tadolaeth â thâl i deuluoedd agored i niwed.

Mae rhai ymyriadau, er enghraifft y rhan fwyaf o fudd-daliadau nawdd cymdeithasol, yn cael eu darparu gan Lywodraeth y DU. Fodd bynnag, mae opsiynau polisi ar gael i Lywodraeth Cymru. Mae Sefydliad Bevan wedi **galw arni i fabwysiadu dull trawslywodraethol strategol** i fynd i'r afael â thlodi ymhlith plant, gyda chamau gweithredu cydlynol mewn meysydd fel tai, addysg a chyflogaeth.

Mae **Taliad Plant yr Alban** wedi cael **cryn sylw** fel dull effeithiol o leihau tlodi ymhlith plant. Mae Llywodraeth yr Alban yn amcangyfrif y bydd yn **cadw 40,000 o blant yr Alban allan o dlodi yn 2025-26**. Yn ôl adroddiad gan Policy in Practice, byddai **datblygu taliad tebyg yng Nghymru yn cael mwy o effaith** na dulliau amgen o leihau tlodi ymhlith plant. Fodd bynnag, **mae cwestiynau** ynghylch sut y gallai Llywodraeth Cymru gyflwyno taliad tebyg o fewn ei phwerau, a sut y byddai'n cael ei ariannu.

## Oedolion: y bwlch yn ymestyn

Mae anghydraddoldeb mewn bywyd oedolion yn aml yn adlewyrchu effaith gronnol anfanteision o gyfnodau cynharach yn eu bywydau, ond gall hefyd gael ei lunio gan nodweddion personol:


- Yng Nghymru a Lloegr, yr amcangyfrif yw bod 2.2 miliwn o fenywod (9.1%) ac 1.5 miliwn o ddynion (6.5%) wedi profi cam-drin domestig **yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2025**.
- Roedd adroddiadau am 6,213 o droseddau casineb yng Nghymru **yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2025**; o'r rhain, roedd 3,911 wedi'u hysgogi gan hiliaeth a 739 wedi'u hysgogi gan anabledd.

- Pobl yn y grwpiau ethnig Du, Du Cymreig, Du Prydeinig, Caribïaidd neu Affricanaidd sydd **leiaf tebygol o fod yn berchen ar eu cartref eu hunain**, ac **sydd fwyaf tebygol o fod â llai o ystafelloedd gwely nag y mae eu haelwyd eu hangen**.
- Yn seiliedig ar y tâl cyfartalog i fenywod a dynion yn 2025, dim ond mewn **5 o'r 22 awdurdod lleol** yng Nghymru y mae rhentu'n fforddiadwy (fel y caiff ei ddiffinio gan Grŵp Cyllideb Menywod Cymru) i fenywod, o'i gymharu â dynion, lle mai dim ond un awdurdod lleol (Caerdydd) sy'n anfforddiadwy.
- **Mae 27% o bobl 60 oed a hŷn** yn teimlo eu bod wedi cael eu trin yn wahanol oherwydd eu hoedran.

Mae lle rydych chi'n byw hefyd yn bwysig. Mae'r Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau **wedi tynnu sylw at** "anghydraddoldeb parhaus yn seiliedig ar le sy'n bodoli ar hyd y lled y genedl". Mae **Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru** yn dangos "pocedi o amddifadedd cymharol uchel yn ninasoedd a chymoedd de Cymru, amrywiol drefi arfordirol, a rhai trefi yn y gogledd-ddwyrain". Mae 22 o ardaloedd yng Nghymru mewn amddifadedd dwfn (**allan o 1,917 o ardaloedd**), sy'n golygu eu bod wedi bod yn gyson ymhlith y 50 ardal fach fwyaf difreintiedig yng Nghymru dros yr 20 mlynedd diwethaf.



**Ffigur 2: Map yn dangos safleoedd amddifadedd ar gyfer ardaloedd bach ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2025**




▸ **Ffynhonnell:** Llywodraeth Cymru, **Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru: 2025**


Gall cyflogaeth chwarae rhan allweddol fel llwybr allan o dlodi. Fodd bynnag, mae cyfradd gyflogaeth Cymru yn **is na'r DU** yn gyffredinol, ac o fewn Cymru

mae nifer o grwpiau demograffig yn wynebu anghydraddoldebau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth.

Mae pobl anabl yn wynebu heriau penodol wrth gael mynediad at gyflogaeth, ac mae ganddynt gyfradd gyflogaeth sydd **29 pwynt canran yn is na phobl nad ydynt yn anabl**. Roedd Llywodraeth flaenorol Cymru yn gweithio tuag at **ddatblygu rhaglenni cymorth cyflogadwyedd newydd** i ddechrau **yn 2027**. Mae ymrwymiad Llywodraeth y DU i ddatganoli cyllid cymorth cyflogaeth nad yw'n rhan o'r Ganolfan Byd Gwaith i Gymru (gan drosglwyddo hyd at £20 miliwn i ddechrau ar gyfer y **Cynlluniau peilot Arloesol Anweithgarwch Economaidd**) hefyd yn rhoi cyfle i Lywodraeth newydd Cymru fabwysiadu agwedd wahanol tuag at gynorthwyo pobl i gael gwaith.

Hyd yn oed pan fydd pobl yn gallu cael mynediad at waith, nid yw bob amser yn **llwybr allan o dlodi**. Mae bron i 75% o blant a 70% o oedolion o oedran gweithio sy'n byw mewn tlodi cymharol yn **byw mewn aelwyd lle mae rhywun sy'n gweithio**.

**Ffigur 3: Canran y plant ac oedolion o oedran gweithio mewn tlodi, yn ôl statws economaidd yr aelwyd, 2022-23 i 2024-25**




▸ **Ffynonellau:** Llywodraeth Cymru, **Plant mewn tlodi incwm cymharol yn ôl statws economaidd yr aelwyd** ac **Oedolion o oedran gweithio mewn tlodi incwm cymharol yn ôl statws economaidd yr aelwyd**

Gweithredodd Llywodraeth flaenorol Cymru **bolisïau mewn perthynas â gwaith teg** a hyrwyddo talu'r Cyflog Byw. Fodd bynnag, mae **grwpiau penodol** fel menywod, pobl anabl, a rhai grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn wynebu bylchau cyflog parhaus, gyda Llywodraeth flaenorol Cymru **yn ymrwymo i ddileu'r rhain erbyn 2050**.

Mae gan Lywodraeth y DU rôl i'w chwarae hefyd wrth wella amodau cyflogaeth ac mae wedi deddfu drwy'r **Ddeddf Hawliau Cyflogaeth**. Mae ganddi rôl hefyd wrth leihau bylchau cyflog, ac mae deddfwriaeth **yn ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr mawr adrodd ar fylchau cyflog rhwng y rhywiau** bob blwyddyn. Mae hefyd wedi **ymgynghori ar adrodd gorfodol ar fylchau cyflog** o ran ethnigrwydd ac anabledd.

## Heneiddio'n dda: anghydraddoldeb yn ddiweddarach mewn bywyd

**Mae disgwyliad oes cyfartalog yng Nghymru yn is nag yn Lloegr** ond yn uwch nag yn yr Alban. Mae lle rydych chi'n byw yng Nghymru hefyd yn bwysig, gyda **chyfraddau disgwyliad oes yn amrywio** i ddynion a menywod yn ôl awdurdod lleol.

Rhwng 2022 a 2024, roedd gostyngiad mwy yng nghymhareb **disgwyliad oes iach Cymru (y nifer o flynyddoedd ar gyfartaledd y bydd person yn eu byw mewn iechyd cyffredinol da) nag yn Lloegr a'r Alban**. Mae disgwyliad oes iach ledled Cymru ar ei **bwynt isaf ers 2010**, gyda Chymru'n cael y gyfradd disgwyliad oes iach isaf i fenywod (58.5 mlynedd) yn y DU.

Mae bron i 1 ym mhob 6 o bobl hŷn yng Nghymru yn **byw mewn tlodi incwm cymharol**. Mae mwy o fenywod hŷn yn byw mewn tlodi. Mae **incwm ymddeol is** gan fenywod hŷn hefyd oherwydd bylchau yn eu cyflogaeth sy'n deillio o rwymedigaethau gofalu a gofal di-dâl.

Gall **unigrwydd ac ynysu cymdeithasol** effeithio ar ddisgwyliad oes iach, gydag amcangyfrif o 91,000 o bobl hŷn yng Nghymru yn teimlo'n unig 'yn gyson'. Gall ansawdd tai, ynghyd ag incwm is, waethygu cyflyrau iechyd, gyda **chyfraddau tlodi tanwydd** yng Nghymru yn cynyddu wrth i bobl fynd yn hŷn.

Wrth ystyried camau gweithredu i daclo anghydraddoldebau, bydd angen i Lywodraeth newydd Cymru ystyried bod **canlyniadau mewn bywyd hŷn** yn aml yn cael eu ffurfio gan amgylchiadau cynharach, a'u bod yn adlewyrchu effaith gronnol anghydraddoldebau a brofwyd gydol cwrs bywyd person.

## Cyfleoedd i ail-lunio bywydau pobl

Mae deall sut mae anfantais ac anghydraddoldebau yn datblygu dros amser yn bwysig wrth ddylunio polisïau sy'n mynd y tu hwnt i fynd i'r afael â'r symptomau yn hytrach na'r achos. Cymerodd Llywodraeth flaenorol Cymru nifer o gamau i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a thlodi, gan ymrwymo i **ddangosyddion a cherrig milltir llesiant cenedlaethol**, cyhoeddi cynlluniau gweithredu ar **rywedd, hil, anabledd** a strategaeth ar **drais yn erbyn menywod a cham-drin domestig**. Er gwaethaf yr ymdrechion hyn, mae anghydraddoldebau a thlodi yn parhau i lywio canlyniadau i lawer o'r rheini sy'n byw yng Nghymru.

### Ffynonellau allweddol

- Dr Alison Parken, **Addressing pay inequalities in Wales: past, present and future** (2022)
- Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, **A yw Cymru'n decach?** (2023)
- Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, **Diweddariad ar Bedwerydd Adolygiad Cyfnodol Cyffredinol y DU: Cyflwyniad y Cenhedloedd Unedig** (2025)
- Sefydliad Dysgu a Gwaith, **Cynllun Iechyd a Sgiliau i Gymru** (2025)
- Llywodraeth Cymru, **Adroddiad blynyddol Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ac Adroddiad Gweinidogion Cymru** (2025)

**Erthygl gan Claire Thomas a Gareth Thomas, Ymchwil y Senedd, Senedd Cymru**





# Plant ac addysg





# Barod am yr ysgol? Presenoldeb, ymddygiad a llesiant

**Mae ysgolion wedi symud y tu hwnt i'r cyfnod adfer cyntaf yn sgil COVID-19, ond mae mwy o ddisgyblion yn colli'r ysgol, a hynny'n amlach na chyn y pandemig. O ran gwella deilliannau addysgol, sydd eisoes yn her sylweddol, mae ymddygiad disgyblion yn cael ei ystyried fwyfwy fel rhwystr, ac mae'n dwysáu pryderon presennol ynghylch llesiant dysgwyr.**

Mae lefelau presenoldeb a llesiant yn yr ysgol yn parhau i fod yn is nag yr oeddent cyn y pandemig, mae lefel absenoldeb parhaus yn uwch, mae cyfradd y gwaharddiadau ar ei huchaf erioed, ac mae athrawon a disgyblion yn nodi bod ymddygiad yn gwaethygu. Mae'r tueddiadau hyn yn cael eu gweld gliriaf mewn ysgolion uwchradd. Er i'r pandemig ddwysáu'r problemau hyn, mae rhai ohonynt i'w priodoli i batrymau tymor hwy. Ymhlith disgyblion sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol – y mesur ar gyfer hyn ers blynyddoedd lawer yw disgyblion sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim (eFSM) – mae'r adferiad yn arafach ac yn fwy anwastad.

Ers i brydau ysgol am ddim cyffredinol gael eu cyflwyno mewn ysgolion cynradd, mae cymhwystra ar gyfer prydau ysgol am ddim ar sail prawf modd yn parhau i gael ei ddefnyddio fel y prif ddangosydd o anfantais economaidd-gymdeithasol – am y tro. Roedd Llywodraeth flaenorol Cymru yn **ailystyried** sut mae anfantais economaidd-gymdeithasol yn cael ei mesur ymhlith dysgwyr ac mae'n cynnal prosiect ymchwil 'eFSM a Mwy'.

## Ai gwella ynteu lefelu y mae presenoldeb?

Yn syml, mae peidio â mynd i'r ysgol yn cael effaith uniongyrchol ar ddeilliannau addysgol dysgwyr. Gostyngodd presenoldeb yn sydyn yn dilyn y pandemig ac mae'r adferiad wedi bod yn araf (Ffigurau 1 a 2). Yn 2024/25, roedd **presenoldeb ym mhob ysgol a ariennir gan y wladwriaeth** yn 91.1%, sy'n sylweddol is

na'r ffigur cyn y pandemig o 94.3% yn 2018/19 a **meincnod "presenoldeb da" Llywodraeth Cymru o 95%**.


Mae'r bwlch presenoldeb rhwng disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim a disgyblion eraill wedi ehangu'n sylweddol ym mhob lleoliad, ond gwelir hyn gliriaf mewn ysgolion uwchradd. Ymhlith dysgwyr ysgol uwchradd, roedd presenoldeb yn 2024/25 ar gyfer dysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yn 81.2%, o'i gymharu â 91.1% ar gyfer disgyblion eraill – sef bwlch ychydig yn is na 10 pwynt canran. Mae hyn yn dangos cynnydd sylweddol o'r bwlch o 5.2 pwynt canran a welwyd cyn y pandemig yn 2018/19.

Mae **Estyn, yr arolygiaeth addysg**, **wedi dweud** bod cynnydd wedi lefelu mewn ysgolion uwchradd. Nododd bryder penodol ynghylch dysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim, a'r ffaith bod rhai ohonynt yn colli cyfran sylweddol o'r flwyddyn ysgol. Gwnaeth **adroddiad thematig Estyn** ar bresenoldeb amlygu anawsterau o ran trafnidiaeth ac anghysonderau yn nulliau awdurdodau lleol o fynd i'r afael â'r mater. Fel y cafodd ei amlinellu mewn **adroddiad o 2023 gan yr elusen Parentkind**, mae rhieni wedi nodi rhwystrau parhaus i bresenoldeb megis cyflyrau iechyd, gwrthod mynd i'r ysgol ac anghenion nad ydynt yn cael eu diwallu (e.e. anghenion dysgu ychwanegol) – roedd pob un o'r rhain yn cael eu disgrifio fel rhywbeth sydd wedi gwaethygu ers y pandemig.

Nododd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ar y pryd fod gwella presenoldeb yn **un o'i phrif flaenoriaethau**. Ceisiodd Llywodraeth flaenorol Cymru fabwysiadu dull aml-haenog o wella presenoldeb yn yr ysgol, gan ganolbwyntio ar atal, llesiant, a 'dull ysgol gyfan' o ymdrin ag iechyd meddwl. Cyhoeddodd **ganllawiau cenedlaethol wedi'u diweddaru ar bresenoldeb** a oedd yn nodi diffiniadau statudol cliriach o bresenoldeb ac absenoldeb parhaus, ac fe ddyrannodd £8.8 miliwn dros ddwy flynedd o fis Rhagfyr 2024 i ariannu, hyfforddi a chadw **Swyddogion Ymgysylltu â Theuluoedd** ychwanegol.




**Ffigur 1: Canran y sesiynau hanner diwrnod yr oedd pob disgybl, disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim, a disgyblion nad ydynt yn gymwys am brydau ysgol am ddim wedi'u mynychu: ysgolion cynradd**




▸ **Ffynhonnell:** Llywodraeth Cymru, **Presenoldeb ac absenoldeb o ysgolion cynradd: Medi 2024 i Awst 2025**, Tabl 1 a Thabl 3, 27 Tachwedd 2025

**Ffigur 2: Canran y sesiynau hanner diwrnod yr oedd pob disgybl, disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim, a disgyblion nad ydynt yn gymwys am brydau ysgol am ddim wedi'u mynychu: ysgolion uwchradd**




▸ **Ffynhonnell:** Llywodraeth Cymru, **Presenoldeb ac absenoldeb o ysgolion uwchradd: Medi 2024 i Awst 2025**, Tabl 1 a Thabl 3, 30 Medi 2025

## Mae bron i 60% o ddisgyblion ysgol uwchradd sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim yn absennol yn gyson


Dilynodd absenoldeb cyson – **a gaiff ei ddiffinio bellach** fel colli mwy na 10% o sesiynau ysgol – drywydd tebyg o gynnydd sydyn yn ystod y pandemig (Ffigurau 3 a 4). Mae ffigur 2024/25 o 27.0% ymhell uwchlaw lefel 2018/19 o 14.7%. Mae absenoldeb cyson i'w weld ar lefel anghymesur o uchel ymhlith disgyblion sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim. Yn 2024/25, fe wnaeth bron hanner y dysgwyr ysgol gynradd a oedd yn gymwys am brydau ysgol am ddim (44.7%) a thros hanner y dysgwyr ysgol uwchradd a oedd yn gymwys am brydau ysgol am ddim (58.0%) golli mwy na 10% o'r sesiynau ysgol. Mae hyn yn cymharu â 26.9% o ddysgwyr ysgol gynradd a 35.5% o ddysgwyr ysgol uwchradd yn 2018/19.

Mae'r lefelau uchel hyn o absenoldeb cyson ymhlith disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yn tynnu sylw at heriau cymhleth sydd yn aml yn gorgyffwrdd. Mae tystiolaeth amrywiol gan randdeiliaid yn awgrymu bod hyn yn cynnwys **anghenion dysgu ychwanegol (ADY) heb eu diwallu**, **diffyg cludiant am ddim o fewn tair milltir**, **tlodi ac ansicrwydd tai**, **problemau sy'n gysylltiedig ag iechyd a gorbryder**, a **phwysau teuluol ac ansefydlogrwydd**.

Yn ôl Alan Milburn, cyn-Aelod Seneddol Llafur sydd wrthi'n cynnal adolygiad ledled y DU i'r cynnydd a wneir ynghylch **pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET)**, mae'r **effaith gynyddol sy'n gweld absenoldeb o'r ysgol yn arwain at ddiweithdra hirdymor yn drychineb gymdeithasol ac economaidd sy'n digwydd mewn amser real**.




**Ffigur 3: Canran y disgyblion sy'n absennol yn gyson (yn colli 10% neu fwy o sesiynau hanner diwrnod): cynradd**




▸ **Ffynhonnell:** Llywodraeth Cymru, **Presenoldeb ac absenoldeb o ysgolion cynradd: Medi 2024 i Awst 2025**, Tabl 9 a Thabl 11, 27 Tachwedd 2025

**Ffigur 4: Canran y disgyblion sy'n absennol yn gyson (yn colli 10% neu fwy o sesiynau hanner diwrnod): uwchradd**




▸ **Ffynhonnell:** Llywodraeth Cymru, **Presenoldeb ac absenoldeb o ysgolion uwchradd: Medi 2024 i Awst 2025**, Tabl 9 a Thabl 11, 30 Medi 2025

## Ymddygiad sy'n gwaethygu a gwaharddiadau

Mae pryderon ynghylch ymddygiad disgyblion yn dyddio'n ôl ymhell cyn y pandemig, ond maent wedi dod yn fwy amlwg, gydag athrawon, plant a phobl ifanc yn nodi mwy o darfu, ymddygiad ymosodol ac anawsterau ehangach o ran rheoli teimladau.

Yn ei **adroddiad thematig, nododd Estyn** darfu cyson ar lefel isel, herfeiddio a gwrthdaro corfforol achlysurol mewn ysgolion uwchradd, yn aml yn gysylltiedig â dylanwadau allanol megis cyfryngau cymdeithasol a dynameg cyfoedion. Mae ymchwil gan **Brifysgol Bangor** yn tynnu sylw at amlder a dwyster cynyddol ymddygiad heriol, ac fe **adroddodd yr undeb athrawon NASUWT ym mis Ebrill 2025** fod digwyddiadau treisgar yn ysgolion Cymru wedi mwy na dyblu dros y tair blynedd diwethaf. Mewn **arolwg o aelodau NASUWT yn 2025**, dywedodd dros hanner yr ymatebwyr fod cam-drin geiriol neu gorfforol wedi gwneud iddynt ystyried gadael y proffesiwn.


Mewn adroddiad gan **Bwyllgor Trosedd a Diogelwch Senedd Ieuenctid Cymru ar Ymddygiad**, cafodd darlun llwm a manwl i blant a phobl ifanc ei gyfleu. Dywedodd "nad yw rhai disgyblion yn teimlo'n ddiogel lle maen nhw'n dysgu" a bod "angen rhoi sylw i hyn er eu llesiant nhw, a'u galluogi i roi 100% tuag at eu haddysg". **Derbyniodd** Llywodraeth Cymru bob un o wyth argymhelliad Senedd Ieuenctid Cymru.

Yn 2025, cynhaliodd Llywodraeth Cymru sesiwn ford gron ynghylch trais a diogelwch ac Uwchgynhadledd Ymddygiad Genedlaethol, **gyda'r ddau ddigwyddiad yn pwysleisio** cysondeb cenedlaethol, arfer sy'n seiliedig ar drawma, dysgu proffesiynol, cydweithio amlasiantaeth a rhannu data, gwell ymgysylltiad â'r gymuned a theuluoedd, a llais cryfach i'r dysgwr. Yn dilyn yr uwchgynhadledd, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **'becyn cymorth' ymddygiad newydd**.

O ran ymddygiad dysgwyr, mae tueddiadau gwahardd o'r ysgol yn rhan o'r darlun, ond mae'r mater yn un llawer ehangach. Mae'r data dros dro'n dangos bod **cyfradd y gwaharddiadau cyfnod penodol ar gyfer ysgolion uwchradd** bron wedi dyblu o 78.3 fesul 1,000 o ddisgyblion yn 2018/19 i 149.9 fesul 1,000 o ddisgyblion yn 2023/24. Ym mhob lleoliad, mae cyfradd y gwaharddiadau cyfnod penodol i ddysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim **bron pedair gwaith y gyfradd i ddisgyblion nad ydynt yn gymwys am brydau ysgol am ddim**.

Yn wahanol i gyfraddau presenoldeb, sydd wedi dangos gwelliant bach ers y pandemig, mae cyfraddau'r gwaharddiadau (cyfnodau penodol a pharhaol) wedi codi bob blwyddyn ers 2021/22 ac maent bellach ar eu lefel uchaf ers i'r gyfres ddata ddechrau yn 2011/12. Yn gynharach eleni, cafodd hyn ei ddisgrifio fel rhywbeth annerbyniol gan y **Prif Weinidog** ac **Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg** bryd hynny. Mae'r patrymau hyn yn codi cwestiynau ynghylch gallu'r system addysg i ddiwallu anghenion cynyddol, effeithiolrwydd ymyrraeth gynnar, a'r gofynion cynyddol ar dimau cymorth bugeiliol a chymorth ymddygiad.

**Ffigur 5: Cyfraddau gwaharddiadau (cyfnod penodol a pharhaol) ar gyfer pob disgybl, disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim a disgyblion nad ydynt yn gymwys am brydau ysgol am ddim**




▸ **Ffynhonnell:** Llywodraeth Cymru, **Gwaharddiadau parhaol a chyfnod penodol o ysgolion: Medi 2023 i Awst 2024 (dros dro)**, Tabl 1 a Thabl 4, 11 Tachwedd 2025

## Mae llai o ddysgwyr yn fodlon â'u bywyd nawr nag yn 2017

Mae llesiant disgyblion wedi dringo'r agenda yn sgil pwyslais Llywodraeth Cymru ar **'ddull ysgol gyfan' o ymdrin ag iechyd meddwl**. Yn naturiol ddigon, caiff ei ystyried bod llesiant dysgwyr yn gysylltiedig yn agos â phresenoldeb ac ymddygiad.

Yn ei arolwg o ysgolion uwchradd yn 2023/24, gwelodd y **Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion (SHRN)** ddirywiad ymhlith dysgwyr o ran boddhad â

bywyd a llesiant meddyliol. Gostyngodd boddhad â bywyd ar draws dysgwyr oedran uwchradd o 84.8% yn 2017 i 80.0% yn 2023. Mae'r data hefyd yn tynnu sylw at anghydraddoldebau parhaus. Mae bwlch o 13.6 pwynt canran mewn boddhad â bywyd rhwng disgyblion â'r Sgorau Cyfoeth Teuluol isaf (70.9%) ac uchaf (84.5%).

Hefyd, roedd **cynnydd sydyn yn nifer y disgyblion sy'n dangos lefelau uchel neu uchel iawn o anawsterau** ar draws problemau cyfoedion, gorfywiogrwydd, problemau emosiynol ac ymddygiad. Mae'r gyfran hon wedi cynyddu, o 25.8% yn 2019 i 35.2% yn 2023.

Canfu arolwg yn 2022 ar ran y **Comisiynydd Plant** fod gan 63.2% o blant 7-11 oed a 66.6% o blant 12-18 oed "bryderon" am eu hiechyd meddwl/llesiant. Mae'r ffactorau sy'n sbarduno llesiant isel yn cynnwys mwy o orbryder, straen teuluol, pwysau sy'n deillio o gyfryngau cymdeithasol, ac effeithiau hirdymor y pandemig ar sgiliau cymdeithasol. Mae ysgolion yn parhau i **nodi** galw cynyddol am gwnsela, cymorth bugeiliol a gwasanaethau iechyd meddwl allanol. Y cymunedau sy'n teimlo'r pwysau hyn yn fwyaf enbyd yw'r rhai sydd â lefelau uwch o **amddifadedd**.

## Bylchau parhaus

Mae ymgysylltiad disgyblion yn cael ei lunio gan ffactorau cydgysylltiedig, gan gynnwys presenoldeb, absenoldeb parhaus, ymddygiad a llesiant. Mae dysgwyr difreintiedig, yn enwedig y rhai sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim, yn parhau i wynebu rhwystrau mwy ar draws pob maes. Mae rhai dangosyddion yn dangos gwelliant cymedrol, ond mae bylchau sylweddol yn parhau.

### Ffynonellau allweddol

#### Presenoldeb

- Estyn, **Gwella presenoldeb mewn ysgolion uwchradd** (2024)
- Estyn, **Gwella presenoldeb mewn ysgolion uwchradd – diweddariad ar gynnydd** (2025)
- Parentkind, **Deall absenoldeb disgyblion mewn ysgolion yng Nghymru: Adroddiad gan Parentkind ar gyfer Llywodraeth Cymru** (2023)
- Llywodraeth Cymru, **Perthyn, ymgysylltu a chyfranogi: Canllawiau ar wella lefelau ymgysylltu a phresenoldeb dysgwyr** (2023)

### Ymddygiad

- Estyn, **Hyrwyddo ymddygiadau cadarnhaol mewn ysgolion uwchradd** (2025)
- NASUWT, **Undeb yr Athrawon, Ymddygiad mewn Ysgolion** (2005)
- Ymchwil y Senedd, **Disgyblion yn camymddwyn?** (2025)
- Llywodraeth Cymru, **Cefnogi ymddygiad cadarnhaol mewn addysg** (2025)

### Llesiant

- Y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Mewn Ysgolion (SHRN), **Iechyd a Lles Dysgwyr yng Nghymru: Canfyddiadau Allweddol o Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr y Rhwydwaith mewn Ysgolion Cynradd 2024** (2024)
- Y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Mewn Ysgolion (SHRN), **Dangosfwrdd Iechyd a Lles Plant Ysgolion Uwchradd: Data Arolwg Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion (SHRN)** (2024)

**Erthygl gan Dr Nyle Bevan-Clark, Ymchwil y Senedd, Senedd Cymru**



# Yn y fantol: cyllid Addysg Uwch

**Mae sefydliadau Addysg Uwch yn wynebu problemau ariannol ledled y DU, gyda heriau penodol yng Nghymru. Bydd Llywodraeth newydd Cymru yn penderfynu a yw parhau i gynyddu ffioedd dysgu yn rhan o'r ateb gan gydbwyso hynny yn erbyn gostyngiad yn nifer myfyrwyr Cymru.**

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae heriau ariannol sy'n wynebu prifysgolion wedi bod yn y penawdau, gyda sylw ar ddiswyddiadau staff a benthyciadau myfyrwyr. Mae cwestiynau sylfaenol yn parhau ynghylch cynaliadwyedd sefydliadau unigol a model ariannu addysg uwch (AU). Er bod cynaliadwyedd ariannol y sector AU yn fater i'r DU gyfan, mae heriau penodol i sefydliadau yng Nghymru.


Nid prifysgolion yw'r unig rai yn y sector addysg drydyddol sy'n wynebu dewisiadau ariannol anodd. Mae **colegau addysg bellach** hefyd yn wynebu heriau cyllidebol oherwydd costau cynyddol a thwf cyflym yn nifer y dysgwyr dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

## O ble mae prifysgolion yn cael eu harian?

Mae data incwm diweddaraf yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) ar gyfer darparwyr AU yng Nghymru, ar gyfer 2023/24, yn dangos bod ychydig dros hanner y cyfanswm yn dod o ffioedd dysgu ac addysgu (56%). Mae grantiau ariannu, gan gynnwys gan Medr (corff hyd braich Llywodraeth Cymru) (14%), a grantiau ymchwil (12%) hefyd yn ffrydiau incwm pwysig.

Y categori 'incwm arall' sy'n cyfrif am 16% o gyfanswm yr incwm. Mae hyn yn cynnwys gweithgareddau masnachol lle gall prifysgolion gynhyrchu eu hincwm eu hunain, fel llety myfyrwyr ac arlwyo.

### Ffigur 1: Incwm darparwyr addysg uwch 2023/24





▸ **Ffynhonnell:** Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA), **Datganiad cyfunol o incwm a gwariant cynhwysfawr 2015/16 i 2024/25**

Cyfanswm incwm sector AU Cymru ar gyfer 2023/24 oedd £2.0 biliwn. I gymharu, mae incwm blynyddol unigol tair prifysgol yn Lloegr yn uwch na'r sector ar gyfer Cymru gyfan: Prifysgol Rhydychen (£3.1 biliwn), Prifysgol Caergrawnt (£2.6 biliwn), a Choleg Prifysgol Llundain (£2.1 biliwn).

## Ffioedd dysgu

Er bod incwm ffioedd dysgu a chontractau addysg yn cyfrif am ychydig dros hanner cyfanswm incwm darparwyr AU Cymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae ei gyfansoddiad wedi newid dros y cyfnod hwnnw: gan symud i ffwrdd o ffioedd myfyrwyr sydd â'u domisil yng Nghymru. Ffioedd dysgu gan y rhai sydd fel arfer yn byw yng ngweddill y DU yw'r gyfran fwyaf o incwm ffioedd sefydliadau Cymru erbyn hyn.

### Ffigur 2: Canran yr incwm o ffioedd dysgu 2017/18 a 2023/24




▸ **Ffynhonnell:** HESA, **Ffioedd dysgu a chontractau addysg wedi'u dadansoddi fesul darparwr AU, domisil, dull, lefel, ffynhonnell a blwyddyn academaidd 2016/17 i 2024/25**

Mae cynnydd mawr wedi bod yng nghyfran y ffioedd dysgu rhyngwladol o'r tu allan i'r UE, sydd bellach yn fwy na ffioedd Cymru hefyd. Roedd incwm darparwyr AU Cymru o ffioedd rhyngwladol y tu allan i'r UE yn 2023/24 yn £353 miliwn: mwy na'r cyllid gan Medr, grantiau a chontractau ymchwil, neu incwm arall.

Nid oes cap ar ffioedd myfyrwyr rhyngwladol, yn wahanol i ffioedd myfyrwyr y DU, ac maent yn amrywio rhwng prifysgol a chwrs. Gallant amrywio o £15,000 i dros £25,000. Mae ffioedd dysgu ar gyfer myfyrwyr statws cartref (gan gynnwys y rhai sydd fel arfer yn byw yng Nghymru a gweddill y DU) ar gyrsiau israddedig llawn amser wedi'u capio ar £9,535 ar gyfer 2025/26.

Mae sefydliadau'n gynyddol ddibynnol ar ffioedd rhyngwladol ac yn eu defnyddio fel **croes-gymorthdal mewn meysydd eraill**. Mae'r rhain yn cynnwys cost addysgu myfyrwyr y DU sydd wedi cynyddu uwchlaw ffioedd dysgu'r DU.


## O ble mae myfyrwyr ym mhrifysgolion Cymru yn dod?

Mae ffioedd dysgu yn amrywio'n sylweddol yn dibynnu ar lle mae myfyriwr fel arfer yn byw. Mae hyn yn golygu bod cymysgedd daearyddol poblogaeth y myfyrwyr mewn sefydliad yn cael effaith ar ei gyllid.

### Cyfanswm nifer y myfyrwyr

Er bod cyfanswm nifer y myfyrwyr mewn darparwyr AU yng Nghymru wedi gostwng ychydig yn 2024/25 o'i gymharu â 2020/21, bu newid nodedig o ran ble mae myfyrwyr yn dod.

**Ffigur 3: Nifer y myfyrwyr sydd wedi cofrestru gyda darparwyr AU Cymru yn ôl cyfeiriad parhaol 2020/21 i 2024/25**





▸ **Ffynhonnell:** HESA, **Cofrestriadau myfyrwyr AU yn ôl cyfeiriad parhaol 2020/21 i 2024/25**

**Noder**: Nid yw'r Alban, Gogledd Iwerddon, gwledydd eraill y DU, ac anhysbys wedi'u cynnwys yn y graff oherwydd niferoedd is.

## Myfyrwyr o Gymru

Roedd myfyrwyr sydd fel arfer yn byw yng Nghymru yn cyfrif am ychydig llai na hanner (48%) o gyfanswm y myfyrwyr mewn sefydliadau yng Nghymru yn 2024/25 o gymharu ag ychydig dros hanner (52%) yn 2020/21. Mae hyn yn llawer is na chyfran y myfyrwyr cartref sy'n mynd i brifysgolion yn eu gwlad gartref o gymharu â gwledydd eraill y DU.

**Ffigur 4: Cyfran y myfyrwyr sydd â'u domisil gartref ym mhob prifysgol yn eu gwlad gartref ar gyfer 2024/25**




▸ **Ffynhonnell:** HESA, **Cofrestriadau myfyrwyr AU yn ôl cyfeiriad parhaol 2020/21 i 2024/25**


Mae nifer y myfyrwyr o Gymru gyda darparwyr AU yng Nghymru wedi gostwng 9% yn 2024/25 o gymharu â 2020/21. Dyma'r gostyngiad canrannol mwyaf o holl wledydd y DU, gyda myfyrwyr sydd â domisil yn yr Alban yn gostwng 6% ac yng Ngogledd Iwerddon 5%; tra bu cynnydd o 3% yn Lloegr dros yr un cyfnod.

Mae'r gostyngiad yn nifer y myfyrwyr o Gymru yn golygu bod sefydliadau Cymru yn gynyddol ddibynnol ar fyfyrwyr o tu allan i Gymru am incwm ffioedd dysgu. Mae'r duedd hon yn fwy yng Nghymru nag yn y gwledydd cartref eraill.

## Myfyrwyr rhyngwladol

Mae cynnydd yn nifer y myfyrwyr rhyngwladol (nad ydynt o'r DU na'r UE) yn gysylltiedig i raddau helaeth ag astudiaeth ôl-raddedig trwy ddysgu (PGT). Bu cynnydd o 108% yng nghofrestriadau myfyrwyr o wledydd nad ydynt yn rhan o'r UE mewn astudiaethau PGT o 2020/21 i 2022/23, ac yna bu gostyngiad o 39% yn y niferoedd o 2022/23 i 2024/25.

**Ffigur 5: Nifer y myfyrwyr rhyngwladol a gofrestrwyd gyda darparwyr AU yng Nghymru sydd â chyfeiriadau y tu allan i'r UE yn ôl lefel astudio 2020/21 i 2024/25**




▸ **Ffynhonnell:** HESA, Cofrestriadau myfyrwyr AU yn ôl lefel astudio 2020/21 i 2024/25

Yn 2024, gwnaeth Llywodraeth flaenorol y DU newidiadau i'r llwybrau fisa ar gyfer myfyrwyr a graddedigion. Roedd y newidiadau hyn yn cynnwys cyfyngu ar ofynion fisa a oedd wedi caniatáu i aelodau'r teulu fod gyda'r rhai ar gyrsiau ôl-raddedig a addysgir. Mae Llywodraeth bresennol y DU wedi cyfyngu ar fisâu astudio o rai gwledydd.


Mae effaith y newidiadau hyn i fisâu ledled y DU yn tynnu sylw at anwadalrwydd y farchnad myfyrwyr rhyngwladol a'r risg sy'n gysylltiedig â phrifysgolion yn dibynnu ar incwm o'u ffioedd dysgu.

## Myfyrwyr yr UE

Gostyngodd nifer y myfyrwyr o'r UE ym mhrifysgolion y DU flwyddyn ar ôl blwyddyn o tua 153,000 yn 2020/21 i tua 64,000 yn 2024/25, sy'n ostyngiad o 58%.

Deilliodd y gostyngiad hwn yn bennaf o newidiadau i statws ffioedd a mynediad at gymorth ariannol i fyfyrwyr yr UE a oedd yn gysylltiedig â'r y DU yn gadael yr UE.

**Ffigur 6: Newid canrannol myfyrwyr yr UE mewn darparwyr AU o 2020-21 i 2024-25**




▸ **Ffynhonnell:** HESA, **Cofrestriadau myfyrwyr AU yn ôl cyfeiriad parhaol 2020/21 i 2024/25**

O bedair gwlad y DU, yng Nghymru y bu'r newid canrannol mwyaf yn nifer y myfyrwyr o'r UE. Roedd myfyrwyr o'r UE yn cyfrif am tua 4% o'r holl fyfyrwyr mewn darparwyr AU yng Nghymru yn 2020/21, o gymharu ag 1% yn 2024/25.

**Blwyddyn academaidd 2020/21** oedd y flwyddyn olaf i fyfyrwyr yr UE a ddechreuodd radd fod yn gymwys i gael ffioedd a chymorth ariannol i fyfyrwyr cartref y DU. Dim ond o dan rai amgylchiadau yr oedd myfyrwyr yr UE o flwyddyn academaidd 2021/22 ymlaen yn gymwys.

Ers hynny, mae myfyrwyr yr UE wedi bod yn destun ffioedd dysgu rhyngwladol. Ar hyn o bryd mae **trafodaethau rhwng Llywodraeth y DU a'r UE** ynghylch myfyrwyr yr UE yn cael mynediad at ffioedd dysgu cartref eto.


## Ble mae prifysgolion yn gwario eu harian?

Cyfanswm gwariant darparwyr AU Cymru yn 2023/24 oedd £1.7 biliwn. Yn draddodiadol, costau staff oedd y categori gwariant uchaf gan ddarparwyr AU Cymru.

### Staffio

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae nifer y staff academaidd ac anacademaidd mewn prifysgolion wedi amrywio. Ers 2020/21 mae'r niferoedd wedi cynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn, cyn gostwng yn 2024/25.


**Ffigur 7: Nifer y staff ym mhrifysgolion Cymru 2014/15 i 2024/25**




▸ **Ffynhonnell:** HESA, Staff AU fesul darparwr AU a dosbarthiad galwedigaethol safonol gweithgaredd 2014/15 i 2024/25

Mae colli swyddi mewn prifysgolion wedi cael sylw eang. Mae'r graff isod yn dangos y newid yn nifer y staff academaidd ac anacademaidd gyda'i gilydd ym mhob prifysgol yng Nghymru.

**Ffigur 8: Newidiadau yn niferoedd staff ym mhrifysgolion Cymru o 2023/24 i 2024/25**




▸ **Ffynhonnell:** HESA, **Staff AU fesul darparwr AU a dosbarthiad galwedigaethol safonol gweithgaredd 2014/15 i 2024/25**

Roedd 645 (3%) yn llai o staff academaidd ac anacademaidd ym mhob prifysgol yng Nghymru yn 2024/25 nag yn y flwyddyn flaenorol. Aeth Prifysgol Wrecsam yn groes i'r duedd gyda chynnydd o 50 aelod o staff dros yr un cyfnod.

Mae'r rhan fwyaf o brifysgolion Cymru yn parhau i redeg **cynlluniau diswyddo gwirfoddol** felly disgwylir gostyngiadau pellach yn nifer y staff yn y flwyddyn academaidd gyfredol.

## Beth all Llywodraeth newydd Cymru ei wneud ynghylch cyllid AU?

Mae pob prifysgol yng Nghymru yn elusennau ymreolaethol. Felly, ni all Gweinidogion Cymru na Medr ymyrryd o ran eu rhedeg, gan gynnwys materion staffio a darparu cyrsiau. Fodd bynnag, mae angen i **Medr**, fel y corff rheoleiddio, fod yn fodlon bod prifysgolion yn gynaliadwy yn ariannol.

Rhwng 2012 a 2024, gosododd Llywodraeth Cymru y terfyn ffioedd dysgu ar £9,000, yn sefydliadau Cymru. Ers hynny mae wedi cynyddu bob blwyddyn a bydd yn **£9,790 ar gyfer 2026/27**. Dyma'r swm uchaf y caniateir i brifysgolion Cymru ei godi ar fyfyrwyr statws cartref am gyrsiau israddedig llawn amser.

**Dywedodd** Llywodraeth flaenorol Cymru y bydd y cynnydd mewn ffioedd yn rhoi incwm ychwanegol i brifysgolion Cymru i helpu i ddiogelu'r ddarpariaeth oherwydd yr heriau sy'n wynebu'r sector. Fodd bynnag, mae prifysgolion Cymru wedi bod yn glir **nad yw ffi dysgu statws cartref yn talu cost addysgu** y myfyrwyr hyn.

Ar wahân i ailwampio sylfaenol y model cyllido AU, ychydig o ffyrdd sydd gan lywodraethau i fynd i'r afael â her gymhleth cynaliadwyedd hirdymor y sector AU. Un o'r prif ddulliau i Lywodraeth Cymru yw cynyddu ffioedd dysgu. Bydd angen cydbwyso a yw am ddefnyddio'r dull hwn a sut i'w ddefnyddio yn erbyn yr effaith y gallai ffioedd uwch ei chael ar niferoedd y myfyrwyr cartref, sydd eisoes yn gostwng.

### Ffynonellau allweddol

- Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd, **Materion sy'n wynebu'r Sector Addysg Uwch** (2025)
- Llywodraeth Cymru, **Dyfodol addysg drydyddol yng Nghymru: pum her a galwadau am gyflwyniadau** (2026)
- Medr, **Cynaliadwyedd ariannol y sector addysg uwch yng Nghymru** (2026)
- Dadansoddiad Cyllidol Cymru, **Canolfan Llywodraethiant Cymru, Setting the Scene (Pennod 6: Higher Education spending in Wales)** (2026)

**Erthygl gan Lucy Yarham, Ymchwil y Senedd, Senedd Cymru**



# Gofal plant am ddim: pam, i bwy a sut?

**Dros y degawd diwethaf, bu ras wleidyddol i addo mwy o oriau o ofal plant am ddim, i fwy o deuluoedd, ac i blant iau. Beth oedd yr amcanion o ran gofal plant am ddim, a ydyn nhw wedi'u gwireddu, a beth yw'r rhwystrau a allai ei gwneud hi'n anodd cyflawni'r addewidion o dan sylw?**

Mae gofal plant am ddim i blant ifanc yn addewid pendant a hawdd ei ddeall, sy'n ymwneud ag un o'r prif gostau y mae teuluoedd yn eu hwynebu. Yn ystod y Chweched Senedd cafodd **gwaith craffu arwyddocaol ei gynnal ar ddarpariaeth gofal plant** gan gynnwys **cwestiynau wedi'u gofyn gan ddeisebwyr**, ynglŷn â'r modd y mae'r cynnig presennol yng Nghymru yn cymharu â'r hyn sy'n cael ei ystyried yn gynnig mwy hael yn Lloegr.

Fodd bynnag, mae'n ymrwymiad costus i'w weithredu yn y tymor hir, ac nid yw'n glir a yw'r dull presennol yn cyflawni'r canlyniadau dymunol. Mae ehangu'r ddarpariaeth hefyd yn anodd oherwydd rhwystrau megis cyllid a chapasiti staff. Ni chafodd ymrwymiad Llywodraeth flaenorol Cymru ei gyflawni i gyflwyno oriau gofal plant rhan-amser am ddim, sef Dechrau'n Deg, i bob plentyn dwy oed yn ystod y Chweched Senedd, a **chaiff ei amcangyfrif mai 66% o blant cynnwys** yn unig sydd wedi cael y cynnig hwn erbyn mis Ebrill 2026.

## Y darlun presennol

Gan ddibynnu ar gymhwysedd, mae yna ystod o ofal plant am ddim a ddarperir gan awdurdodau lleol ac a ariennir gan Lywodraeth Cymru:

- **Gofal plant rhan-amser, Dechrau'n Deg, i bob plentyn dwy a thair oed:** Yn ei **Chytundeb Cydweithio** gyda Phlaid Cymru, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ar y pryd ei bwriad i ymestyn **gofal plant Dechrau'n Deg**, sef 12.5 awr yr wythnos, 39 wythnos y flwyddyn, i "ehangu gofal plant am ddim i bob plentyn dwyflwydd oed gan ganolbwyntio'n benodol ar ddarparu ac atgyfnerthu gofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg".
- **Cynnig Gofal Plant Cymru** **ar gyfer plant cymwys tair a phedair oed**: Mae hyn yn golygu y bydd gan rieni cymwys sy'n gweithio,

a'r rheini sydd mewn addysg neu hyfforddiant, yr **hawl** i 30 awr yr wythnos o ofal plant, am 48 wythnos y flwyddyn. Mae hyn yn cynnwys dwy elfen, **o leiaf 10 awr yr wythnos o addysg blynyddoedd cynnar** y mae gan bob plentyn yr hawl iddi yn y tymor cyntaf ar ôl eu trydydd pen-blwydd, wedi'i ategu gan hyd at 20 awr o ofal plant.

Mae Llywodraeth y DU hefyd yn darparu rhywfaint o gymorth ariannol ar gyfer gofal plant y gall rhieni yng Nghymru ei gael, yn bennaf ar gyfer rhieni sy'n gweithio, gan ddibynnu ar **gymhwysedd**.

## Beth yw diben gofal plant am ddim?

Gall fod amrywiaeth o nodau polisi y tu ôl i ofal plant am ddim – gan gynnwys amcanion economaidd, addysg, datblygiad plant a lleihau tlodi.

### Gyrwyr economaidd

Nod y Cynnig Gofal Plant yw cael gwared ar rwystrau i gyfranogiad mewn cyflogaeth neu addysg. Eto i gyd, gwelodd **gwerthusiad Blwyddyn 3** mai dim ond **2%** o rieni a fanteisiodd ar y Cynnig oedd heb fod mewn gwaith cyn cael darpariaeth am ddim. Erbyn gwerthusiad Blwyddyn 5, dim ond **10%** o rieni sy'n cael y Cynnig ddywedodd na fydden nhw mewn gwaith hebddo. Wedi dweud hynny, gwnaeth y gwerthusiad ganfod bod "naw y cant arall yn meddwl y byddent yn gweithio mewn swydd â chyflog is", ac o ran 37 y cant o'r ymatebwyr, "y byddent yn gweithio llai o oriau heb y Cynnig". Yn seiliedig ar yr holl ddata gwerthuso mae'r adroddiad yn awgrymu'r canlynol:

> [mae'r] Cynnig yn parhau i gefnogi llawer o rieni i gynnal neu wella eu cyflogaeth. Mae hyn yn arbennig o wir ymhlith rhieni ar incwm is.

### Cydraddoldeb

Fel cyfran o incwm, **mae costau gofal plant i rieni incwm is** 10 gwaith yn uwch nag ar gyfer yr 20% cyfoethocaf o enillwyr. Mae **ymchwil o 2023** yn awgrymu mai anghenion gofal plant a chyfrifoldebau gofalu yw'r rhwystrau mwyaf i gydraddoldeb mewn meysydd bywyd, gan gynnwys cyflogaeth i fenywod. **Mae menywod** yn fwy tebygol o fod yn economaidd anweithredol, o weithio'n rhan-amser ac o fod mewn sectorau ansicr â chyflog is megis iechyd a gofal cymdeithasol, manwerthu a lletygarwch. Mae hyn wedi arwain at fwlch cyflog rhwng y rhyweddau sydd wedi'i gynyddu gan gyfrifoldebau gofalu anghyfartal, a'r effaith anghymesur y mae gofal plant anfforddiadwy yn ei chael ar fenywod.

Yn ôl y **Rhwydwaith Rhywedd** (fforwm polisi o 80 o gynrychiolwyr, ymgyrchwyr ac academyddion y trydydd sector), mae diffyg gofal plant fforddiadwy yn parhau i fod yn rhwystr mawr i gydraddoldeb rhwng y rhyweddau. Galwodd ar Lywodraeth nesaf Cymru i symleiddio'r gefnogaeth a'r newid rhwng gwahanol raglenni ac yn y pen draw, darparu 30 awr o ofal plant wedi'i ariannu i bob plentyn ar ddiwedd absenoldeb rhiant.

### Addysg, datblygiad plant, a chyfle cyfartal

Yn ôl **cynllun Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar Cymru**, "gall gofal plant hygyrch o ansawdd uchel fod yn drawsnewidiol i blant", ac mae'n nodi'r effaith ar ddatblygiad gwybyddol, ieithyddol, cymdeithasol, emosiynol a chorfforol. Eto i gyd, nid yw'n glir pa rôl y bwriedir i ofal plant am ddim yng Nghymru ei chwarae i gefnogi datblygiad pob plentyn, o ystyried nad yw nifer o bobl yn gymwys ar gyfer y Cynnig Gofal Plant, ac nad oes cymhariaeth o ganlyniadau datblygiadol rhwng y rheini sy'n ei gael, a'r rheini nad ydynt yn ei gael.

**Mae ymchwil yn awgrymu** y gall Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar o ansawdd uchel gael effaith hirdymor gadarnhaol ar ganlyniadau i blant, gan wrthweithio effeithiau anfantais economaidd-gymdeithasol, er nad yw llawer o deuluoedd incwm isel yn gymwys ar gyfer y Cynnig Gofal Plant presennol, sef 30 awr am ddim. **Dadl y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (neu'r OECD)** yw y gall anghydraddoldebau cynnar osod plant ar lwybrau gwahanol, ond gall polisïau Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar sicrhau cyfleoedd cyfartal o'r cychwyn cyntaf, gyda manteision economaidd a chymdeithasol parhaol. Maen nhw'n dweud dylai polisïau fod o fewn cyrraedd i bawb, ond yn canolbwyntio ar y mwyaf difreintiedig.

Mae plant ag anghenion ychwanegol ac/neu anableddau hefyd yn wynebu **heriau hirhoedlog** wrth gael mynediad at ofal plant. Mae tystiolaeth yn awgrymu **mai dim ond 5% o awdurdodau lleol Cymru sydd â digon o ddarpariaeth gofal plant** ar gyfer plant anabl.


## Rhwystrau i ddarparu mwy o ofal plant

Yn ogystal â chyllid, mae ehangu gofal plant am ddim yn anochel yn gofyn am fwy o leoedd gofal plant a lle ffisegol, gweithlu dwyieithog cynyddol a mwy o gapasiti arolygu.

Mae **Arolygiaeth Gofal Cymru** yn archwilio gofal plant, gan wneud hynny **ar y cyd** gydag Estyn, lle mae yna elfen o addysg wedi'i hariannu. Yn ôl

**Adroddiad Blynyddol diweddaraf Arolygiaeth Gofal Cymru**, bu gostyngiadau yn narpariaeth gwarchodwyr plant a gofal dydd sesiynol ar gyfer y flwyddyn flaenorol, ond cynnydd o 2.7% mewn lleoedd gofal dydd llawn, gan barhau â'r duedd ar i fyny dros y deng mlynedd diwethaf.

**Ffigur 1: Nifer y lleoedd gofal dydd llawn**




▸ **Ffynhonnell: Arolygiaeth Gofal Cymru**

Does dim modd dweud ar hyn o bryd a oes gan y sector y capasiti i barhau i gynyddu nifer y lleoedd o flwyddyn i flwyddyn. Fe wnaeth un o bwyllgorau'r Chweched Senedd **bwysleisio** bod recriwtio a chadw'r gweithlu gofal plant yn her barhaus a sylweddol, gan nodi cyflog isel, amodau gwaith gwael a statws isel y rôl.

Yn eu tro, mae darparwyr wedi dweud yn gyson nad yw'r **gyfradd fesul awr** sy'n cael ei dalu gan Lywodraeth Cymru yn talu eu costau, er bod **cyfraddau** wedi cynyddu o £5.00 yr awr i'w lefelau mwyaf diweddar, sef £6.67 yr awr, **ddwy flynedd yn ôl**. Fodd bynnag, mae'r **Gymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd** yn bryderus na fydd y cynnydd yn ddigon i gwmpasu codiadau uwchlaw chwyddiant ar gyfer bwyd ac ynni. Mae darparwyr **wedi dweud** bod cynnal eu darpariaeth yn bryder mawr, gan dynnu sylw at bwysau ariannol yn sgil **costau ynni, bwyd a staffio cynyddol**.

Bu **heriau** tebyg wrth gyflwyno gofal plant am ddim yn Lloegr, yn dilyn yr **ymrwymiad** yn 2023 gan Lywodraeth y DU, ar y pryd, i blant rhieni cymwys sy'n gweithio, o 9 mis oed ymlaen erbyn 2025. Gwnaeth y Swyddfa Archwilio Genedlaethol **ganfod** ansicrwydd sylweddol ynghylch a all y sector weithredu'r newidiadau a bod yn gynaliadwy yn ariannol, gan ddod i'r casgliad a ganlyn:

> In extending entitlements, the government's primary aim is to encourage more parents into work. Even if DfE successfully navigates the significant uncertainties, it remains unclear whether the extension will achieve its primary aim, represent value for money and not negatively impact DfE's wider priorities relating to quality and closing the disadvantaged attainment gap.

## Yr her sydd i ddod

Mae yna wahanol feini prawf cymhwysedd, prosesau ymgeisio, mecanweithiau ariannu a chyrff arolygu ar gyfer gofal plant am ddim yng Nghymru, a all ei gwneud hi'n anodd i rieni ddeall beth maen nhw'n gymwys i'w gael, ac y gall effeithio ar y nifer sy'n ei hawlio. Fe wnaeth un o bwyllgorau'r Chweched Senedd **ddisgrifio** dull Llywodraeth Cymru o ymdrin ag addysg a gofal plentyndod cynnar fel bod "yn ddryslyd ac yn dameidiog, [a heb] weledigaeth glir". Fe wnaeth **alw** ar Lywodraeth Cymru ar y pryd i gydgrynhoi'r gwahanol gynlluniau cymorth gofal plant a symleiddio prosesau ymgeisio. Mae'n debygol y bydd pwy sy'n cael gofal plant am ddim, a pha wahaniaeth y mae'n ei wneud i'w bywydau, yn parhau i fod yn destun craffu gan deuluoedd a'r Seithfed Senedd fel ei gilydd.

### Ffynonellau allweddol

- Ymchwil y Senedd: **Eu dyfodol: ein blaenoriaeth? Gofal plant yng Nghymru** (2024)
- Ymchwil y Senedd, **Gofal plant yn cael sylw yn y Senedd** (2024)
- Llywodraeth Cymru, **Gwerthuso'r Cynnig Gofal Plant i Gymru** Parhaus
- Llywodraeth Cymru, **Data monitro ehangu cam 2 Dechrau'n Deg: Medi i Rhagfyr 2025** Parhaus
- Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru, **Maniffesto Hawliau Menywod Cymru** (2025)
- Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD), **Reducing Inequalities by Investing in Early Childhood Education and Care** (2025)

**Erthygl gan Claire Thomas, Gareth Thomas a Sian Thomas, Ymchwil y Senedd, Senedd Cymru**




England
80 915289
Twenty

# Arian cyhoeddus




ONE POUND

# Datblygiadau yn nhirwedd gyllidol Cymru


## Bydd y Seithfed Senedd yn gweld trethi newydd yn cael eu datganoli i Gymru, ac ymgais i gael pwerau treth incwm newydd i roi mwy o reolaeth i Lywodraeth Cymru dros y ffordd y mae cyllid yn cael ei godi ar gyfer Cyllideb Cymru. A allai datganoli Ystad y Goron a'i refeniw hefyd ychwanegu at y gronfa gyllido yn y Seithfed Senedd?

Mae datganoli cyllidol, sy'n rhoi pwerau codi treth a benthyca i Lywodraeth Cymru, wedi ail-lunio sut mae Cymru'n cael ei hariannu. Mae un rhan o bump o gyllideb Llywodraeth Cymru yn dod o drethi wedi'u datganoli, ond mae'r cynnydd tuag at ehangu'r pwerau hyn wedi bod yn araf.

Mae cynigion treth newydd, cwestiynau ynghylch hyblygrwydd treth incwm, a dadl barhaus ynghylch datganoli Ystad y Goron i gyd yn awgrymu cyfnod o newid posibl yn ystod y Seithfed Senedd.

Bydd Aelodau o'r Senedd honno yn wynebu penderfyniadau pwysig ynghylch pa mor bell y dylai Cymru fynd o ran llunio ei phwerau codi refeniw ei hun, a sut y gall hyn gefnogi blaenoriaethau cenedlaethol ehangach.

**Ffigur 1: Ffynonellau cyllido Llywodraeth Cymru, 2026-27**




- **Ffynhonnell:** **Canllaw Llywodraeth Cymru** ac Ymchwil y Senedd

## Y sefyllfa bresennol o ran trethi Cymru

Mae **fframwaith cyllidol Cymru** o 2016 yn nodi trefniadau ariannu Llywodraeth Cymru ar draws ei chyfrifoldebau treth a gwariant. Mae hyn yn cynnwys pwerau benthyca cyfalaf ychwanegol, a Chronfa Wrth Gefn Cymru i helpu Llywodraeth Cymru i reoli ei chyllideb.

Yn 2018, cafodd Treth Tir Treth Stamp y DU a'r Dreth Dirlenwi eu disodli gan y **Dreth Trafodiadau Tir** a'r **Dreth Gwarediadau Tirlenwi**. Rhaid talu'r Dreth Trafodiadau Tir wrth brynu eiddo yng Nghymru, ac mae'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn dreth ar waredu deunydd drwy dirlenwi sy'n daladwy gan weithredwyr safleoedd tirlenwi. Mae bron i **2%** o gyllideb Cymru yn dod o'r refeniw sy'n cael ei gasglu drwy'r ddwy dreth hyn.

Yn 2019, cafodd treth incwm ei ddatganoli'n rhannol i Gymru, a chafodd ei

disodli gan Gyfraddau Treth Incwm Cymru (CTIC). Mae refeniw sy'n cael ei godi drwy CTIC yn **ariannu dros 14%** o gyllideb Cymru.

Mae Cymru wedi ennill cyfres gymharol fach o bwerau treth yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ond gyda bron i 80% o gyllideb Llywodraeth Cymru yn dod o'r grant bloc (sy'n dod o Lywodraeth y DU), i ba raddau mae trethi presennol Cymru yn grymuso polisïau cyllidol Cymru?

## Pa drethi sy'n dod i Gymru?

Gwnaeth Cyllideb y DU yn 2025 gyhoeddi newidiadau i drethiant incwm y DU o asedau, gan greu **cyfraddau treth ar wahân ar gyfer incwm eiddo** o fis Ebrill 2027 ymlaen.

Bydd y dreth yn cael ei datganoli i Gymru, a bydd Llywodraeth Cymru yn gallu gosod y cyfraddau ond nid y trothwyon (fel CTIC, sy'n cael ei drafod isod). Bydd rhaid i unrhyw un sy'n byw yng Nghymru ei thalu, waeth ble mae ei eiddo rhent.

Bydd y dreth yn rhoi pŵer arall i Lywodraeth Cymru ar ei thaith datganoli cyllidol, ond nid yw'n glir sut y gallai landlordiaid ymateb, ac nid yw'n glir sut y gallai gwahaniaeth mewn cyfraddau rhwng Cymru a Lloegr effeithio ar y sector rhentu yng Nghymru.

At hynny, roedd Llywodraeth flaenorol Cymru am **gyflwyno** treth tir gwag newydd. Fodd bynnag, mae angen cymhwysedd datganoledig gan Lywodraeth y DU, ac er y gwnaed cais ffurfiol am hynny bron i chwe blynedd yn ôl, nid yw wedi'i gytuno eto, sydd wedi arwain at feirniadaeth o'r broses.

Mae cynnydd wedi'i wneud o'r diwedd, gydag ymgynghoriad ar y cyd yn cael ei gynnal rhwng y ddwy lywodraeth yn fuan. **Dywedodd** yr Ysgrifennydd Cabinet blaenorol dros Gyllid a'r Gymraeg, Mark Drakeford AS:

> The consultation will be launched, I think, very quickly after the Senedd elections. It'll be a short and technical consultation, and then, hopefully, we're on the home straight so that this power can be devolved to Wales, and the Senedd can then decide whether or not it wishes to use it.


Beth mae hyn yn ei olygu i'r Seithfed Senedd? Mae cyflymder y trafodaethau yn awgrymu bod y mater yn symud yn ei flaen, ond pa mor gyflym? Ac a fydd y dreth hon yn rhoi cymhellion i ddatblygwyr ac yn cael effaith ystyrlon ar dai yng

Nghymru?

## Pwerau treth incwm: a ydynt yn addas at y diben?

Mae Cyfraddau Treth Incwm Cymru (CTIC) yn **rhoi rheolaeth i Lywodraeth** Cymru dros 10c o dreth incwm ar gyfer pob cyfradd. Mae gan Lywodraeth Cymru bwerau i newid y gyfradd dreth i gynyddu neu leihau refeniw, ond ni chaiff newid y trothwyon na chreu cyfraddau treth newydd.

**Ffigur 2: Sut mae CTIC yn gweithio**




▸ **Ffynhonnell:** **Llywodraeth Cymru Adroddiad y Gyllideb Ddrafft 2026-27** ac Ymchwil y Senedd

Nododd yr Ysgrifennydd Cabinet ar y pryd **fod pwerau** i newid y gyfradd treth incwm erioed wedi cael eu defnyddio, a'i fod yn ei chael hi'n anodd gweld yr amgylchiadau lle byddent yn cael eu defnyddio.

Mae'r trothwyon treth incwm yn seiliedig ar bolisïau Llywodraeth y DU ac nid ydynt yn ystyried **gwahanol broffiliau incwm** ar draws cenhedloedd. Mae cyfran uwch o drethdalwyr yng Nghymru sydd ond yn talu'r gyfradd sylfaenol o dreth incwm o gymharu â'r DU gyfan, ac mae gan y DU gyfran fwy o drethdalwyr yn talu cyfraddau uwch ac ychwanegol o dreth incwm o gymharu â Chymru. O ganlyniad, nid yw'r pwerau presennol yn caniatáu'r hyblygrwydd i ddatblygu dull cytbwys ar gyfer trethdalwyr yng Nghymru.

Mae gan yr Alban **fwy o bwerau treth incwm** na Chymru, ac mae modd i Lywodraeth yr Alban **addasu** trothwyon treth incwm a chreu bandiau treth

newydd i deilwra ei pholisïau treth incwm. Mae hyn yn golygu bod gan yr Alban fwy o le i dargedu refeniw o godiadau neu doriadau treth.

Ai dyma'r pwerau sydd eu hangen ar Gymru? Mae ymchwil i weld a oes mwy o bwerau treth incwm y gellid eu defnyddio **wedi canfod**, er y byddai mwy o bwerau treth incwm yn rhoi mwy o reolaeth, y byddai'n cynyddu lefel y risg i Lywodraeth Cymru os, er enghraifft, bydd cyflogau'n tyfu'n arafach yng Nghymru nag yn Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Gallai mwy o bwerau treth incwm ganiatáu i Gymru ddylunio system sy'n fwy addas i'w dosbarthiad incwm. Ond a allai'r risg ychwanegol wneud cyllidebau'r dyfodol yn llai rhagweladwy? Efallai y bydd angen i'r Seithfed Senedd bwyso a mesur hyblygrwydd yn erbyn sefydlogrwydd.

## Dadl Ystad y Goron: cyfleoedd ar y môr i gael ffynhonnell refeniw newydd?

Mae'r Chweched Senedd wedi gweld y ddadl ynghylch datganoli Ystad y Goron yn dwysáu gyda llawer ohoni yn ymwneud â'r rhagdybiaeth y byddai datganoli yn datgloi refeniw ynni adnewyddadwy sylweddol i Gymru.

Mae **Ystad y Goron** yn gasgliad o asedau morol a thir a daliadau sy'n perthyn i'r brenin sy'n teyrnasu. Adroddwyd bod **cyfanswm gwerth yr asedau** yng Nghymru yn £853 miliwn yn 2022-23, gydag ynni gwynt ar y môr ac ynni morol yn cyfrif am 93% o'r asedau hyn.

O ran refeniw, mae Ystad y Goron yn cael **taliadau blynyddol** gan ddatblygwyr am hawliau gwely'r môr yn ystod cyfnod datblygu'r prosiect. Unwaith y bydd y prosiect yn weithredol mae Ystad y Goron yn codi **rhent** yn seiliedig ar 2% o'r refeniw y mae'r prosiect yn ei gynhyrchu bob blwyddyn. Mae gan Gymru **dair fferm wynt ar y môr** wedi'u lleoli oddi ar arfordir gogledd Cymru.

Gyda phrosiectau mawr ar y môr, fel ffermydd gwynt arnofiol **Llŷr** ac **Erebus**, sydd wedi'u cynllunio ar gyfer lleoliad oddi ar arfordir Sir Benfro, a'r potensial ar gyfer prosiectau pellach, byddai datganoli Ystad y Goron yn cynnig ffrwd ariannu ychwanegol ar gyfer Cyllideb Cymru. O ganlyniad, byddai grant bloc Cymru yn cael ei addasu i ystyried y ffaith bod Llywodraeth Cymru yn cymryd rheolaeth dros y refeniw hwn.

Cafodd Ystad y Goron **ei datganoli** i'r Alban yn 2017. Roedd Crown Estate Scotland yn rheoli asedau gwerth £665 miliwn ar 31 Mawrth 2024, a wnaeth gynhyrchu tua £135 miliwn mewn incwm yn 2023-24, gyda'r **rhan fwyaf yn cael**

**ei defnyddio ar gyfer gwariant cyhoeddus**. Dim ond un o'r manteision yw'r refeniw sy'n cael ei gynhyrchu, gydag Ystad y Goron yn yr Alban **yn dweud y gallai ei ystad alluogi'r canlynol**:

> £96.1bn in investment over the next 10-15 years in the offshore wind energy sector. This could generate at least £15.7 billion GVA and annually support 21,200 jobs.

Yn 2024, argymhellodd y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru y **dylai Ystad y Goron** "ddod yn gyfrifoldeb i lywodraeth ddatganoledig Cymru, fel y mae yn yr Alban". Os na fydd yn cael ei datganoli, a fydd Cymru'n colli cyfleoedd i lunio a manteisio ar werth ei hadnoddau naturiol ei hun?

## Taith gyllidol Cymru: beth sydd o'n blaenau?

Bydd y Seithfed Senedd yn wynebu dewisiadau allweddol ynghylch dyfodol ariannol Cymru. Gall trethi newydd gynnig mwy o reolaeth, ond byddant hefyd yn dod ag ansicrwydd ynghylch sut y bydd pobl a marchnadoedd yn ymateb. Mae cyfyngiadau ar bwerau treth incwm presennol, a'r ddadl barhaus ynghylch Ystad y Goron, yn tynnu sylw at gyfleoedd posibl i Gymru lunio a manteisio ymhellach ar ei ffynonellau refeniw ei hun. Bydd angen i'r Aelodau sy'n cael eu hethol gydbwyso'r cyfleoedd yn sgil mwy o ymreolaeth gyllidol â'r risgiau y gallai hynny eu cyflwyno.

### Ffynonellau allweddol

- Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, **Cytundeb ar fframwaith cyllidol Llywodraeth Cymru** (2016)
- Ymchwil y Senedd, **Datganoli cyllidol yng Nghymru** (2026)

**Erthygl gan Christian Tipples, Ymchwil y Senedd, Senedd Cymru**


ELIZABETH II · D · G · REG · F · D · 2016


ONE POUND
FIVE PENCE
ONE POUND

# Cyllideb Cymru a chyllid cyhoeddus: newidiadau'r gorffennol a heriau'r dyfodol

**Gwelodd y Chweched Senedd ddiwedd cyllid y pandemig, pwysau costau byw, a pholisi cyllidol newidiol Llywodraeth y DU. Wrth i dymor newydd y Senedd ddechrau, mae mwy a mwy o frys i ateb cwestiynau ynghylch sut mae cyllid wedi newid, beth yw hynt gwariant, a sut y bydd pwysau yn y dyfodol yn llywio penderfyniadau.**

Dros dymor presennol Senedd y DU (2023-24 i 2028-29), mae cyllideb refeniw Llywodraeth Cymru i fod i dyfu 1.9% ar gyfartaledd mewn termau real, sydd 0.8 pwynt canran yn llai na'r tymor seneddol blaenorol (2.7% ar gyfartaledd yn 2018-19 i 2023-24).

Gyda thwf cyllid arafach a galw newidiol am wasanaethau, mae Llywodraeth newydd Cymru yn etifeddu dewisiadau anodd ynghylch dyraniadau treth a gwariant.

## Twf cyllid yn y Chweched Senedd

Gweithredodd y Chweched Senedd yn ystod cyfnod o dwf termau real yng nghyllid Llywodraeth Cymru, gan nodi newid amlwg o'r toriadau cyllid yn ystod rhan fawr o'r 2010au. Mae'r **Sefydliad Astudiaethau Cyllidol yn adrodd** bod y cyllid adnoddau craidd 11.9% yn uwch, fesul person mewn termau real, nag yn 2019-20, a 7.4% yn uwch nag yn 2010-11.

Llywodraeth y DU a ysgogodd y cynnydd hwn i raddau helaeth drwy ddyraniadau grant bloc uwch ar ôl y pandemig, cynnydd blynyddol o 2.8% ar gyfartaledd mewn termau real dros y Chweched Senedd. Mae Dadansoddi Cyllid Cymru, Prifysgol Caerdydd, yn nodi:

> "... this represents the fastest increase in the budget since the 2nd Assembly term (2003-2007) and double the increase suggested by the

outlook ahead of the last Senedd elections in 2021.


Mae bron i bedair rhan o bump o gyllid Llywodraeth Cymru yn dod yn uniongyrchol drwy'r grant bloc gan Lywodraeth y DU. Daw gweddill y cyllid o fenthyca a threthi datganoledig: Cyfraddau Treth Incwm Cymru (14.3%), ardrethi annomestig (4.3%), Treth Trafodiadau Tir a Threth Gwarediadau Tirlenwi (1.6%).

Mae datganoli trethi wedi cynyddu'r cyllid sydd ar gael i Lywodraeth Cymru. Yn ystod y Chweched Senedd, mae wedi arwain at dwf cyfatebol o 3.8% mewn cyllid o ddydd i ddydd. Fodd bynnag, mae'r datblygiad o ran ehangu'r pwerau hyn wedi bod yn araf. Ond, gyda threthi ychwanegol newydd ar y bwrdd, bydd llunwyr polisi yn y Seithfed Senedd yn cael y cyfle i lywio taith datganoli cyllidol Cymru ymhellach.

## Newid blaenoriaethau mewn cyllideb sy'n tyfu

Er bod cyllid cyffredinol wedi tyfu mewn termau real, mae'r ffordd y mae'r cyllid hwnnw'n cael ei ddyrannu wedi newid. Mae'r proffil gwariant ar draws adrannau yng **Nghyllideb Derfynol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27** fel a ganlyn.

**Ffigur 1: Cyfran gwariant o ddydd i ddydd ar draws adrannau Llywodraeth Cymru ar gyfer Cyllideb Derfynol 2026-27**




▸ **Ffynhonnell:** **Cyllideb Derfynol Llywodraeth Cymru**, Dadansoddi Cyllid Cymru, Ymchwil y Senedd

Cyllid Iechyd a Gofal Cymdeithasol yw'r maes gwariant mwyaf yn gyson, ac mae'n cyfrif am dros hanner y gwariant o ddydd i ddydd yn 2026-27. O'r gwariant hwnnw, mae £12.1 biliwn yn cael ei wario ar 'wasanaethau'r GIG', cynnydd o 1.7% mewn termau real ers 2025-26. Mae hyn yn llawer arafach na'r cynnydd diweddar o 3.7% y flwyddyn rhwng 2019-20 a 2024-25, a'r cynnydd blynyddol cyfartalog hirdymor o 3.6% ers y 1950au.

Mae cyllid Tai a Llywodraeth Leol yn cyfrif am dros chwarter y gwariant o ddydd i ddydd, gyda'r mwyafrif, £6.6 biliwn, ar gyfer awdurdodau lleol, sy'n cynnwys cyllid ar gyfer gofal cymdeithasol ac ysgolion. Cafodd cynnydd uwch ei weld mewn cyllid awdurdodau lleol na'r GIG yn ystod y blynyddoedd diwethaf, **cynnydd o 2.9%** y flwyddyn ar gyfartaledd mewn termau real o 2024-25 i 2026-27.

Mae Dadansoddi Cyllid Cymru Prifysgol Caerdydd yn **nodi** bod dau Brif Grŵp Gwariant arall wedi gweld cynnydd mawr mewn cyllid dros dymor diwethaf y Senedd: 'Trafnidiaeth' ac 'Yr Economi, Ynni a Chynllunio'. Rhwng 2024-25 a 2026-27, bydd cyllid ar gyfer trafnidiaeth wedi cynyddu mewn termau real 8.4% y flwyddyn. Mae hyn oherwydd cynnydd mewn taliadau contractiol rhwydwaith ffyrdd strategol, cymorth gwasanaethau rheilffyrdd (Trafnidiaeth Cymru) a chymorth gwasanaethau bysiau. Bydd cyllid yr Economi, Ynni a Chynllunio wedi cynyddu mewn termau real 7.5% y flwyddyn rhwng 2024-25 a 2025-26, ac yn bennaf mae'n **adlewyrchu** tanwariant gan Fanc Datblygu Cymru a'r gyllideb ynni gwyrdd.

## Twf arafach a phenderfyniadau anoddach ar y gorwel

Mae cost llog dyled cynyddol y DU yn llywio'r amgylchedd cyllidol cyffredinol. **Adroddodd** y Sefydliad Astudiaethau Cyllidol fod gwariant llog dyled y DU yn 2025 yn fwy na dwbl nag yn 2022. Nododd y Sefydliad ymdrechion Llywodraeth y DU i sefydlogi dyled fel ffactor allweddol y tu ôl i gynlluniau gwariant tynnach yn y dyfodol ar gyfer gweinyddiaethau datganoledig.

Am weddill y **cyfnod Adolygu Gwariant** presennol (2027-28 a 2028-29), mae disgwyl i'r grant bloc craidd gynyddu **0.5% y flwyddyn** ar gyfartaledd mewn termau real, gyda chynnydd ychydig yn uwch yn cael ei ragweld tan 2030-2031.

Mae'r Sefydliad yn **nodi** bod cynnydd sylweddol wedi'i weld mewn cyllid refeniw a chyfalaf termau real yn hanner cyntaf y 2020au, wedi'i sbarduno gan gyllid grant bloc, ar gyfer Llywodraeth Cymru. Yn yr ail hanner, gwelir twf arafach mewn refeniw mewn termau real, a gostyngiad mewn cyfalaf. Mae Dadansoddi

Cyllid Cymru yn **nodi** bod disgwyl i wariant cyfalaf ostwng mewn termau real erbyn 2029-30 ac mae'n nodi bod y rhagolygon yn edrych yn heriol i Lywodraeth nesaf Cymru.

Mae **cynlluniau blaenorol Llywodraeth Cymru** yn darparu ar gyfer cynnydd mewn cyllid ar gyfer gweddill y degawd sy'n llawer is na'r cynnydd hanesyddol mewn gwariant ar iechyd, gofal cymdeithasol a llywodraeth leol. Felly, oni bai bod y sefyllfa hon yn newid, bydd Llywodraeth newydd Cymru yn wynebu penderfyniadau anodd i ddiogelu gwasanaethau allweddol.

## Sut mae penderfyniadau gwariant y DU yn llywio cyllideb Cymru

Mae'r rheolau ynghylch sut mae Llywodraeth Cymru yn cael ei hariannu wedi'u nodi yn **Fframwaith Cyllidol** 2016. Fel y trafodwyd uchod, daw'r rhan fwyaf o arian Llywodraeth Cymru drwy grant bloc Cymru, sy'n gysylltiedig â gwariant Llywodraeth y DU drwy Fformiwla Barnett.

### Sut mae Fformiwla Barnett yn gweithio

Mae **Fformiwla Barnett** yn cael ei ddefnyddio i gyfrifo faint o gyllideb y mae Llywodraeth Cymru yn ei chael o ganlyniad i wariant Llywodraeth y DU mewn meysydd datganoledig, ac fe'i defnyddir hefyd i gyfrifo'r grant bloc.

Mae'n defnyddio'r newid blynyddol yng nghyllideb adran yn Llywodraeth y DU ac yn cymhwyso canran gymharol yn seiliedig ar y graddau y mae gwasanaethau'r adran honno wedi'u datganoli, mae hefyd yn ystyried poblogaeth gymharol Cymru.

Mae gan Gymru **lawr grant bloc** hefyd, wedi'i osod ar 115% i adlewyrchu anghenion mwy Cymru. Mae hyn wedi'i gynllunio fel y bydd Cymru'n cael o leiaf 15% yn fwy o gyllid fesul person na Lloegr. Ar hyn o bryd, mae cyllid i Gymru tua 20% yn uwch fesul person na Lloegr, sy'n golygu nad yw'r llawr grant bloc wedi'i sbarduno eto. O ganlyniad, mae ffactor dros dro yn seiliedig ar anghenion wedi'i osod ar 105%.

**Ffigur 2: Esboniad o Fformiwla Barnett ar gyfer Cymru**




▸ **Ffynhonnell:** **Ymchwil y Senedd**

Mae ffactorau cymaroldeb yn cael eu hailgyfrifo a'u **cyhoeddi** yn Adolygiadau Gwariant y DU. Mae anghytundebau yn aml rhwng Llywodraeth y DU a llywodraethau datganoledig ynghylch pa wariant y dylid ei ddosbarthu fel gwariant 'cymharol' â chyfrifoldebau datganoledig. Mae'r dosbarthiadau hyn yn effeithio'n uniongyrchol ar faint o gyllid y mae Cymru'n ei gael drwy Fformiwla Barnett. Pan fydd gwariant yn cael ei ystyried i fod yn gymharol â chyfrifoldebau datganoledig, mae Cymru'n cael cyfran yn seiliedig ar y boblogaeth. Pan nad yw'n cael ei ystyried i fod yn gymharol, nid oes unrhyw arian canlyniadol yn dilyn.

Enghraifft sy'n codi'n aml yw cyllid ar gyfer **rheilffordd HS2**. Mae seilwaith rheilffyrdd wedi'i ddatganoli i raddau helaeth yng Nghymru, ond mae Llywodraeth y DU wedi dosbarthu HS2 fel prosiect 'Cymru a Lloegr', sy'n golygu nad oes arian canlyniadol Barnett i Lywodraeth Cymru. Mae holl bleidiau'r Chweched Senedd wedi herio'r dosbarthiad hwn ac wedi **galw am i 'gyfran deg'** o gyllid HS2 gael ei dyrannu i Gymru.

Mae'r anghydfodau hyn yn tynnu sylw at sut mae penderfyniadau a wneir ar lefel y DU yn cael goblygiadau ariannol i lywodraethau datganoledig. Bydd Llywodraeth newydd Cymru yn cael y dasg o feithrin cysylltiadau rhynglywodraethol effeithiol i helpu i ddiogelu buddiannau ariannol a pholisi Cymru.

## Man cychwyn anodd ar gyfer Llywodraeth newydd Cymru

Bydd Llywodraeth newydd Cymru yn etifeddu rhagolygon ariannol tynnach nag y mae'r Chweched Senedd wedi'u mwynhau. Mae twf arafach yn y grant bloc, cyllidebau cyfalaf sy'n gostwng a phwysau cynyddol mewn gwasanaethau allweddol yn golygu bod penderfyniadau anodd o'n blaenau.

Ar yr un pryd, mae pwerau treth datganoledig Cymru, a **diwygiadau posibl i'r Fframwaith Cyllidol yn y dyfodol**, yn cynnig cyfleoedd i lywio datblygiad y gyllideb.

## Ffynonellau allweddol

- Y Sefydliad Astudiaethau Cyllidol, **Recent changes and the future outlook for Welsh Government funding** (2026)
- Y Sefydliad Astudiaethau Cyllidol, **Public service spending and performance in Wales** (2026)
- Dadansoddi Cyllid Cymru, **Setting the scene: Wales on the eve of the 2026 Senedd Election** (2026)
- Trysorlys EF, **Spending Review 2025** (2025)

**Erthygl gan Peter Davies, Ymchwil y Senedd, Senedd Cymru**


BETH II · D · G · REG · F · D
2016
ONE POUND · ONE POUND



# System dan straen: cynaliadwyedd llywodraeth leol

## Mae'r pwysau sy'n wynebu llywodraeth leol mewn perygl o ddod yn norm, gyda chyllidebau wedi'u gwasgu ers dros ddegawd. Er gwaethaf cynnydd diweddar mewn cyllid craidd, yn ogystal â chynnydd yn y dreth gyngor, mae cyllid llywodraeth leol yn ei chael hi'n anodd ymdopi â'r galw cynyddol am wasanaethau, pwysau chwyddiant a heriau'r gweithlu.

Mae llywodraeth leol **yn amcangyfrif ei fod wedi gwneud £3 biliwn o doriadau ac arbedion effeithlonrwydd ers 2009-10**. Yn anochel, mae pwysau ariannu wedi arwain at ostyngiad yn y gwasanaethau a ddarperir gan gynghorau, gyda gwasanaethau anstatudol fel llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden yn aml yn teimlo'r effaith fwyaf.

Wrth i gynghorau frwydro i gydbwyso'r cyfrifon, gofynnwyd i aelwydydd dalu mwy mewn treth gyngor. Efallai y byddwch chi'n maddau i drigolion am feddwl bob blwyddyn eu bod nhw'n talu mwy am lai.

### Cyllid llywodraeth leol: blaenoriaeth ond yn parhau i fod dan bwysau

Mae tua chwarter **cyllideb Llywodraeth Cymru** ar gyfer gwariant o ddydd i ddydd yn cael ei ddyrannu i lywodraeth leol – dim ond iechyd sy'n derbyn mwy. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ('CLlLC') yn amcangyfrif bod grantiau Llywodraeth Cymru (gan gynnwys y Grant Cymorth Refeniw) yn **cyfrif am oddeutu** 70% o gyfanswm refeniw y cyngor. Mae'r gweddill yn cynnwys trethi annomestig wedi'u hailddosbarthu (ardrethi annomestig, a elwir hefyd yn drethi busnes), y dreth gyngor, ac incwm arall, fel ffioedd parcio.

Dywedodd Llywodraeth flaenorol Cymru **yn aml ei bod yn blaenoriaethu** cyllid llywodraeth leol. Fodd bynnag, mae'r darlun cyffredinol ar gyfer cyllid cynghorau wedi bod yn anodd. Mae gan Gymru **boblogaeth sy'n heneiddio** a

**chymhlethdod cynyddol o ran anghenion defnyddwyr y gwasanaeth**. Mae llywodraeth leol hefyd yn profi **pwysau ar y gweithlu**, megis gyda recriwtio a chadw staff.

Cyn **Cyllideb Derfynol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27**, amcangyfrifodd CLlLC y gallai'r cyllid ychwanegol sydd ei angen i ymdopi â phwysau cyllideb awdurdodau lleol **fod yn gyfanswm** o £1.6 biliwn dros y tair blynedd nesaf. Dywedodd Archwilydd Cyffredinol Cymru **fod rhai cynghorau** yn "agos at ddibyn cynaliadwyedd ariannol". Ym mis Tachwedd 2025, yn ystod y rownd gyllidebol ddiwethaf, awgrymodd fod rhai awdurdodau lleol **yn agos at gyhoeddi** hysbysiadau adran 114, a elwir yn gyffredin yn **gyngor yn mynd yn 'fethdalwr'**.

Mae yna hefyd **ansicrwydd sylweddol** o ran yr hyn y bydd yn rhaid i Lywodraeth newydd Cymru ei wario, gyda'r rhagolygon presennol yn rhagweld cyllidebau tynn y tu hwnt i 2026.

Mae'n debygol y bydd y ddadl ynghylch faint o gyllid cyhoeddus sy'n cael ei ddyrannu i lywodraeth leol yn parhau, yn ogystal â thrafodaethau ynghylch sut y caiff ei ddosbarthu. **Dywed CLlLC** fod rhai setiau data sy'n sail i'r fformiwla ariannu wedi dyddio, ac mae'n tynnu sylw at alwadau cynyddol gan gynghorau am "adolygiad trylwyr, annibynnol ac allanol". Nododd Llywodraeth flaenorol Cymru fod adolygiad o'r data ar y gweill, ond bydd yn dod yn gliriach yn y misoedd nesaf a fydd Llywodraeth newydd Cymru yn dyfalbarhau â hyn, neu'n penderfynu cynnal adolygiad ehangach o'r fformiwla ariannu.

## Costau cynyddol mewn gofal cymdeithasol ac ysgolion

Mae addysg a gwasanaethau cymdeithasol yn cyfrif am **fwyafrif gwariant llywodraeth leol**. Mae **CLlLC yn amcangyfrif** y bydd ysgolion a gwasanaethau cymdeithasol wrtho'i hun yn cyfrif am tua 60% o'r pwysau ariannol yn 2026-27.

Mae gan awdurdodau lleol ddyletswyddau statudol i **ddarparu'r gwasanaethau hyn**, a chyda galwadau cynyddol yn y meysydd hyn, ychydig o hyblygrwydd sydd mewn cyllidebau eraill. **Dywed CLlLC** "roedd gwariant Cynghorau ar wasanaethau ar wahân i addysg a'r gwasanaethau cymdeithasol wedi gostwng mwy na chwarter (wedi'i addasu ar gyfer chwyddiant)" o 2009-10 i 2022-23.

Gan ddefnyddio ffigurau o Drysorlys EF, mae **Dadansoddiad Cyllid Cymru Prifysgol** Caerdydd yn amcangyfrif, rhwng 2019-20 a 2024-25, bod gwariant adnoddau llywodraeth leol ar addysg wedi cynyddu mewn termau real, o £3.6 biliwn i £4.0 biliwn (tua 12%). O ran diogelwch cymdeithasol (gwasanaethau

cymdeithasol yn bennaf), cynyddodd gwariant o £2.7 biliwn i £3.2 biliwn (bron i 19%).

Mae'r galw cynyddol am wasanaethau cymdeithasol i blant, yn enwedig nifer y plant sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol, yn un enghraifft o'r pwysau cynyddol ar gynghorau. Mae nifer y plant sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol wedi **cynyddu 28% yn ystod y degawd diwethaf**, ac mae CLlLC yn **rhagweld pwysau ariannol** (hynny yw, y bwlch ariannu rhwng yr hyn sy'n rhaid iddyn nhw ei wario nawr a'r hyn maen nhw'n disgwyl gorfod ei wario yn ogystal â hyn yn y blynyddoedd i ddod) o £24 miliwn ar gyfer 2026-27 mewn perthynas â lleoliadau preswyl i blant. Mewn gwasanaethau i oedolion, mae dros £20 miliwn o **bwysau amcangyfrifedig** mewn gofal preswyl a gofal cartref. Caiff ei amcangyfrif bod cyfanswm y pwysau ar wasanaethau cymdeithasol yn 2026-27 oddeutu £200 miliwn.

Mae gwell integreiddio rhwng iechyd a gofal cymdeithasol yn **aml yn cael ei gyflwyno fel ateb hirdymor posibl** i gynaliadwyedd y system ofal, rhywbeth y **mae Conffederasiwn GIG Cymru wedi galw amdano yn ddiweddar**. Fel rhan o'i ofynion i Lywodraeth nesaf Cymru, mae'n dymuno gweld adolygiad cyflym annibynnol i ddatblygu cytundeb hirdymor ar gynaliadwyedd y system gofal cymdeithasol.

Mewn ysgolion, mae'r cronfeydd wrth gefn a gafodd eu cronni yn ystod y pandemig **bellach yn lleihau**, gyda rhai ysgolion yn **llithro i ddiffyg**. **Dywed CLlLC**, ar gyfer 2025-26, roedd pwysau ysgolion yn seiliedig yn bennaf ar y galw am wasanaethau, yn enwedig Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), gyda phwysau cost ADY o bron i £29 miliwn yn cael ei **ragweld ar gyfer 2026-27**. Mae cyflogau hefyd yn ffactor arwyddocaol i ysgolion (fel y bu mewn gwasanaethau cyngor eraill), gyda'r **rhan fwyaf o'r pwysau disgwyliedig** yn 2026-27 yn dod o chwyddiant cyflog. Caiff ei amcangyfrif bod y pwysau cyffredinol mewn ysgolion tua £137 miliwn yn 2026-27.

## Y dreth gyngor: codiadau, ailbrisio, diwygio?

Er bod cyfran sylweddol o gyllid awdurdodau lleol yn dod yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru, mae cynghorau hefyd yn codi incwm drwy'r dreth gyngor i gefnogi darparu gwasanaethau lleol. Mae biliau'r dreth gyngor band D cyfartalog wedi bod yn codi ar **gyfradd gyflymach yng Nghymru nag** mewn mannau eraill. Mae academyddion o Brifysgol Caerdydd yn amcangyfrif bod refeniw y dreth gyngor yng Nghymru yn 2025-26 £440 miliwn yn uwch nag y byddai pe bai wedi cynyddu yn unol â Lloegr ers 2010-11, a £750 miliwn yn uwch

nag yr Alban.

Roedd cynnydd lefel band D cynghorau Cymru gyfan yn **2025-26 yn 7.1%**, gyda rhai awdurdodau lleol yn codi'r dreth gyngor mwy na 9%. Mae'r cynnydd **yn is yn 2026-27**, sef 4.8%, gyda chynnydd yn amrywio rhwng 3.6% a 6.5%.

Mae fframwaith y Dreth Gyngor wedi bod **ar waith ers 1993**. Fodd bynnag, **mae tystiolaeth yn dangos** bod aelwydydd sy'n byw mewn bandiau is yn talu cyfran uwch o werth eu tŷ yn y dreth gyngor **na'r rhai sy'n byw mewn bandiau eiddo uwch**. Ers ailbrisio 2005, bu **newidiadau sylweddol, ac amrywiol, hefyd ym mhrisiau tai** **newidiadau sylweddol**, sy'n golygu nad yw beth mae rhai'n ei dalu o bosibl yn adlewyrchu'r amgylchiadau presennol.

Roedd Llywodraeth flaenorol Cymru **wedi cymryd camau i ddiwygio'r dreth gyngor**, a oedd hefyd yn ymddangos fel **rhan o'r cytundeb cydweithio** gyda Phlaid Cymru. Ymhlith pethau eraill, roedd **Deddf Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) 2024** yn cychwyn ailbrisiad llawn o bob cartref yng Nghymru yn 2028 - **tair blynedd yn hwyrach na'r bwriad gwreiddiol**. Fodd bynnag, cyfrifoldeb Llywodraeth newydd Cymru fydd rhoi hyn ar waith, os bydd yn dewis gwneud hynny.

## Efallai na fydd difidendau digidol yn syml

Er nad yw trawsnewid ac arloesi yn newydd i awdurdodau lleol, **mae rhai** wedi cwestiynu ymarferoldeb cyflawni effeithlonrwydd pellach yn wyneb pwysau parhaus. Felly, i ble arall y gallai cynghorau droi?

Mae atebion digidol a deallusrwydd artiffisial yn aml yn cael eu crybwyll fel cyfleoedd i ddarparu gwasanaethau cynaliadwy sy'n canolbwyntio ar bobl, ochr yn ochr ag arbedion cost. Mae **Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn amlinellu** sut y gall defnydd effeithiol o ddata ac offer digidol lywio'r gwaith o wneud penderfyniadau a symud adnoddau tuag at atal.

Mae cynghorau **wedi buddsoddi** yn y maes hwn yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ond mae eu sefyllfa ariannol heriol yn gwneud buddsoddiad tymor hwy mewn atebion digidol yn **fwy anodd i'w gyfiawnhau**. Ochr yn ochr â hyn, **mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn rhybuddio** bod angen mynd i'r afael â blociau adeiladu sylfaenol seilwaith technolegol y sector cyhoeddus, gyda llawer o sefydliadau'n gweithredu o safbwynt eithaf hen ffasiwn. Mae **CLlLC wedi galw** ar i Lywodraeth newydd Cymru ymrwymo i weithredu a darparu adnoddau llawn ar gyfer y **Strategaeth Ddigidol i Gymru**.

## Delio â phroblemau neu gynllunio ymlaen llaw

**Dywed CLlLC** "Heb gyllid cynaliadwy, hirdymor, ni all cynghorau symud o ddelio â phroblemau i'r blaengynllunio mae ein trigolion yn ei haeddu". Yn 2024, **dadleuodd yr Archwilydd Cyffredinol** "ni allwn ddibynnu ar y ffordd y bu pethau'n cael eu gwneud yn y gorffennol i ddiogelu ein gwasanaethau cyhoeddus at y dyfodol, a phe baem yn dechrau â dalen wag, byddem yn annhebygol o ddylunio pethau fel y maent". Heb newid sylweddol mewn cyllid na dull gweithredu, mae'n debygol y bydd y straen presennol ar gynghorau yn parhau.

### Ffynonellau allweddol

- Archwilio Cymru, **Digidol yn ôl dyluniad?** (2024)
- Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, **Amrywiaeth o adroddiadau ar lywodraeth leol gynaliadwy** (2026)
- Dadansoddiad Cyllid Cymru, **Gosod y sefyllfa: Cymru ar drothwy Etholiad Senedd 2026** (2026)
- Llywodraeth Cymru, **Tystiolaeth ac ymchwil ar y Dreth Gyngor ac ardrethi annomestig** (diweddarwyd 2026)

**Erthygl gan Osian Bowyer ac Owen Holzinger, Ymchwil y Senedd, Senedd Cymru**



# Yr amgylchedd





# Beth nesaf o ran natur a gweithredu ar yr hinsawdd?

**Mae dyfodiad y Seithfed Senedd yn foment hollbwysig yng nghyd-destun natur a gweithredu ar yr hinsawdd, gyda thargedau domestig a byd-eang yn prysur agosáu. Sut fydd Llywodraeth newydd Cymru yn mynd i'r afael â heriau allweddol ym maes yr amgylchedd?**

Yn 2019, datganodd Llywodraeth Cymru **'argyfwng hinsawdd'**. Ddwy flynedd yn ddiweddarach, **datganodd y Senedd 'argyfwng natur'**. Roedd y datganiadau hyn yn cydnabod rôl gweithgarwch pobl o ran achosi newid hinsawdd a cholli bioamrywiaeth. Mae'r ddau beth yn peri **risgiau cymhleth, aml-ddimensiwn i iechyd a llesiant pobl.**

Mae cysylltiad rhwng yr argyfyngau hyn. Mae newid hinsawdd **yn bygwth gwaethygu'r broses o golli natur**, ond gall **adfer ecosystemau naturiol** arwain at **storio carbon a gwella gwydnwch hinsawdd**.

Fodd bynnag, mae angen ystyried hinsawdd a natur fel materion ar wahân hefyd. Er enghraifft, gallai datblygiadau ynni adnewyddadwy gael effaith negyddol ar fioamrywiaeth leol.

Er bod **fframwaith cyfreithiol Cymru ar gyfer lliniaru newid hinsawdd** wedi bod ar waith ers degawd, **nid yw'r agenda fioamrywiaeth wedi cael yr un sylw gwleidyddol**, gyda **deddfwriaeth i gyflwyno targedau natur** ond wedi cael ei phasio yn gynharach eleni.

Rhaid gwneud penderfyniadau allweddol am natur a'r hinsawdd dros y pedair blynedd nesaf.

## Yr argyfwng natur


### Bioamrywiaeth mewn perygl

Dywed **rhai gwyddonwyr** ein bod ar drothwy'r chweched digwyddiad difodiant torfol yn hanes y byd, a'r cyntaf sy'n gysylltiedig â gweithgarwch pobl.

Mae Cymru yn safle 224 o blith y 240 o wledydd sydd i'w gweld ar y **Mynegai Cyfanrwydd Bioamrywiaeth**, sy'n golygu ei bod ymhlith y 10% isaf.

O'r 3,897 o rywogaethau sydd wedi **cael eu hasesu gan ddefnyddio meini prawf Rhestr Goch yr Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur (yr IUCN)**, mae 18% dan fygythiad o ddifodiant yng Nghymru, gan gynnwys tegeirian y fign galchog, llygoden y dŵr a madfall y tywod.

### Ffigur 1: Rhywogaethau yng Nghymru sydd dan fygythiad o ddifodiant






▸ **Ffynhonnell:** Sefyllfa Natur 2023, **Adroddiad Cymru** (gan ddefnyddio **Asesiadau Rhestr Goch yr IUCN sy'n benodol i Gymru)** yn dangos y rhywogaethau a aseswyd yng nghategorïau'r 'Rhestr Goch', yn ôl grŵp tacsonomig eang. Mae'r rhifau mewn cromfachau yn dynodi nifer yr asesiadau. 'Dan Fygythiad' = meini prawf Rhestr Goch yr IUCN 'Mewn perygl difrifol', 'Mewn perygl' neu 'Bregus'. Mae'r lluniau yn dangos rhywogaethau sydd mewn perygl o ddifodiant – tegeirian y fign galchog, llygoden y dŵr a madfall y tywod. Mae 'difodiant' yn ymwneud â 'difodiannau

modern' h.y. rhywogaethau sy'n cael eu disgrifio gan wyddoniaeth yn hytrach na phob difodiant yn hanes y Ddaear.


Daw'r **pwysau ar fioamrywiaeth** o sawl cyfeiriad, gan gynnwys llygredd, newid hinsawdd, rhai technegau rheoli amaethyddol a rheoli coetir, trefoli, gorddefnydd a rhywogaethau anfrodorol goresgynnol.

Mae **mwy a mwy o gydnabyddiaeth ryngwladol** o werth hanfodol natur ar gyfer **iechyd a llesiant pobl**, er enghraifft drwy ddarparu bwyd a dŵr glân, ac atal llifogydd.

## Ymrwymiad byd-eang i atal colli bioamrywiaeth erbyn 2030

Yn 2022, llofnododd y DU y **Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang** (yng nghynhadledd **COP15**) i atal a gwrthdroi colli natur erbyn 2030 a sicrhau adferiad erbyn 2050. **Un o uchelgeisiau proffil uchel** y fframwaith yw diogelu 30% o'r tir, y dŵr croyw a'r môr ar gyfer natur erbyn 2030 (sef y targed '30 erbyn 30').

**Ffigur 2: Uchelgais y Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang i atal a gwrthdroi colli natur erbyn 2030 a sicrhau adferiad erbyn 2050.**





▸ **Ffynhonnell:** wedi'i addasu o adnodd gan **naturepositive.org**

Gan fod hwn yn faes wedi'i ddatganoli, mae gan Lywodraeth Cymru rôl i'w chwarae. Cynhaliodd y Llywodraeth flaenorol **ymarfer 'plymio dwfn bioamrywiaeth'**, a **datblygodd fframwaith** ar gyfer cyflawni '30 erbyn 30'. Bydd dyfodiad y Seithfed Senedd yn foment hollbwysig, gan mai Llywodraeth

newydd Cymru fydd yn gyfrifol am benderfynu a fydd Cymru'n cyflawni ei hymrwymiad erbyn 2030 i atal y broses o golli bioamrywiaeth.

Mae'n dasg anodd. Mae adroddiad a gafodd ei gyhoeddi gan y sector amgylcheddol yn 2025, **sy'n canolbwyntio ar y cynnydd sy'n cael ei wneud ledled y DU**, yn awgrymu mai dim ond 2.14% o dir Cymru sydd, ar hyn o bryd, yn bodloni'r meini prawf ar gyfer '30 erbyn 30'.

**Ffigur 3: Cynnydd tuag at y targed '30 erbyn 30' ar dir ledled y DU.**




▸ **Ffynhonnell:** **30 erbyn 30, Adroddiad Cynnydd y DU 2025**, Cyswllt Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad

## Sut allai Llywodraeth Cymru fynd i'r afael â'r argyfwng natur?

**Targedau bioamrywiaeth** – Bydd **gofyn i Lywodraeth newydd Cymru** gyflwyno targedau bioamrywiaeth domestig statudol am y tro cyntaf, er mwyn ysgogi camau gweithredu a gwella atebolrwydd. Rhaid cyflwyno'r targedau – a fydd wedi'u llunio o amgylch risg difodiant, rheoli ecosystemau, llygredd a data – drwy reoliadau erbyn mis Ebrill 2028, er mwyn rhoi cyfle i'r Senedd ddweud ei dweud.

**Safleoedd gwarchodedig** – **Yn ôl arbenigwyr** er mwyn cyrraedd y targed 30 erbyn 30, rhaid i ardaloedd gwarchodedig ar gyfer natur fod yn rhai gwell, yn

rhai mwy, ac yn rhai sydd wedi'u cysylltu'n fwy effeithiol. Bydd **pwysau ar y Llywodraeth newydd** i wella amddiffyniadau morol drwy wella'r trefniadau dynodi, rheoli a monitro.


**Amaethyddiaeth** – Mae dros 80% o dir Cymru o dan reolaeth amaethyddol. Felly, **gobaith amgylcheddwyr yw y bydd** y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) yn gweithredu fel mecanwaith allweddol ar gyfer adfer bioamrywiaeth. Bydd sylw pawb yn troi at **yr uchelgais** i sicrhau bod o leiaf 17,000 hectar o goed newydd yn cael eu plannu o dan gymhellion y cynllun erbyn 2030.

**Llygredd** – Roedd mynd i'r afael â llygredd mewn cyrsiau dŵr, yn deillio o **amaethyddiaeth** a **charthffosiaeth**, yn fater proffil uchel yn y Senedd ddiwethaf, a siawns y bydd yn ailgodi.

## Yr argyfwng hinsawdd

Mae hinsawdd Cymru yn newid. Cafwyd y tair blynedd boethaf yn hanes Cymru yn ystod y Chweched Senedd. **Yn ôl y rhagolygon tymor hir**, bydd y duedd hon o gynhesu yn parhau, gan arwain at aeafau gwlypach, hafau poethach a sychach, a chodiadau yn lefel y môr. Mae hinsawdd sy'n newid **yn bygwth iechyd, seilwaith a'r amgylchedd naturiol**.

**Ffigur 4: Anomaleddau tymheredd cyfartalog Cymru ers 1884, o'i gymharu â chyfartaledd 1961-1990**




▸ **Ffynhonnell:** Dadansoddiad Ymchwil y Senedd o **ddata'r Swyddfa Dywydd**

## Y ddadl ar sero net yn poethi


Mae newid hinsawdd yn cael ei **yrru, i raddau helaeth, gan allyriadau nwyon tŷ gwydr a achoswyd gan bobl**. Yn 2021, **cytunodd y Senedd yn unfrydol** y dylai Cymru roi terfyn ar ei chyfraniadau at newid hinsawdd drwy gyflawni allyriadau nwyon tŷ gwydr 'sero net' erbyn 2050.

**Mae rhaniadau yn y consensws gwleidyddol wedi dod i'r amlwg** ers hynny. Er mai dim ond **14% o'r cyhoedd** sy'n gwrthwynebu camau gweithredu Llywodraeth Cymru ynghylch yr hinsawdd, mae dulliau gweithredu penodol wedi profi'n ddadleuol: **protestiodd ffermwyr** yn erbyn **cynigion plannu coed** y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn 2024; ac mae grwpiau lleol wedi gwrthwynebu seilwaith ynni fel **tyrbinau gwynt, ffermydd solar**, a **pheilonau**.

## Datgarboneiddio ar y trywydd iawn – am y tro

Mae **llwybr datgarboneiddio Cymru ar hyn o bryd** yn cynnwys targedau 10 mlynedd a chyllidebau carbon 5 mlynedd. Gwelwyd **gostyngiad o 38% mewn allyriadau rhwng 1990 a 2023**, ac mae'r holl dargedau ar gyfer allyriadau a'r holl gyllidebau carbon, hyd yn hyn, wedi'u cyflawni.

**Ffigur 5: Allyriadau, targedau a chyllidebau carbon Cymru, 1990 i 2050**





▸ **Ffynhonnell:** **Rhestr Allyriadau Atmosfferig Cenedlaethol y DU** (NAEI), **Llywodraeth Cymru**

Mae mwyafrif y gostyngiad hwn wedi deillio o sectorau sydd, i raddau helaeth, wedi'u cadw yn ôl i San Steffan o hyd – trydan, cyflenwad tanwydd, a diwydiant – lle mae dylanwad Llywodraeth Cymru wedi'i gyfyngu'n bennaf **i'r system gynllunio**.

Mae ychydig yn llai na hanner yr allyriadau yn deillio o sectorau sydd wedi'u datganoli, i raddau helaeth, i'r Senedd.

### Ffigur 6: Cyfanswm allyriadau Cymru yn 2023, fesul sector




*Mae **Pwyllgor Newid Hinsawdd y DU** yn ystyried bod 'trafnidiaeth wyneb' ac 'adeiladau' wedi'u datganoli'n rhannol.

†Mae 'defnydd tir', fel coedwigaeth a mawndir, yn amsugno mwy o nwyon tŷ gwydr nag y mae'n eu hallyrru. Felly mae 'allyriadau' y sector hwn yn negyddol.

- **Ffynhonnell:** Dadansoddiad Ymchwil y Senedd o **ddata'r NAEI**

## Opsiynau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â chyllidebau carbon

O dan y gyfraith bresennol, bydd gan Lywodraeth newydd Cymru **hyd nes ddiwedd y flwyddyn hon i amlinellu ei chynlluniau** ar gyfer lleihau allyriadau hyd at 2030, a hynny er mwyn cyflawni Cyllideb Carbon 3.

Gwnaeth y Pwyllgor Newid Hinsawdd annibynnol (CCC), sef y cynghorydd statudol ar yr hinsawdd, **awgrymu yn ddiweddar** sut y gallai Llywodraeth Cymru sicrhau cynnydd mewn sectorau datganoledig. Mae'r cyngor hwn wedi'i grynhoi mewn **erthygl gan Ymchwil y Senedd** ac yn y tabl isod.

### Tabl 1: Sut allai Llywodraeth newydd Cymru leihau allyriadau?

| Sector sydd 'wedi'i ddatganoli i raddau helaeth' | % Cyfanswm yr allyriadau (2023) | Y senario 'Llwybr Cytbwys' – Pwyllgor Newid Hinsawdd y DU |
|---|---|---|
| Trafnidiaeth | 16% | ▪ Defnyddio cerbydau trydan<br>▪ Mwy o siwrneiau yn cael eu gwneud ar ffurf trafnidiaeth gyhoeddus a **theithio llesol** |
| Amaethyddiaeth | 15% | ▪ Lleihau allyriadau gwrtaith<br>▪ Peiriannau ffermydd wedi'u trydaneiddio<br>▪ Llai o wartheg a defaid |
| Adeiladau | 11% | ▪ Defnyddio pympiau gwres<br>▪ **Cartrefi wedi'u hinswleiddio'n well** |
| Gwastraff | 3% | ▪ Lleihau'r **gwastraff a gynhyrchir**<br>▪ Defnyddio technoleg ar gyfer **dal a storio carbon** mewn cyfleusterau Ynni o Wastraff |
| Defnydd tir | Amherthnasol – dalfa $CO_2$ net | ▪ **Rhagor o blannu coed**<br>▪ **Adfer mawndiroedd** |

▸ **Ffynhonnell:** NAEI, **Pwyllgor Newid Hinsawdd y DU**

Gallai Llywodraeth newydd Cymru gael ei hysbrydoli gan waith **Grŵp Herio Cymru Sero Net 2035**, a'r **gwaith cyd-destunol a wnaed gan y Llywodraeth ddiwethaf**.


Mae mesurau lliniaru yn cynnig cyfleoedd yn ogystal â heriau. Mae nifer y swyddi gwyrdd yn cynyddu ac yn **cynnig cyflogau sy'n uwch na'r cyfartaledd**; mae ansawdd aer gwell **yn gwella iechyd y cyhoedd**; **mae cerbydau trydan yn rhatach i'w rhedeg**; a gall cynefinoedd sy'n storio carbon **helpu'r broses o adfer natur**.

Fodd bynnag, bydd y pontio gwyrdd yn cael effaith negyddol ar rai sectorau sy'n ddwys o ran allyriadau: er enghraifft, **y penderfyniad i gau ffwrneisi chwyth Port Talbot**. Gwnaeth Llywodraeth ddiwethaf Cymru **yr achos dros 'bontio teg'**, ond mae **Pwyllgor Newid Hinsawdd y DU** yn dadlau "y dylai'r llywodraeth fod yn fwy beiddgar o ran ymyrryd i liniaru effeithiau niweidiol pan na fo modd i'r sector preifat wneud hynny ar ei ben ei hun".

## Addasu i normalrwydd newydd

Mae **angen dybryd** i **addasu i effeithiau newid hinsawdd**, waeth pa mor gyflym y mae allyriadau'n gostwng. Mae'r effeithiau'n amrywio, gan gynnwys **lledaeniad clefydau fel y tafod glas,** a **gorboethi peryglus mewn cartrefi pobl**. Mae stormydd y gaeaf **yn dwysáu**, gan olygu bod digwyddiadau fel **stormydd Bert, Darragh**, a **Claudia** yn fwy tebygol o ddigwydd eto, a chan **gynyddu'r risg o lifogydd**.

**Ffigur 7: Amcangyfrif o'r perygl o lifogydd i eiddo yng Nghymru yn 2025 a 2120**





▸ **Ffynhonnell: Cyfoeth Naturiol Cymru**

Mae **Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru** – sy'n asesu anghenion seilwaith dros y tymor hir – wedi **arddel mwy o frys a sylfaen gyfreithiol fwy cadarn ar gyfer addasu**.

**Mae dulliau o addasu sy'n seiliedig ar natur,** fel **adfer dolydd morwellt** a **phlannu coed mewn trefi,** yn cynnig opsiynau i lunwyr polisi o ran lleihau risgiau hinsawdd a chefnogi bioamrywiaeth ar yr un pryd.

**Ffigur 8: Datblygiadau disgwyliedig o ran natur a gweithredu ar yr hinsawdd**




## Seiliau llwyddiant

**Mae'r sector amgylcheddol yn dadlau** ei bod yn annhebygol y bydd y nodau hinsawdd a natur yn cael eu cyflawni heb gyllid digonol a pharhaus. I gydnabod maint y dasg, mae **amgylcheddwyr** a **llywodraethau** yn canolbwyntio fwyfwy ar fecanweithiau i ddenu buddsoddiadau preifat cynaliadwy i ategu'r cyllid cyhoeddus sydd ar gael.

Yn dilyn **cyfnod hir o aros gan randdeiliaid** – bydd y **Swyddfa Llywodraethu**

**Amgylcheddol Cymru** yn cael ei sefydlu yn y Seithfed Senedd. Bydd ei **hannibyniaeth a'i chyllid** yn ystyriaethau allweddol, o gofio ei rôl arfaethedig, sef gwella gweithrediad cyfraith amgylcheddol a dwyn cyrff cyhoeddus i gyfrif mewn perthynas ag ymrwymiadau natur a hinsawdd.

Mae colli natur a newid hinsawdd yn effeithio ar lawer o feysydd y mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol amdanynt. Mae'r broses o integreiddio ystyriaethau amgylcheddol ar draws y Llywodraeth bellach yn **ofyniad cyfreithiol**. Yn ystod y Seithfed Senedd, **bydd rhanddeiliaid amgylcheddol yn disgwyl** ymateb i'r argyfyngau natur a hinsawdd sydd wedi'i ymwreiddio drwy'r Llywodraeth gyfan.

### Ffynonellau allweddol

- Ymchwil y Senedd, **Bioamrywiaeth** (2026)
- Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith y Chweched Senedd, **Atal a gwrthdroi colli natur erbyn 2030** (2025)
- Llywodraeth Cymru, **Plymio dwfn bioamrywiaeth** (2022)
- Ymchwil y Senedd, **Ceir, gwartheg a glo: allyriadau Cymru rhwng 1990 a 2023** (2025)
- Pwyllgor Newid Hinsawdd y DU, **Pedwaredd Gyllideb Garbon Cymru** (2025)
- Llywodraeth Cymru, **Strategaeth Addasu i'r Hinsawdd ar gyfer Cymru** (2024)

**Erthygl gan Dr Katy Orford a Dr Matthew Sutton, Ymchwil y Senedd, Senedd Cymru**



# Y llanw ar fin troi: dylunio sector dŵr ar gyfer y dyfodol yng Nghymru

## Mae dŵr yn adnodd cyfyngedig, yn anghenraid o ran iechyd y cyhoedd, ac yn nwydd masnachol. Ac eto, mae'r rheoliadau presennol yn ddiffygiol, gan arwain at gynnydd mewn llygredd a biliau uwch. Mae gan lunwyr polisi gyfle prin nawr i ail-lunio sut mae Cymru'n rheoli un o'i hadnoddau mwyaf hanfodol.

Mae'r sector dŵr yng Nghymru ar drothwy'r newid mwyaf ers iddo gael ei breifateiddio. Roedd **Papur Gwyrdd** a gafodd ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru yn ddiweddar yn arwydd bod cyfnod o ailddechrau o'r newydd yn cychwyn, a hynny'n dilyn blynyddoedd o **berfformiad ffaeledig gan gwmnïau dŵr**, mwy o lygredd yn ein dyfrffyrdd, a chynnydd parhaus mewn biliau dŵr.

Er bod dŵr **wedi'i ddatganoli i raddau helaeth**, mae gwaith rheoleiddio economaidd yn cael ei wneud ar sail Cymru a Lloegr gan Ofwat, sy'n atebol i Senedd y DU. Mae'r sefyllfa hon ar fin newid, gydag Ofwat yn cael ei ddiddymu, a phwerau newydd yn cael eu datganoli i Gymru. Bydd hyn yn hwyluso'r broses o sefydlu rheoleiddiwr i Gymru. Ochr yn ochr â newidiadau ehangach i lywodraethiant dŵr yng Nghymru, bydd hyn yn rhoi awdurdod llawn i Gymru dros ei dŵr, ac yn caniatáu iddi ddwyn ein cwmnïau dŵr i gyfrif.

Mae hanes y sector, gan gynnwys boddi dadleuol **Dyffryn Tryweryn** yn 1965, yn golygu bod arwyddocâd **gwleidyddol a diwylliannol** yn perthyn i'r broses ddiwygio. Gyda Chymru'n meddu ar reolaeth lwyr ar yr adnodd hwn, bydd cwestiwn sylfaenol yn cael ei ofyn i Aelodau o'r Senedd newydd, sef: beth ydyn ni am ei weld gan **ein sector dŵr**?

### Sicrhau cyflenwad cynaliadwy?

Mae cwmnïau dŵr a charthffosiaeth yn darparu gwasanaeth hanfodol; yn fras iawn, maent yn darparu dŵr glân, ac yn cludo dŵr gwastraff i ffwrdd. Mae rheoleiddwyr yn sicrhau bod cwmnïau'n darparu gwasanaethau dŵr a dŵr gwastraff sy'n ddiogel, yn ddibynadwy ac o ansawdd da, a hynny am bris teg i


ddefnyddwyr a'r amgylchedd.

Mae tua **12 miliwn o fegalitrau o ddŵr** yn cael eu trwyddedu i'w tynnu yng Nghymru bob blwyddyn, hynny yw, i'w tynnu o ddŵr mewndirol neu ffynonellau dŵr daear, yn bennaf ar gyfer y cyflenwad o ddŵr cyhoeddus gan **ddau gwmni**, sef Dŵr Cymru (cwmni dŵr mwyaf Cymru) a chwmni Hafren Dyfrdwy. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), ein rheoleiddiwr amgylcheddol, **"yn ymdrechu i atal pwysau o echdynnu dŵr trwyddedig"**, ac eto dim ond **40% o gyrff dŵr Cymru** sydd mewn cyflwr da.

Mae dŵr yn adnodd cyfyngedig y dylai **cwsmeriaid** a chwmnïau dŵr ei ddefnyddio'n gynaliadwy. Fodd bynnag, mae tua **un rhan o bump o'r dŵr** sy'n llifo trwy bibellau yng Nghymru a Lloegr, sy'n cyfateb i **1,187 o byllau nofio Olympaidd**, yn cael ei golli bob dydd o ganlyniad i ollyngiadau. Yn ystod y cyfnod rhwng 2020 a 2025, ymrwymodd y sector cyffredinol (Cymru a Lloegr) i ostyngiad blynyddol o 16% mewn gollyngiadau. Serch hynny, **gostyngiad o 9% yn unig a gafodd ei gyflawni**.

O ran y sector dŵr yng Nghymru, mae **gollyngiadau cyfartalog blynyddol wedi cynyddu'n gyffredinol** dros yr 20 mlynedd diwethaf, a hynny yn sgil y ffaith bod gollyngiadau wedi cynyddu o flwyddyn i flwyddyn dros gyfnod diweddar o saith mlynedd, yn bennaf oherwydd Dŵr Cymru. Fodd bynnag, gostyngodd y ffigurau yn sylweddol yn 2024-25 yn dilyn **buddsoddi a ffocws** gan gwmni Dŵr Cymru.

**Ffigur 1: Gollyngiadau blynyddol cyfartalog cyfunol cwmnïau dŵr Cymru – miliynau o litrau y dydd (Ml/d)**




▸ **Ffynhonnell:** Ofwat, **Set Data Gollyngiadau – Tachwedd 2025**

Er bod Ofwat wedi pennu targed ar gyfer lleihau gollyngiadau cyffredinol yn sector Cymru a Lloegr, sef **gostyngiad o 17% ar gyfer y cyfnod rhwng 2025 a 2030**, y targed unigol ar gyfer Dŵr Cymru yw 24%.

Mae'n ofynnol i gwmnïau sy'n methu â chyrraedd targedau roi arian yn ôl i gwsmeriaid. Yn sgil tanberfformiad ledled Cymru a Lloegr, **cafodd swm o dros £700 miliwn ei ddychwelyd** i gwsmeriaid yn y DU dros gyfnod o bum mlynedd, gan gynnwys **dros £260 miliwn yn 2024-25**. Fodd bynnag, nid yw rhoi arian yn ôl ym mhocedi cwsmeriaid yn helpu o ran sicrhau diogelwch adnoddau dros y tymor hir. Dyma oedd un o **ganfyddiadau CNC yn ddiweddar**:

> Gallai parthau sy'n cwmpasu 70% o boblogaeth Cymru fod â diffyg dŵr erbyn 2050, oni bai fod mesurau rheoli gollyngiadau ac effeithlonrwydd dŵr yn cael eu gweithredu.

## Gweithredu fel ceidwad amgylcheddol?

Mae cyfrifoldebau'r sector dŵr yn estyn y tu hwnt i gyflenwi dŵr a thrin carthffosiaeth; mae'r cyrff yn y sector yn stiwardiaid amgylcheddol allweddol, gan fod popeth y maen nhw'n ei wneud yn effeithio ar afonydd, dyfroedd arfordirol, tirweddau a bioamrywiaeth. Mae **dyletswydd arnyn nhw i dynnu llygryddion** o ddŵr gwastraff, a monitro gollyngiadau er mwyn atal niwed.

Mae rheoleiddwyr yn **pennu safonau llym**, gan fod canlyniadau uniongyrchol yn deillio o fethiannau, gan gynnwys dŵr anniogel a chostau hirdymor i gymunedau. Ac eto, mae methiannau o ran y seilwaith yn golygu bod dŵr gwastraff heb ei drin yn aml yn cyrraedd afonydd a moroedd. **Mae gorlifoedd**, y bwriedir iddynt ddigwydd mewn **amgylchiadau eithriadol yn unig**, yn digwydd yn llawer mwy aml.

Er gwaethaf yr **ymrwymiadau sydd wedi'u gwneud i leihau** nifer y gollyngiadau sy'n gysylltiedig â gorlifoedd, **roedd Dŵr Cymru** wedi rhyddhau carthion 118,276 o weithiau, am gyfanswm o 968,340 o oriau, yn 2024. Yn yr un flwyddyn, achosodd y cwmni **155 o ddigwyddiadau llygredd**, sy'n gynnydd o'i gymharu â'r 132 a ddigwyddodd yn 2023. Ar ben hynny, dyma'r nifer uchaf o ddigwyddiadau llygredd carthffosiaeth a achoswyd gan y cwmni ers 2015.

Mae'r llygredd hwn yn niweidio **iechyd y cyhoedd** a'r amgylchedd, ac mae dŵr gwastraff yn **gyfrannwr mawr** at ansawdd dŵr gwael yng Nghymru.

Nid yn unig y mae cwmnïau dŵr yn methu **mynd i'r afael â gollyngiadau**

**carthion heb eu trin**, ond mae goruchwyliaeth reoleiddiol o'r **mater hefyd yn ffaeledig**. Mae **Papur Gwyrdd** Llywodraeth Cymru yn dweud bod y fframwaith deddfwriaethol a rheoleiddiol presennol yn "rhy gymhleth", a bod "rhywfaint o'r ddeddfwriaeth hefyd wedi dyddio ac efallai nad yw'n adlewyrchu'n gywir y ddealltwriaeth wyddonol ddiweddaraf na blaenoriaethau cyhoeddus".

Gallai ymdrin â chynigion i adolygu'r fframwaith hwn fod yn dasg sylweddol i Lywodraeth newydd. Ond gydag adroddiadau yn ymddangos yn rheolaidd yn y cyfryngau am lygredd dŵr neu berfformiad cwmnïau dŵr, bydd gofyn i lunwyr polisi Cymru ymateb i alwadau'r cyhoedd **am gamau gweithredu** ynghylch y **mater arwyddocaol** hwn.

## Darparu anghenraid o ran iechyd y cyhoedd, neu nwydd?


Mae dŵr yn meddiannu tir unigryw yng nghyd-destun polisi cymdeithasol, gwleidyddol ac economaidd. Mae'n hanfodol o ran sicrhau bod dynol ryw yn goroesi, ac yn rhan o system seilwaith enfawr y mae angen buddsoddi ynddi. Yn ymarferol, mae cwmnïau dŵr yn ceisio taro cydbwysedd dyrys rhwng cyflawni anghenraid iechyd cyhoeddus, a rheoli nwydd economaidd.

Mae gan bawb **yr hawl i ddŵr**, ac nid oes gan gwmnïau yr hawl i **wrthod cyflenwi dŵr** ar sail y gallu i dalu. Yn ogystal, mae **buddsoddi mewn seilwaith** gwydn er mwyn darparu dŵr diogel yn orfodol.

Fodd bynnag, ers **preifateiddio'r sector ym 1989**, mae gwasanaethau dŵr wedi cael eu darparu gan gwmnïau sy'n cael eu hariannu yn bennaf drwy filiau cwsmeriaid a buddsoddiadau preifat, gan weithredu fel monopolïau wedi'u rheoleiddio. Mae ffioedd a rhaglenni buddsoddi yn cael eu pennu drwy **fecanweithiau rheoleiddio sy'n seiliedig ar y farchnad** ac sy'n trin dŵr fel ased economaidd.

Nod rheoleiddwyr yw rheoli'r gwrthdaro rhwng darparu biliau fforddiadwy a diwallu'r angen am fuddsoddiadau cyfalaf mawr. Fodd bynnag, yn sgil **graddfa'r buddsoddiadau sydd eu hangen** i fynd i'r afael â'r seilwaith diffygiol, a'r costau cynyddol sydd ynghlwm wrth eu hariannu, mae biliau wedi cynyddu'n gyson yn ystod y blynyddoedd diwethaf, a byddant yn parhau i gynyddu.

**Ffigur 2: Biliau blynyddol cyfunol dŵr a charthffosiaeth aelwydydd, ar gyfartaledd, (£) gan y ddau gwmni dŵr yng Nghymru**




▸ **Ffynhonnell:** **Discover Water**

Un o'r heriau craidd sy'n wynebu llunwyr polisi yng Nghymru yw'r her o gyflwyno system reoleiddio sy'n sicrhau na all pwysau masnachol beryglu iechyd y cyhoedd mewn perthynas â chyflenwi a thrin dŵr, a stiwardiaeth amgylcheddol. Bydd angen gwneud hyn gan gadw biliau aelwydydd yn fforddiadwy yn ystod y pwysau costau byw parhaus.

## Sector dŵr wedi'i adeiladu ar gyfer Cymru?

Mae cwmni Dŵr Cymru yn gweithredu ar sail model nid-er-elw unigryw, sy'n golygu bod **rheoliadau sydd wedi'u cynllunio ar gyfer cwmnïau sy'n eiddo i gyfranddalwyr** yn llai effeithiol. Mae dirwyon yn mynd i Drysorlys y DU yn hytrach na chael eu defnyddio er budd cymunedau yng Nghymru.

Yn y cyfamser, mae cyflogau swyddogion gweithredol yng nghwmni Dŵr Cymru yn ystod cyfnodau o berfformiad gwael wedi **ysgogi gwaith craffu,** ac wedi esgor ar **drafodaethau o'r newydd ynghylch a fyddai modd i berchnogaeth gyhoeddus** arwain at ganlyniadau gwell.

Bydd y cwestiwn ynghylch a oes ewyllys wleidyddol i wladoli'r sector yn dibynnu ar Lywodraeth newydd Cymru. Am y tro, mae gan lunwyr polisi gyfle i greu system reoleiddio sy'n dwyn cwmnïau Cymru i gyfrif, gan sicrhau atebolrwydd drwy fecanweithiau sy'n addas ar gyfer model nid-er-elw, a chysondeb â blaenoriaethau amgylcheddol a chyhoeddus Cymru.

## Paratoi ar gyfer y dyfodol?

Mae newid hinsawdd yn cynyddu'r risg o lifogydd a **sychder**.

Mae un o bob saith cartref yng Nghymru **eisoes mewn perygl o ddioddef llifogydd**, gyda **disgwyliad y bydd mwy dros y ganrif nesaf**. Cwmnïau dŵr sy'n gyfrifol am **reoli llifogydd** sy'n deillio o'u hasedau. Yn y tymor hwy, **mae angen buddsoddi** i sicrhau **gwydnwch ac i amddiffyn** cymunedau.

O safbwynt gwydnwch rhag sychder, mae angen **cynllunio tymor hir** mewn perthynas â chronfeydd dŵr, trosglwyddiadau dŵr, a rheoli galw. Fodd bynnag, nid faint o ddŵr sydd ei angen yw'r unig beth sy'n newid dros amser. Rydym hefyd yn disgwyl i'r cyrff hyn ymateb i **lygryddion sy'n dod i'r amlwg**.

Mae'r gwaith o gynllunio buddsoddi yn y sector dŵr yn cael ei wneud ar sail **cylch pum mlynedd**. Mae'r trefniadau hyn yn **ddefnyddiol ar gyfer pennu taliadau cwsmeriaid**. Fodd bynnag, mae gorwelion hwy, o 10 a 25 mlynedd, **yn cael eu cynnig** o ran cefnogi buddsoddiadau strategol. Mae'r **Papur Gwyrdd** yn awgrymu creu swyddogaeth cynllunio systemau cenedlaethol er mwyn cydlynu'r broses o reoli dŵr ledled Cymru, ac yn awgrymu rhoi'r swyddogaeth hon i'r rheoleiddiwr economaidd, er mwyn "sicrhau bod fforddiadwyedd tymor byr yn cael ei gydbwyso â seilwaith tymor hir ac anghenion amgylcheddol".

## Beth nesaf?

Mae **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol** yn rhoi cynaliadwyedd hirdymor wrth wraidd polisïau yng Nghymru, gan gynnwys polisi i ddiogelu dŵr, un o'n hasedau hanfodol. Mae gan y Seithfed Senedd gyfle i lunio system reoleiddio yng Nghymru, a chreu sector gwydn sy'n cefnogi cymunedau, natur a'r economi, gan sicrhau bod dŵr diogel a fforddiadwy ar gael i genedlaethau'r dyfodol.

## Ffynonellau allweddol

- Llywodraeth Cymru, **Papur Gwyrdd: Llunio Dyfodol Llywodraethiant Dŵr yng Nghymru** (2026)
- Ymchwil y Senedd, **Y Diwydiant Dŵr yng Nghymru** (2018)
- Ymchwil y Senedd, **Diwygio sector dŵr Cymru: beth, sut a phryd?** (2026)
- Ofwat, **Penderfyniadau terfynol o ran adolygiad prisiau 2024** (2026)
- Cyfoeth Naturiol Cymru, **Adroddiadau data gollyngiadau gorlifoedd stormydd** (blynyddol)

**Erthygl gan Lorna Scurlock, Ymchwil y Senedd, Senedd Cymru**



# Beth yw pwrpas cefn gwlad?

## Mae blaenoriaethau ar gyfer defnydd tir gwledig yn debygol o fod yn faes brwydr polisi. Ffermio, cadwraeth, coedwigaeth, mynediad i'r cyhoedd a chynhyrchu ynni yw rhai o'r materion y bydd angen i lunwyr polisïau fynd i'r afael â nhw yn y Seithfed Senedd.

Mae Cymru yn wlad o fynyddoedd dramatig, dyffrynnoedd dwfn, a bryniau gwyrddion tonnog.

Mae'r dirwedd wledig dros ben hon wedi helpu i lywio sut mae'r byd yn ein gweld ni, a sut rydym ni'n gweld ein hunain. Ond **mae'r rhan fwyaf ohonom yn byw mewn trefi a dinasoedd**, ac mae blaenoriaethau'r etholwyr hynny yn dueddol o fod yn rhai trefol.

Mae polisïau'r Llywodraeth ar sut rydym yn defnyddio ein tir gwledig yn cael effaith ddofn ar y rhai sy'n byw ac yn gweithio yng nghefn gwlad, er mai cyfran fach o'r pleidleiswyr ydynt.

Er bod Llywodraeth flaenorol Cymru wedi pwysleisio polisi o **'gyd-ddylunio'**, gwelodd y Chweched Senedd enghreifftiau o gymunedau gwledig yn gwthio'n ôl yn erbyn polisïau sy'n cael eu llywio o Gaerdydd.

### Mae ffermio yn hanfodol

Mae dros **90% o Gymru yn dir fferm**. Mae'r hinsawdd a **natur y tir** yn golygu ei fod yn cael ei ddefnyddio'n bennaf ar gyfer magu defaid a gwartheg. Roedd **Gwerth Ychwanegol Gros Amaethyddiaeth** yn £709 miliwn yn 2023, sef 0.87% o **gyfanswm Gwerth Ychwanegol Gros Cymru**.

Ond mae polisi amaethyddol yn cael **effaith sylweddol** ar gymunedau gwledig, diwylliant a'r economi wledig ehangach, yn ogystal ag ar gynhyrchu bwyd a'r amgylchedd.

Er enghraifft, mae'r ganran o siaradwyr Cymraeg sy'n gweithio mewn amaethyddiaeth yn **arbennig o uchel** o'i chymharu â sectorau eraill, sy'n gwneud y diwydiant yn bwysig o ran cynnal cymunedau gwledig Cymraeg eu

hiaith.

Cafodd **Cynllun Ffermio Cynaliadwy** blaenllaw Llywodraeth flaenorol Cymru ei lansio ym mis Ionawr, ar ôl blynyddoedd o **ddatblygu cymhleth**, gan gynnwys **protestiadau gan ffermwyr**. Mae'r sector yn awyddus i weld a fydd Llywodraeth newydd Cymru yn adolygu'r cynllun.

Nod y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yw cyflawni pedwar **amcan Rheoli Tir yn Gynaliadwy** sy'n mynd i'r afael â chynhyrchu bwyd, newid hinsawdd, gwydnwch ecosystemau, diwylliant gwledig a'r Gymraeg.


Mae cydbwyso'r amcanion hyn **wedi bod yn ddadleuol**. Roedd ffermwyr **yn pryderu** y gallai agweddau amgylcheddol (fel gofynion plannu coed) gymryd gormod o dir allan o gynhyrchiant. Dadleuodd **Llywodraeth flaenorol Cymru** fod rheoli'r amgylchedd yn gwella cynhyrchiant bwyd cynaliadwy.

Mae camau **'Cyffredinol'** y cynllun wedi cael eu cyflwyno, ond mae'r haenau **'Opsiynol'** a **'Chydweithredol'** nad ydynt yn orfodol, ond gyda'r disgwyliad y byddent yn sicrhau canlyniadau mwy uchelgeisiol, yn dal i gael eu datblygu.


**Mae amgylcheddwyr yn pwysleisio** bod angen cyllid digonol ar gyfer yr haenau hyn er mwyn gwella'r amgylchedd. **Yn ôl ffermwyr**, mae angen hwb sylweddol i'r gyllideb a gwarant ariannol tymor hwy er mwyn cyflawni amcanion y cynllun.

Mae'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn ddewisol ac mae'n rhan o dirwedd reoleiddio ehangach. Mae rheolau i **reoli llygredd amaethyddol** wedi bod yn ddadleuol oherwydd **pryderon** am y gost i ffermwyr a chyfyngiadau ar daenu gwrtaith. **Mae adolygiad statudol diweddar** yn cynnwys argymhellion i'w hystyried yn ystod y Seithfed Senedd.

## Ffigur 1: Map o ddefnydd tir



## Ffigur 2: Map o ardaloedd gwledig a threfol



## Dyfodol ffermio


Bydd dyfodol ffermio yn cael ei lunio gan gyfuniad o dargedau amgylcheddol, pwysau'r farchnad a pholisi defnydd tir sy'n esblygu, gan arwain at fwy o **arallgyfeirio**.

Mae gostyngiad cyffredinol yn niferoedd da byw yn bryder i **broseswyr cig coch**, ond mae ffermwyr yn ehangu i feysydd sy'n cynnwys dofednod, ynni adnewyddadwy, amaeth-dwristiaeth a **chynhyrchu bwyd gwerth ychwanegol** er mwyn sefydlogi incwm.

Mae garddwriaeth yn cael **sylw o'r newydd** fel ffordd o gynyddu'r cyflenwad domestig o ffrwythau a llysiau er mwyn gwella diogelwch bwyd a hyrwyddo deietau iachach.

Mae diogelu priddoedd ffrwythlon rhag datblygiadau hefyd **wedi cael ei amlygu yn ystod y Chweched Senedd**.

**Ffigur 3: Niferoedd da byw yng Nghymru, 2004-2025**




*Caiff maint y fuches laeth a chig eidion **ei ddiffinio** fel nifer y benywod 2 oed a hŷn sydd wedi lloia.

▸ **Ffynhonnell:** Llywodraeth y DU, **Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig**

## Lle i natur

Roedd Llywodraeth flaenorol Cymru **yn anelu at neilltuo** tir ar gyfer natur trwy uchelgeisiau i wella ac ehangu'r **rhwydwaith o safleoedd gwarchodedig**. **Mae amgylcheddwyr yn pwysleisio** bod cyflwr y rhwydwaith yn ei gwneud hi'n anodd i Gymru gyrraedd ei **hymrwymiadau bioamrywiaeth byd-eang erbyn 2030**.

Mae mentrau ailwylltio, **sy'n aml yn destun dadl frwd mewn cymunedau gwledig**, yn anelu at gefnogi gwaith adfer natur ar raddfa fawr. Mae prosiect

**ailwylltio sylweddol ar y gweill** yng Ngheredigion.

Mae erthygl arall yn y gyfres hon yn trafod ystyriaethau natur a hinsawdd.

## Hawl y cyhoedd i fwynhau cefn gwlad

Mae **galw cynyddol gan y cyhoedd am hamdden awyr agored** wedi ysgogi galwadau i **wella hawliau tramwy cyhoeddus**, ac **i ehangu hawliau ar gyfer gweithgareddau** fel beicio a marchogaeth. Er eu bod yn cefnogi twristiaeth, yr economi leol a llesiant, rhaid cydbwyso'r hawliau hyn yn erbyn diogelu'r amgylchedd a hawliau perchnogion tir.

Gyda'i gilydd, mae **Parciau Cenedlaethol** a **Thirweddau Cenedlaethol** yn gorchuddio **25% o Gymru**. Gan fod ganddynt **nifer o ddibenion**, mae gofyn iddynt gyflawni amcanion sydd weithiau'n gwrthdaro, ar gyfer pobl sydd â blaenoriaethau gwahanol.

**Ymrwymodd** Llywodraeth flaenorol Cymru i ddynodi Parc Cenedlaethol newydd yng ngogledd-ddwyrain Cymru. Er bod **safbwyntiau** ar y cynnig yn gymysg, **nid oes yr un o'r pum awdurdod lleol** y mae'r cynnig yn effeithio arnynt yn cefnogi'r dynodiad.

Yn dilyn **ymchwiliad cyhoeddus**, bydd angen i'r llywodraeth newydd benderfynu a ddylai'r dynodiad symud ymlaen ai peidio.

## Mae angen i Gymru blannu mwy o goed

Mae coetiroedd yn dod â **manteision amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol**.

Nod **Strategaeth Ddiwydiannol ar gyfer Pren 2025** Llywodraeth flaenorol Cymru yw cynyddu'r cyflenwad pren ac ychwanegu gwerth at bren sy'n cael ei dyfu yng Nghymru.

Ond mae **cyfraddau plannu coed** ymhell o dan darged **Llywodraeth flaenorol Cymru**, a osodwyd yn 2021 — sef 43,000 hectar (ha) o blannu coed newydd erbyn 2030, a 180,000 ha erbyn 2050. Mae'r targedau hyn yn seiliedig ar **gyngor Pwyllgor y DU ar Newid yn yr Hinsawdd**. Dim ond 3,700 ha **sydd wedi'u plannu ers 2020**.

Yn fwy diweddar, nododd cyngor **Pedwaredd Gyllideb Garbon** Pwyllgor y DU ar Newid yn yr Hinsawdd lwybr cytbwys a fyddai'n arwain at greu 22,000 ha o


goetir newydd erbyn 2030 – llai na hanner targed Llywodraeth flaenorol Cymru – ond o dan y llwybr hwn byddai 208,000 ha yn cael eu cyflawni erbyn 2050.

Er bod Llywodraeth flaenorol Cymru wedi gosod y lefel gostwng allyriadau carbon ar y lefel a gafodd ei argymell gan Bwyllgor y DU ar Newid yn yr Hinsawdd, bydd adolygu targedau plannu coed yn benderfyniad i'r llywodraeth newydd.

Trwy'r **Cynllun Ffermio Cynaliadwy**, roedd Llywodraeth flaenorol Cymru yn anelu at 17,000–21,500 ha o blannu newydd erbyn 2030, yn bennaf **trwy gymhellion dewisol**.

Hyd yn oed pe bai'n cael ei gyflawni, ni fyddai dyhead y Cynllun Ffermio Cynaliadwy ond yn cyflawni hanner yr hyn sydd ei angen i Gymru gyrraedd y targed presennol.

**Ffigur 4: Targedau a llwybrau plannu coed, 2020-2050**




► **Ffynhonnell:** Dadansoddiad Ymchwil y Senedd o ddata gan: **Llywodraeth Cymru (coedwigaeth)**; **Forest Research**; **Pwyllgor y DU ar Newid yn yr Hinsawdd**; **Llywodraeth Cymru (amaethyddiaeth)**

Mae menter **y Goedwig Genedlaethol** hefyd yn anelu at ehangu ac adfer coetiroedd, trwy sefydlu coedwig sy'n ymestyn ar draws "hyd a lled Cymru".

Er hynny, gall plannu coed ar raddfa fawr **fod yn ddadleuol**, ac mae pryderon wedi bod mewn cymunedau gwledig am **gorfforaethau sy'n cynnig mwy o arian na theuluoedd lleol** i brynu ffermydd er mwyn plannu coed i wrthbwyso carbon.

## Cefn gwlad fel pwerdy Cymru

Nod Llywodraeth flaenorol Cymru oedd i Gymru **gynhyrchu cyfwerth â 100%** o'i hanghenion ynni o ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2035.

Mae'r polisi cynllunio cenedlaethol, a nodir yn **Cymru'r Dyfodol**, yn cefnogi datblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel. Mae rhagdybiaeth o blaid datblygiadau ynni gwynt ar raddfa fawr mewn **'Ardaloedd wedi'u rhag-asesu ar gyfer Ynni'r Gwynt'** ledled cefn gwlad Cymru, a chafodd **proses newydd** ei chyflwyno yn 2025 i symleiddio caniatâd seilwaith.

Daeth **gwaith monitro diweddar** i'r casgliad bod Cymru'r Dyfodol yn darparu sylfaen ofodol genedlaethol gadarn ac nad oedd angen adolygiad brys.

Mae'r graddau y mae cymunedau'n teimlo bod ganddynt lais ystyrlon ar brosiectau seilwaith mawr yn fater parhaus, yn ogystal â'r budd cymunedol sy'n deillio o'r prosiectau unwaith y byddant yn weithredol.

Gall cymunedau deimlo wedi'u **digalonni rhag cymryd rhan mewn ymgynghoriadau** oherwydd cymhlethdod prosiectau, blinder ymgynghori, neu dybiaeth bod y datblygiad eisoes yn benderfyniad terfynol. Dadleuodd Llywodraeth flaenorol Cymru fod y broses ganiatâd newydd yn **gwella ymgynghori cymunedol**.

Roedd **Llywodraeth flaenorol Cymru yn disgwyl** i brosiectau ynni adnewyddadwy newydd gynnwys o leiaf elfen o berchnogaeth leol, gyda **nod o gael 1.5 gigawat** o allu cynhyrchu sy'n eiddo i bobl leol erbyn 2035. **Sefydlwyd Ynni Cymru** i gynyddu nifer y prosiectau sy'n eiddo i bobl leol.

Gall effaith llinellau trawsyrru trydan a pheilonau newydd ar y dirwedd hefyd fod yn destun pryder. Roedd **Llywodraeth flaenorol Cymru** am i linellau newydd gael eu gosod o dan y ddaear lle bo hynny'n bosibl, gan gydnabod nad yw hynny bob amser yn hyfyw yn economaidd. Lle nad yw'n bosibl eu gosod o dan y ddaear, dylid lleihau'r **effaith weledol cymaint â phosibl**.

Bydd trafodaethau ynghylch cydbwyso'r gofynion cystadleuol ar sut y caiff tir gwledig ei ddefnyddio yn parhau ymhell y tu hwnt i dymor un Senedd. Eto

i gyd, bydd pawb sy'n ymwneud â chefn gwlad yn disgwyl yn eiddgar at y Seithfed Senedd, yn enwedig y cymunedau hynny sy'n byw yn ein hardaloedd gwledig.

## Ffynonellau allweddol

- Llywodraeth Cymru, **Cynllun Ffermio Cynaliadwy 2026** (2025)
- Llywodraeth Cymru, **Adolygiad statudol o'r Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol** (2025)
- Ymchwil y Senedd, **Rhywbeth i gnoi cil drosto? Y Senedd i drafod prosesu bwyd yng Nghymru** (2026)
- Llywodraeth Cymru, **Gweledigaeth ar gyfer y diwydiant bwyd a diod** (2021)
- Ymchwil y Senedd, **Colli tir? Cyflwr pridd yng Nghymru** (2026)
- Llywodraeth Cymru, **Plymio dwfn bioamrywiaeth** (2022)
- Cyfoeth Naturiol Cymru, **Cynnig Parc Cenedlaethol Newydd Cymru** (2025)
- Llywodraeth Cymru, **Strategaeth Ddiwydiannol ar gyfer Pren** (2025)
- Llywodraeth Cymru, **Coetiroedd i Gymru** (2021)
- Ymchwil y Senedd, **Plannu coed: Beth nesaf i Gymru?** (2025)
- Llywodraeth Cymru, **Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040** (2021)
- Llywodraeth Cymru, **Perchnogaeth leol a rhanberchnogaeth prosiectau ynni yng Nghymru** (2022)

**Erthygl gan Elfyn Henderson a Dr Katy Orford, Ymchwil y Senedd, Senedd Cymru**





# Byw yng Nghymru





# A yw hi'n argyfwng ar ddiwylliant?

## Mae degawd o doriadau wedi arwain cyrff gan gynnwys Cyngor Celfyddydau Cymru, Undeb y Cerddorion a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i ddweud ei bod hi'n "argyfwng" ar ddiwylliant yng Nghymru. Sut ddigwyddodd hyn?

Fe fyddai'n nodweddiadol dechrau erthygl o'r fath gan sôn am "wlad y gân", sef cyfeiriad at draddodiad canu hirhoedlog Cymru, o eisteddfodau, i gorau capel, i feysydd rygbi. Ond a fyddai'r enw hwnnw yn cael ei roi heddiw i wlad sydd **heb neuadd gyngerdd genedlaethol** (sydd ar gau ers 2023 ar gyfer atgyweirio), lle mae'r cwmni opera cenedlaethol wedi **disgrifio ei ddyfodol** fel un peryglus tu hwnt, a gwlad sy'n gwario gyda'r lleiaf yn Ewrop ar ddiwylliant a chwaraeon?


### Gwariant cyhoeddus ar ddiwylliant yn uwch na chyfartaledd y DU, ond ymhlith yr isaf yn Ewrop

Rhwng 2014-15 a 2024-25, **torrodd Llywodraeth Cymru gyllidebau refeniw diwylliant a chwaraeon 17%** mewn termau real. Dros yr un cyfnod, mae cyllidebau cyfalaf (sydd yn llai na hanner maint y cyllidebau refeniw) bron wedi treblu o ran maint.

Yn dilyn gostyngiadau termau real hirfaith gan lywodraeth ganolog a llywodraeth lleol, mae lefelau cyllid cyhoeddus ar gyfer diwylliant a chwaraeon yng Nghymru ymhlith yr isaf yn Ewrop.

Mae ffigurau a gasglwyd ar lefel y DU yn dangos bod gwariant cyhoeddus (gan lywodraethau cenedlaethol a lleol) ar wasanaethau diwylliannol y pen yng Nghymru yn uwch na chyfartaledd y DU, ond yn sylweddol is nag yn yr Alban a Gogledd Iwerddon.

**Ffigur 1: Cyfanswm y gwariant adnabyddadwy ar wasanaethau diwylliannol, £ y pen, alldro 2024-25 ar gyfer gwledydd y DU**





▸ **Ffynhonnell:** Trysorlys EF, tabl dadansoddiad fesul gwlad a rhanbarth B.5, B.6, B.7, B.8

Mae ffigurau a gasglwyd ar lefel Ewropeaidd yn dangos bod gwariant cyhoeddus y pen ar wasanaethau diwylliannol yn y DU ymhlith yr isaf yn Ewrop. Mae'n debygol y byddai'n rhaid i Gymru ddyblu ei gwariant cyhoeddus ar ddiwylliant i gyrraedd cyfartaledd y 24 gwlad Ewropeaidd hyn.



**Ffigur 2: Cyfanswm gwariant y llywodraeth ar wasanaethau diwylliannol, £ y pen, ar gyfer gwledydd Ewropeaidd yn y flwyddyn a ddaeth i ben 2023**




▸ **Ffynhonnell:** Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD), gwariant blynyddol y llywodraeth yn ôl swyddogaeth a dadansoddiad Ymchwil y Senedd

▸ *Mae'r ffigurau ar gyfer y Deyrnas Unedig yn wahanol yn y ddau graff blaenorol oherwydd gwahanol ddulliau a ddefnyddir gan Drysorlys EF a'r OECD.


Pam mae hyn wedi digwydd? Yn gryno, cafwyd toriadau i ddiwylliant ar lefelau cenedlaethol a lleol oherwydd bod gwleidyddion wedi dewis gwario arian ar bethau eraill.

Cafodd Llywodraeth Cymru gynnydd termau real mewn cyllid refeniw o tua 15%

rhwng 2014-15 a 2024-25, a dewisodd ei ddefnyddio i ariannu meysydd eraill. Yn ystod y cyfnod hwn, er bod gwariant refeniw Llywodraeth Cymru ar ddiwylliant a chwaraeon wedi gostwng 17% mewn termau real, cynyddodd gwariant iechyd Llywodraeth Cymru 37%.

Rhwng 2014-15 a 2024-25, gostyngodd cyllid refeniw awdurdodau lleol ar gyfer llyfrgelloedd, diwylliant, treftadaeth, chwaraeon a hamdden 25% mewn termau real, tra bod gwariant ar addysg a gwasanaethau cymdeithasol wedi cynyddu'n sydyn (gweler ffigur 3).

**Ffigur 3: Alldro refeniw awdurdodau lleol, yn ôl gwasanaeth (£000) (2001-02 i 2024-25)**




▸ **Ffynhonnell:** **Llywodraeth Cymru – Alldro gwariant refeniw yn ôl awdurdod a gwasanaeth** a dadansoddiad Ymchwil y Senedd

Mae sefydliadau celfyddydol yn tynnu sylw fwyfwy at fanteision ariannu diwylliant y tu hwnt i'w werth ynddo'i hun. Maent yn tynnu sylw at **fanteision economaidd a chymdeithasol** gweithgarwch diwylliannol, gan gynnwys **gwell canlyniadau iechyd**.

Mae'r dadansoddiad hwn yn cyd-fynd â **galwadau gan Archwilio Cymru** (corff gwarchod gwariant) a **Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol** (swyddog annibynnol a benodwyd gan Lywodraeth Cymru) i symud gwariant i ffwrdd o ddatrys problemau tymor byr, a thuag at fesurau atal. Fodd bynnag, yn dilyn blynyddoedd o waith craffu ar gyllidebau Llywodraeth Cymru, **dywedodd Pwyllgor Diwylliant y Senedd flaenorol** nad oedd "eto wedi cael ateb clir sy'n rhoi sicrwydd i ni" bod Llywodraeth Cymru'n "gweithio mewn ffordd strategol mewn perthynas â'r mater hwn".


## Bwcedi o ddŵr glaw

**Dywedodd Pwyllgor Diwylliant y Senedd ddiwethaf** fod diwylliant, o ganlyniad i gyllid isel gan y llywodraeth, yn "fregus a heb ddigon o adnoddau". **Dywedodd Cyngor Celfyddydau Cymru** fod argyfwng yn wynebu'r sector diwylliant ar hyn o bryd, ac **mae Undeb y Cerddorion wedi rhybuddio** ynghylch argyfwng sy'n datblygu yng ngherddoriaeth Cymru.

**Dywedodd Lesley Griffiths AS, pan oedd hi'n Weinidog Diwylliant am gyfnod byr yn ystod haf 2024** nad oedd hi erioed wedi gweld cymaint o fwcedi â'r rheini oedd yn dal dŵr glaw yn Amgueddfa Cymru, gan ddisgrifio'r sefyllfa fel un erchyll. **Yn ôl staff yr amgueddfa, ers hynny maen nhw wedi cael** cynnydd sylweddol mewn cyllid cyfalaf i fynd i'r afael â rhai o'r pryderon mwyaf brys, ond bod ôl-groniad cynnal a chadw'r Amgueddfa ar draws ei saith safle yn £67 miliwn (ffigurau a ddarparwyd i Ymchwil y Senedd gan Amgueddfa Cymru). Yn sgil y "**toriadau mwyaf i gyllideb Amgueddfa Cymru erioed**" gan Lywodraeth Cymru yn 2024-25, **collodd 144, neu tua 15%, o staff yr Amgueddfa eu swyddi**.

Mae presenoldeb ym mhob math o ddigwyddiadau celfyddydol yn parhau i fod islaw'r lefelau cyn y pandemig.

### Ffigur 4: Canran y bobl sy'n mynd i ddigwyddiadau celfyddydol, yn ôl blwyddyn




▸ **Ffynhonnell:** Arolwg Cenedlaethol Cymru

Dywedodd Cyngor y Celfyddydau (elusen sy'n cefnogi'r sector) yn 2025 y bu cynnydd yn nifer y sefydliadau celfyddydol sy'n y sefyllfa fwyaf bregus, ac nad oes unrhyw lacrwydd yn y system. Mae seilwaith celfyddydau sy'n heneiddio – yn bennaf o'r 1970au â thoeau sy'n gollwng dŵr – yn wynebu ôl-groniad cynnal a chadw cyfalaf o £50-100 miliwn.

## Y broblem gyda bil yw bod yn rhaid i rywun ei dalu

Gan adleisio galwadau o'r sector, mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wedi dweud bod toriadau cyllid wedi gwthio diwylliant i sefyllfa o argyfwng, gan "fygwth y bywyd diwylliannol sy'n sail i hunaniaeth, iaith a chydlyniant cymunedol Cymru". Fe wnaeth annog y Llywodraeth nesaf yng Nghymru i gyflwyno bil diwylliant, heb roi darlun clir o'r hyn y byddai'r bil hwn yn ei wneud. Mae wedi galw am yr "un lefel o ddiogelwch cyfreithiol iddo ag sydd eisoes yn cael ei roi i'r iaith Gymraeg a theithio llesol": dau faes polisi â fframweithiau

cyfreithiol gwahanol iawn.

Hoffai **Cyngor y Celfyddydau** ac **Amgueddfa Cymru** hefyd weld cyfraith i amddiffyn diwylliant. Fodd bynnag, mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru'n flaenorol wedi **gwrthwynebu amddiffyniad statudol**, oni bai bod hynny'n cyd-fynd â mwy o gyllid gan lywodraeth ganolog. **Teimlai'r Pwyllgor Diwylliant blaenorol** nad oedd y Comisiynydd wedi cyflwyno "dadl gref dros pam mai deddfwriaeth yw'r ffordd briodol o fynd i'r afael" â'r problemau sy'n wynebu'r sector, ac a gafodd sylw amlwg.

## Dim "rhaglen ystyrlon"

Ar ôl aros am bedair blynedd, cyhoeddodd Llywodraeth flaenorol Cymru ei **Blaenoriaethau ar gyfer Diwylliant** ym mis Mai 2025, yn dilyn ymrwymiad i "ymgysylltu â sector y celfyddydau, y sector diwylliant a'r sector treftadaeth i ddatblygu strategaeth ddiwylliant newydd." Gallai'r ddogfen hon fod wedi darparu map ar gyfer mynd i'r afael â'r nifer o heriau sy'n wynebu'r sector.

Yn hytrach, mae'n gyfres o ddatganiadau o fwriad eang (e.e. "mae diwylliant yn gynhwysol, yn hygyrch ac yn amrywiol") yn hytrach nag ymrwymiadau pendant o'r hyn y bydd Llywodraeth Cymru yn ei wneud. Mae cyfeiriadau at ergydion strwythurol megis y pandemig, Brexit, yr argyfwng costau byw a thoriadau cyllido hirdymor yn amlwg absennol.

**Yng ngeiriau Pwyllgor Diwylliant y Senedd flaenorol**, nid yw'r ddogfen hon yn "cynnwys dadansoddiad o'r heriau sy'n wynebu'r sector, na rhaglen ystyrlon ar gyfer mynd i'r afael â nhw".

Wrth gael ei holi am ei gynlluniau hirdymor o ran cyllid ar gyfer diwylliant, **dywedodd y Gweinidog ar y pryd, Jack Sargeant AS**, ym mis Mai 2025, "dydw i ddim mewn sefyllfa i gyhoeddi cyllidebau yn y dyfodol". Mae Llywodraeth yr Alban wedi mabwysiadu dull gwahanol, **gan amlinellu llwybr yn 2024 i fuddsoddi o leiaf £100 miliwn yn fwy bob blwyddyn mewn diwylliant erbyn 2028-29**.

## Pennod newydd?

Yr ymyrraeth fawr ddiwethaf gan lywodraeth yn niwylliant Cymru oedd adeiladu Canolfan Mileniwm Cymru, mewn ton o brosiectau ôl-ddatganoli ar ddechrau'r ganrif hon. Ers hynny, dull Llywodraeth Cymru o ymdrin â'r sector, i raddau helaeth, fu ariannu'r strwythurau a etifeddodd – megis Cyngor y Celfyddydau ac Amgueddfa Cymru – o'r cyfnod cyn datganoli.

Dywedodd Llywodraeth flaenorol Cymru y byddai'n **sefydlu Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol**. Nid oes gan Gymru oriel genedlaethol benodol ar gyfer celf gyfoes, nac ychwaith celf Cymru.

Yn y diwedd, fodd bynnag, roedd hon yn gyfres o uwchraddio orielau presennol, gyda chostau cyfalaf o lai na chwarter y **£35m a ragwelwyd**, yn adlewyrchu'r hyn y galwodd **Llywodraeth Cymru** yn "fodel gweithredu darbodus". Ni wnaeth y Gweinidog diwylliant blaenorol ymrwymo i ddarparu cyllid refeniw parhaus. Yn lle hynny, roedd yn **disgwyl i'r sector ei hun ddod o hyd i'r amcangyfrif o £400,000 y flwyddyn**. Fel cyd-destun, fe wnaeth amgueddfa ddylunio'r Alban, V&A Dundee – a agorodd yn 2018 – **gostio £80m i'w hadeiladu**, ac mae'n cael **£3.8m y flwyddyn gan Lywodraeth yr Alban**.

A fydd Llywodraeth newydd Cymru yn ysgrifennu pennod newydd yn stori diwylliant Cymru?

### Ffynonellau allweddol

- Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol y Chweched Senedd, **Degawd o doriadau: effaith gostyngiadau cyllid ar ddiwylliant a chwaraeon** (2025)
- Ymchwil y Senedd, **Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer diwylliant: Pryd nad yw strategaeth yn strategaeth?** (2025)
- Llywodraeth Cymru, **Blaenoriaethau ar gyfer Diwylliant** (2025)

**Erthygl gan Robin Wilkinson, Ymchwil y Senedd, Senedd Cymru**





# Llwybr at filiwn o siaradwyr Cymraeg: rôl yr ystafell ddosbarth

**Fe wnaeth prif bolisi iaith Gymraeg y Llywodraeth flaenorol, 'Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr Cymraeg', weddnewid y dull o gynllunio a llunio polisi iaith yng Nghymru, gan osod targed a llwybr i wyrdroi canrif o ddirywiad o ran y Gymraeg. Bydd y system addysg yn gwbl allweddol os yw'r uchelgais hwn am gael ei wireddu.**

Cafodd **Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025** ('Deddf 2025') ei phasio'n unfrydol gan y Senedd ym mis Mai 2025. Ei nod yw ategu **Cymraeg 2050** drwy wella sgiliau Cymraeg disgyblion ysgol.

Nod Llywodraeth flaenorol Cymru, fel sy'n cael ei weld yn y **nodau a gafodd eu gosod gan Ddeddf 2025** ar gyfer ysgolion, oedd i bob disgybl ddod yn siaradwyr Cymraeg 'sylfaenol' o leiaf erbyn diwedd addysg orfodol. Y **bwriad oedd uwchraddio'r** nod isaf hwnnw i siaradwyr Cymraeg 'annibynnol' yn y dyfodol. Bydd gweithredu Deddf 2025 yn dasg sylweddol i Lywodraeth newydd Cymru, os bydd yn dewis gwneud hynny. Os bydd yn gwneud hynny, bydd angen buddsoddiad, cynllunio a chefnogaeth i awdurdodau lleol, ysgolion ac athrawon.

## Gweithredu Deddf 2025 yng nghanol heriau yn y sector addysg

Mae sawl her yn wynebu'r Llywodraeth newydd yng Nghymru a'i phartneriaid sy'n gyfrifol am gyflawni nodau Deddf 2025. Fel **y cafodd ei nodi yn ystod y broses graffu ar y ddeddfwriaeth**, y brif her ymhlith y rhain yw adeiladu gweithlu addysgu dwyieithog sy'n ddigon cryf i gefnogi pob disgybl i ddod yn siaradwyr Cymraeg sylfaenol o leiaf, ac o bosibl yn siaradwyr annibynnol.

Ond mae gweithredu Deddf 2025 yn digwydd yn erbyn cefndir o bwysau ariannol a phwysau llwyth gwaith sylweddol yn y sector addysg.

Fel y gwnaeth Lynne Neagle AS, **cyn-Ysgrifennydd Cabinet dros Addysg Llywodraeth Cymru** gydnabod, mae disgwyl llawer gan ysgolion. Maent wedi

bod yn **gweithredu diwygiadau mawr** i'r cwricwlwm a'r system anghenion dysgu ychwanegol, gyda'r dasg o **wella safonau** yng nghanol **newidiadau i wasanaethau gwella ysgolion**, ac yn **adfer ar ôl pandemig COVID-19**. A hyn oll ar adeg pan fo **cyllidebau ysgolion** wedi'u hymestyn yn ogystal â heriau mawr o ran **recriwtio a chadw athrawon**.

Mae ysgolion hefyd yn delio â'r **effaith ffactorau cymdeithasol ehangach**, gan gefnogi disgyblion gyda'u **hiechyd meddwl a'u llesiant**, mynd i'r afael ag **ymddygiad sy'n gwaethygu**, a **chyfraddau presenoldeb** sy'n parhau i fod yn is na'r lefelau cyn y pandemig.

## Mae'r ymdrech i gynyddu nifer yr athrawon sy'n gallu addysgu drwy'r Gymraeg yn dechrau methu

**Mae data cyfrifiad y gweithlu ysgolion** yn dangos, ym mis Tachwedd 2024, fod 39% o athrawon wedi nodi bod ganddynt sgiliau Cymraeg lefel ganolradd neu uwch, tra bod dim ond chwarter ohonynt yn addysgu'r Gymraeg neu drwy gyfrwng y Gymraeg ar y pryd. Mae'r ffigur hwnnw'n disgyn yn sylweddol ymhlith staff cymorth addysgu, gyda dim ond tua 1 o bob 5 (21%) â sgiliau canolradd neu uwch.

Mae Cymraeg 2050 yn gosod targedau heriol i gynyddu nifer yr athrawon cynradd ac uwchradd sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Ond mae **ffigurau diweddaraf Llywodraeth Cymru** yn awgrymu tuedd ar i lawr yn nifer yr athrawon sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Os yw amcanion Cymraeg 2050 a Deddf 2025 i gael eu gwireddu, mae gwrthdroi'r duedd hon yn hollbwysig. Fel y **dywedodd Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Chweched Senedd** ar y pryd, "mae'n gwbl amlwg fod llwyddiant y Bil yn dibynnu ar sicrhau'r gweithlu addysg i'w gyflawni".

Dwy agwedd ar Ddeddf 2025 sy'n allweddol i yrru'r newid yw:

- fframwaith cenedlaethol statudol a fydd yn gyswllt rhwng cynllunio a darparu addysg Gymraeg a dysgu'r Gymraeg ar lefel genedlaethol, lefel leol a lefel ysgol; a
- sefydlu'r Athrofa Dysgu Cymraeg Cenedlaethol (yr Athrofa), a fydd â chyfrifoldeb sylweddol dros gynllunio datblygiad y gweithlu addysg er mwyn gwella dulliau addysgu'r Gymraeg.

## Cynlluniau gweithlu yn ceisio hybu addysgu drwy'r Gymraeg

Yn 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei **chynllun gweithlu Cymraeg mewn addysg** 10 mlynedd. Ei nod yw cefnogi gwaith cyflawni Cymraeg 2050 drwy gynyddu nifer yr athrawon sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd hefyd yn anelu at ddatblygu "sgiliau Cymraeg ac arbenigedd pob ymarferydd".

Yn ogystal â'r cynllun 10 mlynedd, cyflwynodd Llywodraeth flaenorol Cymru yn ddiweddar **Gynllun Strategol y Gweithlu Addysg**. Cafodd ei ddatblygu'n rhannol mewn ymateb i **waith craffu y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg flaenorol ar Fil y Gymraeg ac Addysg** ac **ymchwiliad i recriwtio a chadw athrawon**. Bydd yn cefnogi'r gwaith o gyflawni cynllun 10 mlynedd y gweithlu Cymraeg mewn addysg a gwaith yr Athrofa Genedlaethol newydd. Mae'r Cynllun yn nodi camau gweithredu i'w cymryd gyda phartneriaid er mwyn "cefnogi datblygiad parhaus ein hysgolion" a'r bobl sy'n gweithio ynddynt.

Nod y Cynllun Strategol ar gyfer y Gweithlu Addysg yw datblygu a chyflawni'r canlynol o fewn yr un i ddwy flynedd nesaf:


- datblygu rhaglen dysgu proffesiynol genedlaethol i ddatblygu dulliau effeithiol o addysgu a dysgu Cymraeg a phynciau eraill drwy gyfrwng y Gymraeg;
- adolygu cynllun y gweithlu Cymraeg mewn addysg i sicrhau y gellir cyflawni'r targedau a fydd yn cael eu gosod ar awdurdodau lleol drwy'r Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg Cymraeg a Dysgu Cymraeg;
- adolygu effeithiolrwydd a gwerth am arian cymhellion hyfforddi athrawon Cymraeg mewn addysg a'r cynllun peilot sy'n cynnig bwrsariaethau i aros yn y proffesiwn; a
- datblygu modelau cynllunio gweithlu lleol a rhanbarthol i ystyried newidiadau mewn demograffeg, y cynnydd arfaethedig mewn addysg cyfrwng Cymraeg, a ffactorau lleol eraill er mwyn llywio'r gwaith o gynllunio'r gweithlu cenedlaethol.

Mae gan gynnydd wrth gyflawni'r cynlluniau hynny y potensial nid yn unig i ddatblygu addysgu a dysgu Cymraeg yn effeithiol, ond gallai hefyd gynorthwyo cynnydd ysgolion ar hyd y continwwm iaith wrth i'r capasiti gynyddu.

## Ehangu addysg cyfrwng Cymraeg a nifer y disgyblion sy'n dysgu drwy'r Gymraeg


Mae **cydnabyddiaeth eang** bod ehangu addysg cyfrwng Cymraeg (yn ogystal â throsglwyddo'r iaith yn y cartref) yn rhan annatod o greu siaradwyr Cymraeg rhugl. Yn ôl ffigurau **2024/25**, mae 29% o ysgolion yng Nghymru **wedi'u categoreiddio** fel ysgolion cyfrwng Cymraeg, a 5% arall fel ysgolion dwyieithog (Saesneg a Chymraeg). Mae 21% o ddisgyblion yn mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg a 5% o ddisgyblion yn mynychu ysgolion dwyieithog.

**Ffigur 1: Cyfran yr ysgolion a gynhelir (ac eithrio ysgolion arbennig) yn ôl categori iaith (Ionawr 2025)**




▸ **Ffynhonnell:** Llywodraeth Cymru, **Canlyniadau cyfrifiad ysgolion: Ionawr 2025**, Tabl 2, Gorffennaf 2025

**Ffigur 2: Cyfran y disgyblion sy'n mynychu ysgolion a gynhelir (ac eithrio ysgolion arbennig) yn ôl categori iaith (Ionawr 2025)**





▸ **Ffynhonnell:** Llywodraeth Cymru, **Canlyniadau cyfrifiad ysgolion: Ionawr 2025**, Tabl 2, Gorffennaf 2025

Yn 2021, **dywedodd Llywodraeth Cymru** fod 8 awdurdod lleol wedi ymrwymo i symud hyd at 42 o ysgolion ar hyd y continwwm iaith, er enghraifft, drwy newid categori iaith ysgol o fod yn ysgol ddwyieithog i fod yn ysgol gyfrwng Cymraeg. Er hynny, ers 2022, dim ond 8 ysgol sydd wedi bod yn destun ymgynghoriad i newid eu categori iaith ledled Cymru, ac nid oes llawer o dystiolaeth fod nifer o ysgolion wedi symud ar hyd y llwybr hwnnw yn ystod y cyfnod yma.

Gosododd **Cymraeg 2050** dargedau i gynyddu'r gyfran o ddisgyblion sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg i 30% erbyn 2031 ac i 40% erbyn 2050. Mae hyn yn seiliedig ar linell sylfaen o 22% o ddisgyblion Blwyddyn 2 (6 oed ar ddechrau'r flwyddyn) a oedd yn derbyn addysg cyfrwng Cymraeg yn 2015/16. Mae Ffigur 3 yn dangos pa mor bell sydd i fynd.

**Ffigur 3: Cyfran y disgyblion sy'n dysgu Cymraeg fel iaith gyntaf**




▸ **Ffynhonnell:** Llywodraeth Cymru (StatsCymru), **Disgyblion a addysgir y Gymraeg fel iaith gyntaf fesul awdurdod lleol, grŵp blwyddyn a blwyddyn**

Mae Deddf 2025 yn ceisio newid y patrwm hwn drwy newid y ffordd y mae ysgolion yn cael eu categoreiddio a faint o Gymraeg sy'n cael ei haddysgu. Nod y newidiadau hyn yw sicrhau bod pob plentyn yng Nghymru yn dod yn siaradwr Cymraeg sylfaenol i ddechrau, ac yn siaradwr annibynnol yn y dyfodol, erbyn cyrraedd 16 oed. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion gael 'Cynllun Cyflawni Addysg Gymraeg', a darparu rhywfaint o addysg Gymraeg yn ôl gofynion eu categori penodol. Bydd y lefelau hyn yn cael eu nodi mewn rheoliadau yn y dyfodol. Mae'r Ddeddf yn nodi, yn achos ysgol 'Prif iaith – Saesneg, rhannol Gymraeg', na ddylai'r ddarpariaeth Gymraeg fod yn llai na 10% o amser y cwricwlwm.

## A fydd y buddsoddiad yn cyd-fynd â'r uchelgais?

Derbyniodd strategaeth Cymraeg 2050 a Deddf 2025 gefnogaeth drawsbleidiol yn ystod y Senedd ddiwethaf - uchelgais gyffredin i gynyddu'r defnydd o'r iaith. Ond a oes modd cynnal consensws o'r fath yn y Seithfed Senedd?

Bydd y ffordd orau o sicrhau dyfodol yr iaith yn fater sy'n cael ei drafod ymhell i'r dyfodol, ond fel y nododd y **Comisiwn Cymunedau Cymraeg yn ei adroddiad**

**diweddar**, mae ffyniant yr iaith yn "dibynnu ar greu'r amodau lle gall pobl ei defnyddio'n rhwydd fel rhan o fywyd bob dydd".

Mae **Maniffesto 2026 Comisiynydd y Gymraeg** yn nodi y gallai fod angen i Lywodraeth nesaf Cymru ystyried a yw'r lefel bresennol o fuddsoddiad yn debygol o newid trywydd yr iaith. Mae'r Comisiynydd yn honni na ellir disgwyl y bydd "parhau i fuddsoddi a gweithredu yn yr un modd ag y gwnaed yn ystod y degawdau diwethaf rywsut yn arwain at ganlyniadau gwahanol". Mae llawer, felly, i'r Llywodraeth newydd ei ystyried os yw am gyflawni'r newid sylweddol a ragwelir gan Cymraeg 2050.

### Ffynonellau allweddol

- Comisiwn Cymunedau Cymraeg, **Grymuso cymunedau, cryfhau'r Gymraeg (Adroddiad Cam Cyntaf))** (2024)
- Comisiwn Cymunedau Cymraeg, **Adroddiad yr Ail Gam** (2026)
- Ymchwil y Senedd, **Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru): tudalen adnoddau** (2025)
- Ymchwil y Senedd, **Cymraeg i bawb? Creu cyfleoedd ystyrlon i ddefnyddio'r Gymraeg** (2026)
- Llywodraeth Cymru, **Cymraeg 2050: adroddiadau blynyddol** (2026)
- Comisiynydd y Gymraeg, **Adroddiad 5 mlynedd ar sefyllfa'r Gymraeg** (2026)

**Erthygl gan Osian Bowyer a Michael Dauncey, Ymchwil y Senedd, Senedd Cymru**


JUST EAT
Spice
KV14 AHE
Georgio's
HUFEN IÂ
ICE CREAM

# Cymunedau




769007
Danger
PRIVATE
NO PASSENGER ACCESS
TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES
Cymru a'r Gororau
Wales and Borders

# A all Cymru integreiddio trafnidiaeth gyhoeddus o'r diwedd?

## Gyda diwygiadau allweddol yn cael eu gweithredu yng Nghymru a San Steffan, bydd sicrhau bod bysiau, trenau a chynlluniau trafnidiaeth lleol yn gweithio gyda'i gilydd yn her ddiffiniol ar gyfer darparu system drafnidiaeth fodern a dibynadwy yng Nghymru.

Mae integreiddio trafnidiaeth gyhoeddus wedi bod yn **ffocws i waith craffu'r Senedd** ers blynyddoedd, ac mae'r manteision **yn cael eu cydnabod yn eang**. Fodd bynnag, mae integreiddio drwy amserlenni cydgysylltiedig, gwybodaeth glir, seilwaith cysylltiedig, prisiau a thocynnau, wedi profi'n heriol.

Roedd Papur Gwyn Llywodraeth flaenorol Cymru, **Un rhwydwaith, un amserlen, un tocyn: cynllunio bysiau fel gwasanaeth cyhoeddus i Gymru**, yn amlinellu gweledigaeth ar gyfer system fysiau o fewn rhwydwaith trafnidiaeth integredig.

Gyda **Deddf Gwasanaethau Bysiau (Cymru) 2026** bellach wedi'i phasio gan y Senedd, a **Bil Rheilffyrdd** wedi'i gyflwyno yn San Steffan, mae'r blynyddoedd nesaf yn cyflwyno cyfleoedd a risgiau ar y llwybr i ddarparu rhwydwaith integredig.

### Beth sydd wedi'i ddatganoli?

Mae llawer o bwerau trafnidiaeth allweddol **wedi'u datganoli**, ond mae meysydd arwyddocaol yn parhau i fod wedi'u cadw'n ôl, sy'n cymhlethu integreiddio.


Llywodraeth Cymru sy'n rheoli Gwasanaethau Rheilffordd Cymru a'r Gororau sy'n cael ei weithredu gan TrC Trenau drwy **Trafnidiaeth Cymru**, ac mae'n berchen ar **Linellau Craidd y Cymoedd**. Ac eto, mae'r system reilffyrdd gyfan wedi'i chadw'n ôl, gyda'r rhan fwyaf o'r seilwaith yn gyfrifoldeb i Network Rail ac yn cael ei reoli o San Steffan. Gall Cymru fuddsoddi mewn rheilffyrdd ond nid yw'n derbyn grant bloc pwrpasol.

Mae rheoleiddio gwasanaethau bysiau a thrwyddedu tacsis/cerbydau llogi preifat wedi'i ddatganoli, fel y mae llawer o gyfrifoldebau priffyrdd, tra bod trwyddedu gweithredwyr bysiau, yn ogystal â materion fel hyfforddi gyrwyr, safonau cerbydau a throseddau cysylltiedig yn parhau i fod yn faterion sydd wedi'u cadw'n ôl.

## Diwygio bysiau

Mae nifer y teithwyr bysiau ledled Prydain Fawr wedi bod yn gostwng ers dau ddegawd, ond mae Cymru wedi cofnodi llai o deithiau fesul pen yn gyson o gymharu â mannau eraill, ac wedi bod yn arafach i wella ar ôl y pandemig.


**Ffigur 1: Nifer y teithiau gan ddefnyddwyr bysiau fesul pen o'r boblogaeth**




*Noder: Mae ffigur y teithiau'n ymwneud â phob taith bws, gan gynnwys gan bobl nad ydynt yn drigolion. Mae ffigurau poblogaeth ar gyfer trigolion yn unig fel ym mis Mehefin.*

▸ **Ffynhonnell:** Dadansoddiad Ymchwil y Senedd o ddata'r Adran Drafnidiaeth, **Teithiau teithwyr bws lleol**

**Ffigur 2: Pellter a deithiwyd gan gerbydau bws (milltiroedd)**




▸ **Ffynhonnell:** Dadansoddiad Ymchwil y Senedd o ddata'r Adran Drafnidiaeth, **Pellter a deithiwyd gan gerbyd bws lleol**

Mae'r rhesymau dros y dirywiad **yn gymhleth**. Fodd bynnag, mae'r farchnad bysiau wedi'i dadreoleiddio y tu allan i Lundain yn cael ei hystyried yn eang fel

rhwystr i integreiddio: gall gweithredwyr gofrestru neu dynnu gwasanaethau'n ôl ar fyr rybudd ac mae **cyfraith cystadleuaeth** yn cyfyngu ar gydgysylltu amserlenni, prisiau a thocynnau gan weithredwyr.

Ledled Prydain Fawr, mae symudiadau wedi bod tuag at ail-reoleiddio. Mae **Lloegr** a'r **Alban** wedi deddfu i alluogi llywodraeth leol i gymryd mwy o ran mewn cynllunio gwasanaethau, gan gynnwys drwy fasnachfreinio. **Manceinion Fwyaf** yw'r rhanbarth cyntaf bellach (y tu allan i Lundain) i weithredu masnachfreinio ar raddfa fawr.

Mae Deddf 2026 yn mabwysiadu dull mwy sylfaenol yng Nghymru, gan drosglwyddo cyfrifoldeb dros gynllunio gwasanaethau bysiau o awdurdodau lleol i Lywodraeth Cymru, i'w darparu drwy Trafnidiaeth Cymru, a gwneud masnachfreinio'n ddiofyn ledled y wlad.

Mae gweithredu'r system hon yn dasg fawr. Mae **Trafnidiaeth Cymru yn bwriadu** cyflwyno masnachfreinio mewn pedwar cam rhanbarthol erbyn 2030. Roedd **gwaith craffu yn y Senedd** yn amlygu risgiau, gan gynnwys pwysau ariannu, dibyniaeth Cymru ar weithredwyr bach a chanolig (y mae llawer ohonynt yn darparu gwasanaethau teithio i ddysgwyr), a'r **buddsoddiad sylweddol sydd ei angen** mewn fflyd newydd.


Mae profiad ym Manceinion - lle mae, er enghraifft, busnesau bach a chanolig **wedi cael trafferth sicrhau contractau masnachfraint** - yn dangos yr heriau sydd o'n blaenau, gan wneud ymgysylltiad Trafnidiaeth Cymru â busnesau bach a chanolig yn arbennig o bwysig.

**Beth yw masnachfreinio?**

Bydd masnachfreinio yn gweld gweithredwyr yn gwneud cynnig am gontractau i ddarparu gwasanaethau bysiau ar fwndeli o lwybrau a nodir gan Lywodraeth Cymru a Trafnidiaeth Cymru.

Mae **amryw o opsiynau contract**. **Cynigiodd** Llywodraeth ddiwethaf Cymru fodel 'cost gros', lle byddai'n derbyn refeniw tocynnau ac yn talu ffi i weithredwyr ynghyd â chymhellion ariannol.

### Ffigur 3: Gweithredu masnachfraint bysiau yng Nghymru yn ôl ardal





▸ **Ffynhonnell:** Trafnidiaeth Cymru/Llywodraeth Cymru - **Diwygio bysiau i Gymru: ein map ffordd i fasnachfreinio**

## Trenau

Ychydig dros 30 mlynedd ar ôl **preifateiddio**, mae gwasanaethau rheilffyrdd ym Mhrydain Fawr yn cael eu diwygio'n sylweddol unwaith eto.

Mae rheilffyrdd Cymru eisoes wedi profi newid sylweddol. Cafodd y **fasnachfraint Cymru a'r Gororau gyntaf a gafodd ei gaffael yng Nghymru** ei ddyfarnu yn 2018, **gydag ymrwymiadau buddsoddi mawr**, gan gynnwys moderneiddio Llinellau Craidd y Cymoedd yn dilyn eu **trosglwyddo i Lywodraeth Cymru**. Cafodd gwasanaethau TrC Trenau **eu gwladoli** yn 2021. Mae **buddsoddiad o £800 miliwn** yn moderneiddio cerbydau (trenau) Cymru a'r Gororau, er bod targed Llywodraeth flaenorol Cymru **ar gyfer gwneud 95% o deithiau** ar drenau newydd **wedi cael ei ohirio**.


**Ffigur 4: Oedran cyfartalog cerbydau rheilffyrdd ar wasanaethau teithwyr rheilffordd**




▸ **Ffynhonnell:** Dadansoddiad Ymchwil y Senedd o ddata'r Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd, **Oedran cyfartalog cerbydau yn ôl gweithredwr**

Mae gwasanaethau TrC Trenau wedi gweld adferiad yn nifer y teithwyr a'r refeniw ers y pandemig. Fodd bynnag, mae perfformiad wedi bod yn gymysg, **gyda heriau'n gysylltiedig** â chyflwyno cerbydau newydd, moderneiddio Llinellau Craidd y Cymoedd a hen seilwaith Network Rail. Mae gwasanaethau wedi perfformio'n well ar Linellau Craidd y Cymoedd, sy'n eiddo i Lywodraeth Cymru, na'r rhwydwaith ehangach heb ei ddatganoli.


### Ffigur 5: Teithwyr rheilffordd a gludwyd a refeniw gwerthu tocynnau




Noder: Mae 13 'cyfnod rheilffyrdd' ym mhob blwyddyn ariannol. Mae'r rhain i gyd yn 28 diwrnod ac eithrio cyfnod 1 (sy'n dechrau ar 1 Ebrill) a chyfnod 13 (sy'n dod i ben ar 31 Mawrth).

▸ **Ffynhonnell:** Dadansoddiad Ymchwil y Senedd o **ddata perfformiad** Trafnidiaeth Cymru


### Ffigur 6: Canran y gwasanaethau teithwyr rheilffyrdd sy'n cyrraedd o fewn 3 munud i'r amser cyrraedd a drefnwyd




Noder: yr amser i 3 yw canran yr arosfannau gorsaf a gofnodwyd a gyrhaeddwyd yn gynnar neu lai na thair munud ar ôl yr amser a drefnwyd.

▸ **Ffynhonnell:** Dadansoddiad Ymchwil y Senedd o ddata'r Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd, **Prydlondeb trenau mewn arosfannau gorsaf wedi'u cofnodi gan y gweithredwr**

### Ffigur 7: Sgôr canslo wedi'i haddasu – gwasanaethau teithwyr rheilffordd




*Noder: Mae'r Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd yn cyhoeddi 'sgôr canslo wedi'i haddasu' fel y dangosir yn y siart. Mae hyn yn cyfuno nifer y trenau a ganslwyd ymlaen llaw â nifer y cansladau 'ar y diwrnod'.*

▸ **Ffynhonnell:** Dadansoddiad Ymchwil y Senedd o ddata'r Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd, **Canslo yn ôl gweithredwr a chod-p**

Yn dilyn **deddfwriaeth i ail-wladoli pob gwasanaeth rheilffordd** yn 2024, cafodd **Bil Rheilffyrdd** ei gyflwyno i Senedd y DU yn 2025 i greu Great British Railways (GBR), gan wladoli ac **integreiddio** gwasanaethau teithwyr Lloegr yn fertigol gyda seilwaith. Bydd gwasanaethau TrC Trenau yn parhau i fod dan reolaeth Llywodraeth Cymru.

Mae gwaith craffu y Senedd wedi **amlygu risgiau i Gymru**, yn enwedig y diffyg gorfodi statudol ar gyfer y **Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth** rhwng y ddwy lywodraeth, sy'n hanfodol ar gyfer sicrhau dylanwad Cymru a mynediad teg i'r rhwydwaith a reolir gan GBR.

Mae'r cytundeb partneriaeth arfaethedig rhwng Trafnidiaeth Cymru a GBR yn anstatudol, fel y mae **Bwrdd Rheilffyrdd Cymru** sydd wedi datblygu **cyfres o brosiectau rheilffordd mawr**, a bydd yn allweddol i'w blaenoriaethu. Tra bod **Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi** £14 biliwn ar gyfer seilwaith rheilffyrdd Cymru dros y 15–20 mlynedd nesaf, mae gwydnwch yr ymrwymiadau hyn ar draws llywodraethau'r dyfodol yn parhau i fod yn ansicr.

## Bydd blaenoriaethau trafnidiaeth lleol a rhanbarthol yn allweddol


Er bod Deddf 2026 yn trosglwyddo cyfrifoldeb dros gynllunio a darparu gwasanaethau bysiau lleol o lywodraeth leol i Lywodraeth Cymru, bydd awdurdodau lleol yn parhau i chwarae rhan hanfodol. Byddant yn parhau i fod yn gyfrifol am faterion allweddol fel priffyrdd lleol, teithio dysgwyr, a'r rhan fwyaf o seilwaith bysiau.

Bydd cyflwyno'r **Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol** newydd, wedi'u cynhyrchu gan **Gyd-bwyllgorau Corfforedig**, yn ganolog. Cefnogir y rhain gan y **Gronfa Trafnidiaeth Ranbarthol** newydd, sydd am y tro cyntaf yn 2026-27 yn dwyn ynghyd nifer o grantiau blaenorol Llywodraeth Cymru, sydd wedi'u datganoli i lywodraeth leol, i gefnogi'r rhaglen ranbarthol.

Bydd mynd i'r afael â thagfeydd traffig, sy'n **effeithio ar ba mor ymarferol yn economaidd** yw gwasanaethau bysiau, yn her fawr. **Mae Deddf 2026 yn ei gwneud yn ofynnol** i Lywodraeth Cymru gael gwared ar rwystrau sy'n atal pobl rhag defnyddio bysiau. Mae Llywodraeth flaenorol Cymru **wedi ymrwymo** i alinio canllawiau'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol â chynlluniau rhwydwaith bysiau statudol.

Gyda bwlch mwy rhwng costau gweithredu a refeniw ar gyfer gwasanaethau bysiau yng Nghymru nag yn yr Alban a Lloegr, nid yw'n syndod bod **y diwydiant bysiau yng Nghymru** yn ystyried bod mynd i'r afael â thagfeydd yn rhywbeth sy'n hanfodol i lwyddiant.

**Ffigur 8: Incwm fesul taith defnyddiwr bysiau wedi'i addasu ar gyfer chwyddiant**




▸ **Ffynhonnell:** Dadansoddiad Ymchwil y Senedd o ddata'r Adran Drafnidiaeth, **Costau, tocynnau a refeniw**

## Trafnidiaeth integredig

Mae Trafnidiaeth Cymru wedi gwneud cynnydd o ran integreiddio a symleiddio'r defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus, er enghraifft cyflwyno tocynnau **Talu Wrth Fynd** ar Linellau Craidd y Cymoedd - y defnydd cyntaf o'r dechnoleg hon y tu allan i Lundain, ac yn fuan caiff ei **ymestyn i ogledd-ddwyrain Cymru** - yn ogystal â **thocynnau cyfuno bysiau a threnau** mewn rhai ardaloedd.

Fodd bynnag, hyd yn oed gyda'r trefniadau statudol newydd ar gyfer bysiau a threnau, mae'r heriau technegol yn parhau i fod yn sylweddol, yn enwedig dylunio systemau gwybodaeth, prisiau a thocynnau effeithiol a sicrhau bod y seilwaith a'r rhwydweithiau'n bodloni anghenion y cyhoedd.

Mae'r **tair system 'Metro'** sydd wedi'u cynllunio ledled Cymru yn ganolog i'r nod hwn. Metro De-ddwyrain Cymru yw'r mwyaf datblygedig, gyda **gwasanaethau rheilffordd Llinellau Craidd y Cymoedd wedi'u moderneiddio wedi'u cwblhau** ym mis Mawrth. Mae **Rhwydwaith Gogledd Cymru** a **Metro Bae Abertawe a Gorllewin Cymru** yn llai datblygedig. Mae Trafnidiaeth Cymru hefyd yn datblygu'r **'Rhwydwaith T'**, sy'n canolbwyntio ar y newidiadau llywodraethu sefydliadol a diwylliant sydd eu hangen i gyflawni integreiddio.

Bydd dyheadau ar gyfer trafnidiaeth integredig gynaliadwy hefyd yn gofyn am welliannau mewn meysydd fel teithio llesol, **lle mae cynnydd wedi cael ei ystyried yn siomedig**. Ni ddatblygodd yr hyn a addawodd Llywodraeth ddiwethaf Cymru o ran **diwygio prosesau rheoleiddio tacsis a cherbydau llogi preifat**, gyda'r Bil **wedi'i dynnu'n ôl** o'r rhaglen ddeddfwriaethol yn 2024.

Os caiff ei wireddu, disgwylir i system drafnidiaeth gyhoeddus integredig ddod â manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol sylweddol i Gymru. Fodd bynnag, bydd llwyddiant yn dibynnu ar gyflawni deddfwriaeth yn effeithiol, partneriaethau cryf a buddsoddiad parhaus.

### Ffynonellau allweddol

- Ymchwil y Senedd, **Mae gen i docyn, tocyn... Cymru, San Steffan a'r Bil Rheilffyrdd** (2026)
- Trafnidiaeth Cymru, **Heddiw, Yfory, Gyda'n Gilydd: Gweledigaeth ar gyfer rhwydwaith trafnidiaeth wedi'i drawsnewid ar gyfer Gogledd Cymru** (2026)
- Llywodraeth y DU, **Taflen ffeithiau'r Bil Rheilffyrdd: llywodraeth**

**ddatganoledig a llywodraeth leol** (2025)

- Llywodraeth Cymru, **Un rhwydwaith, un amserlen, un tocyn: cynllunio bysiau fel gwasanaeth cyhoeddus i Gymru** (2022)
- Llywodraeth Cymru, **Ein map ffordd i fasnachfreinio** (2025)

**Erthygl gan Andrew Minnis a Francesca Howorth, Ymchwil y Senedd, Senedd Cymru**



up to every 10 mins between Glynhafod, Aberdare &
Stagecoach
9
up to
every 10
Aberdare
CYCLISTS
PASS WITH CARE
stagecoachbus
EMERGENCY EXIT
7 8 9
Aberdare



# Digartrefedd a'r argyfwng tai: atebion newydd i heriau hirsefydlog?

## A fydd deddfwriaeth newydd – ynghyd â rhaglen uchelgeisiol i adeiladu tai cymdeithasol – yn llwyddo i roi terfyn ar ddigartrefedd?

Mae'n ymddangos nad oes unrhyw un yn anghytuno bod Cymru yng nghanol **argyfwng tai**: mae **rhenti yn cynyddu;** mae **rhestrau aros ar gyfer tai cymdeithasol yn tyfu**; ac yn bwysicaf oll, efallai, mae lefelau o ddigartrefedd yn uchel.

Arhosodd y niferoedd sy'n preswylio mewn llety dros dro **yn gyson** dros dymor diwethaf y Senedd, ac roedd **mwy na 10,600 o bobl – gan gynnwys tua 2,300 o blant** – yn y sefyllfa hon ym mis Ionawr 2026.

Mae byw am fisoedd mewn llety dros dro yn anodd i unrhyw un, ond mae'n **arbennig o anodd i blant**. Ac mae'r swm o arian y mae awdurdodau lleol yn ei wario ar ddarparu'r llety hwn yn parhau i gynyddu, gyda **mwy na £100 miliwn yn cael ei wario y llynedd**.

Mae digartrefedd wedi bod yn agos at frig yr agenda wleidyddol **ers cyn pandemig COVID-19**. Yn rhannol oherwydd **llwyddiant yr ymdrechion a wnaed i gartrefu pobl ddigartref** yn ystod y pandemig, mae'r rhethreg wedi symud o "reoli digartrefedd" i "roi terfyn ar ddigartrefedd".

Yn ymarferol mae hyn yn golygu sicrhau bod digartrefedd **yn beth prin a byrhoedlog** nad yw'n ailddigwydd. Mae darn newydd o ddeddfwriaeth, sef **Deddf Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru) 2026**, yn sail i'r nod hwn.

Cafodd y Ddeddf ei phasio ychydig cyn diwedd y Chweched Senedd, ac mae'n rhwymo awdurdodau lleol ac ystod o gyrff cyhoeddus eraill i gynyddu eu hymyriadau ym maes digartrefedd dros gyfnod y Seithfed Senedd.

Roedd ymdrechion hefyd i gynyddu'r cyflenwad o dai cymdeithasol a fforddiadwy, gan gynnwys **buddsoddiad cyfalaf gwerth tua £2 biliwn** dros dymor diwethaf y Senedd, a **rhaglen waith barhaus** i weithredu argymhellion

ar gyfer dileu'r rhwystrau i'r broses o gyflenwi tai.

**Beth yw digartrefedd?**

Mae digartrefedd yn broblem ehangach na chysgu ar y stryd, sef **y ffurf fwyaf gweladwy ohoni**. Mae'r **diffiniad cyfreithiol o ddigartrefedd yn cynnwys**:

- pobl sy'n byw mewn llety dros dro;
- pobl sy'n byw mewn llety sydd mor anaddas fel eu bod yn cael eu hystyried yn ddigartref yn gyfreithiol; a
- phobl sydd mewn perygl o fod yn ddigartref yn y dyfodol agos.

## Goblygiadau'r Ddeddf newydd


Rhan fawr o gynllun Llywodraeth flaenorol Cymru i roi terfyn ar ddigartrefedd yw **dull gweithredu newydd o'r enw "ailgartrefu cyflym"**.

Mae ailgartrefu cyflym yn golygu symud pobl drwy'r system ddigartrefedd ac i mewn i gartrefi sefydlog cyn gynted ag y bo modd, fel eu bod yn treulio'r cyfnod lleiaf o amser posibl, os o gwbl, mewn llety dros dro.

Mae awdurdodau lleol wedi **llunio cynlluniau pontio ailgartrefu cyflym**. Fodd bynnag, er iddynt **lwyddo i symud 9,096 o bobl** o lety dros dro i gartref sefydlog yn ystod 2025, dyw'r ymdrechion hyn heb gael fawr o effaith ar y niferoedd cyffredinol, a hynny **yn sgil y galw enfawr**.



**Ffigur 1: Cyfanswm y bobl ddigartref a gafodd lety dros dro ar ddiwedd y mis, rhwng Ionawr 2024 a Rhagfyr 2025**




▸ **Ffynhonnell:** Llywodraeth Cymru (**StatsCymru**), Unigolion digartref a roddwyd mewn llety dros dro ar ddiwedd y cyfnod yn ôl ardal awdurdod lleol a'r math o lety

Dyma lle bydd y Ddeddf newydd yn ceisio gwneud gwahaniaeth. Cadeiriodd yr Athro Suzanne Fitzpatrick y **panel arbenigol a roddodd gyngor i Lywodraeth Cymru** ynghylch yr hyn y dylid ei gynnwys yn y ddeddfwriaeth newydd. Yn ôl yr Athro Fizpatrick, nod y ddeddfwriaeth yw cynyddu'r llif o bobl allan o'r system ac i mewn i lety addas, ynghyd ag **atal mwy o bobl** rhag dod yn ddigartref yn y lle cyntaf.

Mae'n ceisio gwneud hyn mewn **nifer o ffyrdd**, gan gynnwys:

- cynyddu ymdrechion cynnar i atal digartrefedd, hyd at chwe mis cyn i berson sy'n gwneud cais golli ei gartref;
- rhoi terfyn ar y profion angen blaenoriaethol a digartrefedd bwriadol;

- gosod **dyletswydd "gofyn a gweithredu"** ar gyrff cyhoeddus, gan gynnwys gwasanaethau cymdeithasol, byrddau iechyd lleol, carchardai a Chanolfannau Byd Gwaith; a
- gosod gofyniad ar gymdeithasau tai i gydweithio ag awdurdodau lleol, drwy ddarparu cartrefi i aelwydydd a gynigir gan yr awdurdod lleol.

Ym mis Chwefror 2026, pleidleisiodd y Senedd yn unfrydol o blaid pasio'r Bil. Serch hynny, er bod y Ddeddf wedi cael ei chanmol gan yr elusen Crisis fel darn o ddeddfwriaeth a allai **newid bywydau**, mae wedi cael croeso llai cynnes gan awdurdodau lleol. Mae llawer **wedi codi pryderon** sy'n debyg i'r rhai a fynegodd Cyngor Caerdydd, sef y bydd y ddeddfwriaeth ond yn annog mwy o bobl i ymuno â system sydd eisoes yn cael trafferth ymdopi.

**Beth sy'n achosi digartrefedd?**

Mae cyfuniad o ffactorau yn gallu effeithio ar risg person o ddod yn ddigartref, rhai ohonynt yn ffactorau personol ac eraill yn rhai allanol. Mae bod mewn tlodi yn ffactor risg, ac mae **tystiolaeth yn awgrymu** bod tueddiadau yn y farchnad dai yn cael effaith uniongyrchol.

Y ffactorau personol mwyaf cyffredin **a arweiniodd at ddigartrefedd ymhlith aelwydydd yng Nghymru yn 2024-25** oedd y canlynol:

- perthynas â phartner wedi dod i ben (20%, neu 2,649 o aelwydydd);
- rhiant nad yw bellach yn fodlon nac yn gallu cynnig llety (15%, neu 2,013 o aelwydydd);
- perthnasau neu ffrindiau eraill nad ydynt bellach yn fodlon nac yn gallu cynnig llety (15%, neu 1,986 o aelwydydd);
- colli llety rhent neu **lety clwm** (15%, neu 1,977 o aelwydydd); a
- gadael y carchar (12%, neu 1,560 o aelwydydd).

## Cynyddu'r cyflenwad

Nid yw datrys digartrefedd yn fater sy'n ymwneud â thai yn unig. Er enghraifft, **mae gwasanaethau cymorth ar gyfer tenantiaid yn hanfodol** i rai pobl y mae angen cymorth arnynt i gynnal sefyllfa sefydlog o ran llety – sefyllfa a fydd, yn ei thro, yn ei gwneud hi'n haws i bobl gael mynediad at wasanaethau eraill fel gofal iechyd.

Ond mae **consensws ymhlith academyddion**, ac ymhlith **rhanddeiliaid sydd wedi llywio meddylfryd Llywodraeth Cymru** ar y mater hwn, fod cyflenwad digonol o dai fforddiadwy yn rhan anhepgor o unrhyw ymdrech i roi terfyn ar ddigartrefedd.

Roedd y cyflenwad o dai yn rhan allweddol o **gynllun Llywodraeth flaenorol Cymru i roi terfyn ar ddigartrefedd**. Pennodd y Llywodraeth darged i adeiladu 20,000 o gartrefi cymdeithasol newydd yn ystod chweched tymor y Senedd. Ar ôl i **Archwilio Cymru ganfod yn 2024** fod y broses o gyflenwi'r tai hynny wedi bod yn araf ac yn ddrytach na'r disgwyliadau cychwynnol, sefydlodd Llywodraeth Cymru **dasglu tai fforddiadwy** i archwilio'r opsiynau ar gyfer dileu'r rhwystrau i ddatblygiadau presennol a symleiddio'r ddarpariaeth ar gyfer y dyfodol.

Er na chyflawnwyd y targed o 20,000, **nododd Archwilio Cymru yn gynharach eleni** fod Llywodraeth Cymru a'r sector tai ehangach wedi gwneud "cynnydd sylweddol". Cafodd mwy na 3,600 o gartrefi fforddiadwy ychwanegol eu darparu yn 2024-25, **y nifer uchaf ers 2007**, pan ddechreuodd y broses o gadw cofnodion.

Er gwaethaf hyn, mae'n annhebygol y bydd y lefel bresennol o gartrefi sy'n cael eu cyflenwi yn ddigon i ateb y galw. Yn ôl **amcangyfrifon Llywodraeth Cymru**, mae 9,400 o aelwydydd ar hyn o bryd angen cartref fforddiadwy (er bod y ffigur hwn yn **debygol o fod yn achos o dangyfrif**). Daw hyn ar ben yr angen newydd sy'n codi, sydd rhwng 2,700 a 3,300 o dai fforddiadwy y flwyddyn, hyd at 2030, yn ôl amcangyfrifon.

Ym mis Mawrth 2026, daeth **un o bwyllgorau'r Senedd i'r casgliad** bod y broses o ddarparu tai cymdeithasol **yn parhau i fod mewn sefyllfa o argyfwng**. Mynegodd bryderon ynghylch cynaliadwyedd y datblygiadau sydd yn yr arfaeth wrth fynd i mewn i'r Seithfed Senedd, gan **ailadrodd ei alwad** ar Lywodraeth Cymru i geisio sicrhau bod tai cymdeithasol yn cyrraedd màs critigol sy'n cyfrif am o leiaf 20 y cant o'r stoc dai.

Dywedodd y Pwyllgor fod angen sicrhau arweinyddiaeth gryfach ar draws adrannau'r Llywodraeth, sefydlu corfforaeth ddatblygu genedlaethol i sicrhau parhad dros y tymor hir, a datblygu strategaeth ar gyfer y gweithlu adeiladu.

## Costau ymlaen llaw, enillion tymor hwy

Bydd yr amserlen ar gyfer gweithredu Deddf Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru) 2026 yn cael ei chyflwyno'n raddol dros y Seithfed Senedd ac ar ôl hynny.

Er nad oes amserlen ffurfiol wedi'i phennu eto, tybiodd Llywodraeth flaenorol Cymru y byddai **cyfnod gweithredu o ddeng mlynedd**, gyda'r **agweddau atal yn cael eu cyflwyno yn gyntaf**, a'r profion angen blaenoriaethol a digartrefedd bwriadol yn cael eu dileu yn ddiweddarach.

**Amcangyfrifir y bydd y Ddeddf yn costio £395 miliwn** dros gyfnod o ddeng mlynedd hyd at 2035-36, ond y bydd yn arbed arian yn y tymor hir, gan arwain at £481 miliwn o fuddion ariannol dros yr un cyfnod.

Yr hyn sydd wedi'i hepgor o'r amcangyfrifon hyn, fodd bynnag, yw'r arian sydd ei angen i gynyddu'r cyflenwad o dai cymdeithasol. Er bod tystiolaeth dda sy'n awgrymu bod **buddsoddi yn y cyflenwad tai yn dychwelyd buddion net i'r pwrs cyhoeddus**, her fawr i'r Llywodraeth nesaf fydd ariannu'r costau ymlaen llaw er mwyn gwireddu'r enillion tymor hwy hynny.

### Ffynonellau allweddol

- Llywodraeth Cymru, **Rhoi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru: cynllun gweithredu lefel uchel 2021 i 2026** (2021)
- Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, **Y Cyflenwad o Dai Cymdeithasol (2024) a llythyr dilynol yn sgil yr ymchwiliad** (2026)
- Tasglu Tai Fforddiadwy, **Adroddiad ac argymhellion** (2025)
- Archwilio Cymru, **Tai Fforddiadwy (2024) a blog dilynol** (2026)

**Erthygl gan Jennie Bibbings a Gwennan Hardy, Ymchwil y Senedd, Senedd Cymru**





# Mewnfudo yng Nghymru: y niferoedd a'r naratif

Mae mewnfudo yn bwnc sy'n denu llawer o sylw gan y cyhoedd, ac yn aml bydd yn arwain at safbwyntiau gwahanol ynghylch a yw'r niferoedd yn rhy fawr ai peidio, ac a gaiff ymfudo effaith dda neu effaith ddrwg ar gymdeithas yng Nghymru. Mae rhan fawr o'r drafodaeth gyhoeddus yn defnyddio ffigurau'r DU drwyddi draw nad ydynt yn adrodd y stori lawn am newid o ran y boblogaeth yng Nghymru.

## Poblogaeth Cymru a mudo rhyngwladol

Daw pobl i Gymru am nifer o resymau gwahanol gan gynnwys gwaith, bywyd teuluol, addysg neu ddiogelwch. Mae'r symudiadau hyn yn dylanwadu ar economi, gwasanaethau cyhoeddus a chymunedau Cymru. Mae'r rhan fwyaf o'r penderfyniadau sy'n ymwneud â **pholisi mewnfudo yn cael eu gwneud gan Lywodraeth y DU,** a hi sy'n gosod y rheolau ynghylch pwy all ddod i'r DU, am ba mor hir ac o dan ba amodau. Gall y penderfyniadau hyn gael effaith sylweddol yng Nghymru, er enghraifft y penderfyniad diweddar i ddod â **recriwtio gweithwyr gofal cymdeithasol rhyngwladol** i ben.


Llywodraeth Cymru, fodd bynnag, sy'n gyfrifol am feysydd polisi sy'n gysylltiedig â mewnfudo, gan gynnwys **datblygu economaidd**, integreiddio, tai, addysg, iechyd a chydlyniant cymdeithasol – ac mae **hefyd yn gyfrifol** am sicrhau bod gan y rhai sy'n dod i Gymru y cyfle i ymgartrefu, i gyfrannu at yr economi ac at y gymdeithas yng Nghymru.

Yn ogystal â gwneud penderfyniadau polisi, mae Llywodraeth y DU hefyd yn gyfrifol am gasglu llawer o **ffynonellau data ar fewnfudo**, ac mewn rhai achosion mae hyn wedi arwain at ddiffyg data ar wahân ar gyfer Cymru. Gall hyn arwain at anawsterau wrth gyflwyno'r stori a'r ffeithiau llawn am fewnfudo yng Nghymru.

## Pobl a gafodd eu geni y tu allan i'r DU

Roedd **Cyfrifiad 2021** yn dangos bod 215,000 o breswylwyr arferol wedi'u geni y tu allan i'r DU. Mae hyn yn gynnydd o 28.3% (48,000) ers Cyfrifiad 2011. Yn Lloegr, mae'r ffigur hwn wedi codi 33.6% (2.5 miliwn). O holl **wledydd a rhanbarthau'r DU**, dim ond un (sef gogledd-ddwyrain Lloegr gyda 6.8%) oedd â chyfran is na Chymru o'i phoblogaeth wedi'u geni dramor (6.9%).

**Ffigur 1: Canran a niferoedd o'r boblogaeth yng Nghymru a gafodd eu geni y tu allan i'r DU, fesul ardal awdurdod lleol**




▸ **Ffynhonnell:** **Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Gwlad Enedigol, Cyfrifiad 2021**

## Mudo net

Mudo net yw'r mesur o'r **llif net o bobl i mewn i wlad neu allan ohoni** a dyma'r prif ystadegyn a ddefnyddir i ddangos effaith gyffredinol mewnfudo (y rhai sy'n cyrraedd) ac allfudo (y rhai sy'n gadael) unrhyw wlad. Y ffigur hwn sy'n cael ei gyflwyno fel arfer ar y cyfryngau. Mae **data y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer y DU** yn dangos, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2025, fod mudo net rhyngwladol hirdymor ar gyfer y DU yn 204,000, sef tua dau draean yn is na blwyddyn ynghynt (649,000). Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn priodoli'r gostyngiad i ddau ffactor: sef, llai o ddinasyddion nad ydynt o'r UE yn cyrraedd am resymau sy'n gysylltiedig â gwaith ac astudio, a chynnydd parhaus, graddol o ran lefelau allfudo.


Yng Nghymru, mae'r data diweddaraf yn dangos, yn y flwyddyn hyd at ganol 2024, roedd mewnfudo rhyngwladol i Gymru wedi lleihau bron i chwarter o'i gymharu â'r flwyddyn hyd at ganol 2023, i 22,680.

**Ffigur 2: Mudo mewnol net (symud rhwng awdurdodau lleol yn y DU) a mudo rhyngwladol net (symud rhwng Cymru a gwledydd eraill y byd y tu allan i'r DU) yng Nghymru rhwng canol 2012 a chanol 2024**



▶ **Ffynhonnell:** Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, **Dadansoddiad o'r offeryn amcangyfrifon poblogaeth ar gyfer y DU**, 2024, rhifyn Cymru a Lloegr o'r gyfres ddata hon

### Ffigur 3: Mudo rhyngwladol net, fesul ardal awdurdod lleol; 2023 i 2024




▶ **Ffynhonnell:** Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, **Amcangyfrifon poblogaeth ar gyfer Cymru a Lloegr: canol 2024, Proffiliau poblogaeth ar gyfer ardaloedd lleol**

## Dod i Gymru i weithio

Mae fisâu gwaith yn caniatáu i bobl o'r tu allan i'r DU wneud gwaith â thâl yn y DU. Llywodraeth y DU sy'n rheoli'r polisi ar fisâu gwaith (hynny yw, pwy sy'n eu cael a'r amodau, fel hyd a math o gyflogaeth) ac sy'n gyfrifol am eu rhoi. Mae **sawl cynllun fisa** sy'n caniatáu i bobl ddod i weithio yn y DU.

### Fisa Gweithiwr Crefftus

Y **fisa Gweithiwr Crefftus**, fel y mae'n cael ei alw, yw prif lwybr mewnfudo y DU sy'n caniatáu i bobl nad ydynt yn ddinasyddion y DU ddod i'r DU neu aros yma i wneud swydd grefftus gymwys i gyflogwr sydd wedi'i gymeradwyo gan y Swyddfa Gartref. Yn ogystal â bodloni **gofynion cymhwysedd**, ers mis Gorffennaf 2025, bydd angen i rai ymgeiswyr am y **Fisa Gweithiwr Crefftus cyffredinol** fod wedi cael cynnig cyflogaeth â chyflog o o leiaf £41,700 y flwyddyn neu'r gyfradd gyfredol berthnasol ar gyfer yr alwedigaeth. Ers mis **Ebrill 2025** mae cyfran yr oedolion sy'n gweithio amser llawn a enillodd o leiaf y swm hwnnw yn is yng Nghymru o'i gymharu â'r DU (36.3% o'i gymharu â 44.6%).


Yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2025, roedd **168,000 o fisâu wedi'u rhoi** i brif ymgeiswyr ym mhob categori gwaith yn y DU. Mae hyn 19% yn llai na'r flwyddyn flaenorol a 50% yn llai nag yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2023 pan gyrhaeddodd nifer y fisâu gwaith eu nifer uchaf.

Nid yw'r Swyddfa Gartref yn gwahanu ffigurau ar fisâu llwybrpenodol (e.e. fisa Gweithiwr Crefftus) fesul gwlad yn y DU, ac oherwydd hyn nid oes data ar wahân ar gael ar gyfer Cymru. Mae un o **bwyllgorau Senedd y DU** wedi galw ar y Swyddfa Gartref i wella ei dealltwriaeth o brinder sgiliau a lefelau cyflog ar draws y gwledydd datganoledig, er mwyn deall sut mae'r llwybr hwn yn gweithio ledled y DU.

### Gweithio yng Nghymru

Mae rhai ffynonellau data ar gael ynghylch pwy sy'n dod i Gymru i weithio. Mae'r **Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth** yn dangos, yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Medi 2025, bod 141,800 o bobl mewn cyflogaeth yng Nghymru a oedd yn 16 mlwydd oed a hŷn wedi'u geni y tu allan i'r DU. Fodd bynnag, **nid yw man geni yn arwydd o statws mewnfudo**.


**Ffigur 4: Nifer y bobl 16-64 mlwydd oed mewn cyflogaeth a gafodd eu geni y tu allan i'r DU yng Nghymru**




▸ **Ffynhonnell:** Ystadegau Cymru, **Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth: unigolion yng Nghymru mewn gwaith yn ôl gwlad enedigol a blwyddyn**

Rhoddir Rhif Yswiriant Gwladol i unrhyw un sy'n gweithio yn y DU, gan gynnwys y rhai sy'n ymfudo i'r DU dros dro. Yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2025, roedd yna **12,150 o Rifau Yswiriant Gwladol newydd** wedi'u cofrestru i oedolion nad ydynt yn ddinasyddion y DU yng Nghymru, sef lleihad o 15.8% o'r rhai a gofrestrwyd **y flwyddyn flaenorol**. Fodd bynnag, mae'n bosibl nad yw unigolyn sydd wedi cael Rhif Yswiriant Gwladol yng Nghymru mwyach, efallai ei fod wedi gadael y DU yn gyfan gwbl, neu efallai nad yw'n gweithio ar hyn o bryd.

**Ffigur 5: Nifer y dyraniadau Yswiriant Gwladol i ddinasyddion tramor sy'n oedolion sy'n dod i mewn i Gymru**




▸ **Ffynhonnell:** Stat-Xplore, yr Adran Gwaith a Phensiynau, **Cofrestriadau NINO**


## Astudio yng Nghymru

Rhaid i'r rhai sy'n dymuno astudio yn y DU **wneud cais am fisa astudio** a noddir gan **ddarparwr addysg trwyddedig**.

Yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2025, rhoddwyd **426,471 o fisâu astudio** i fyfyrwyr rhyngwladol yn y DU – sef 35% yn llai na'r uchafswm yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Medi 2023.

Nid oes data ar fisâu myfyrwyr ar gael ar gyfer Cymru. Mae'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA), fodd bynnag, yn cyhoeddi data o ran o ble mae myfyrwyr addysg uwch Cymru yn dod. Yn y **flwyddyn academaidd 2024/25** roedd 20,935 o fyfyrwyr rhyngwladol wedi cofrestru gan ddarparwr Addysg Uwch yng Nghymru, sef **gostyngiad o 24.7% ar y ffigurau (27,795) ar gyfer 2023-24**. Edrychir ar y mater hwn yn fanylach yn ein herthygl ar addysg uwch.

**Ffigur 6: Nifer y myfyrwyr Addysg Uwch sydd wedi cofrestru gyda darparwr Addysg Uwch yng Nghymru**




▸ **Ffynhonnell:** HESA, **Cofrestriadau myfyrwyr Addysg Uwch yn ôl cyfeiriad parhaol**

## Ceisio diogelwch dyngarol

### Ceiswyr lloches

Darperir llety i geiswyr lloches **ar sail dim dewis ble yn y DU y byddant yn byw**. Fodd bynnag, bydd y Swyddfa Gartref yn ystyried ceisiadau unigol i gael eu lletya mewn ardal benodol mewn **amgylchiadau eithriadol**.

Bydd ceiswyr lloches sy'n cael cymorth yn cael eu rhoi mewn llety dros dro sy'n cael ei reoli gan ddarparwyr tai ar ran y Swyddfa Gartref. Gall ceisiwr lloches sydd wedi trefnu ei lety ei hun **wneud cais am gymorth ariannol (cynhaliaeth) yn unig**.

Mae'r **data diweddaraf (ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2025)** yn dangos bod 3,353 o geiswyr lloches yn derbyn cymorth yng Nghymru.


Mae hyn yn cynnwys y rhai sy'n derbyn cymorth llety a'r rhai sy'n derbyn cymorth cynhaliaeth yn unig.

## Ffoaduriaid

Mae yna rai **llwybrau 'diogel a chyfreithlon'** cyfyngedig i ddod i mewn i'r DU am resymau dyngarol. Mae'r llwybrau hyn yn drefniadau mewnfudo wedi'u hawdurdodi sy'n galluogi person i symud i wlad arall am resymau dyngarol.

Mae cynlluniau adsefydlu yn cynnwys y **Cynllun adsefydlu'r DU, Cynllun Adsefydlu Mandadol** a'r **cynllun nawdd cymunedol** sydd ar gael i bobl sydd **wedi'u cydnabod fel ffoaduriaid** gan Uchel Gomisiynydd y Cenhedloedd Unedig dros Ffoaduriaid. Mae llwybrau penodol i genhedloedd hefyd wedi'u sefydlu gan Lywodraeth y DU ar gyfer **Affganiaid**, **Wcrainiaid** a **phobl o Hong Kong**.

**Ffigur 7: Nifer y bobl a gyrhaeddodd drwy'r cynllun Cartrefi i Wcráin heb gynnwys uwch-noddwyr, Rhaglen Adsefydlu a lloches â Chymorth Afghanistan, fesul awdurdod lleol, 30 Medi 2025**




▸ **Ffynhonnell:** Y Swyddfa Gartref a'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, **Data awdurdodau rhanbarthol ac awdurdodau lleol ar grwpiau mewnfudo, yn y flwyddyn sy'n dod i ben ym mis Medi**

Er bod data ar geiswyr lloches sy'n cael cymorth, a rhywfaint o ddata ar gynlluniau adsefydlu, mae bylchau o ran y data. Er enghraifft, does dim data ar gael ar nifer y deiliaid statws Dinasyddion Prydeinig (Tramor) o Hong Kong sy'n

cyrraedd Cymru - er y rhoddwyd **185,507 o fisâu** ers i'r cynllun ddechrau yn 2021.

## Llywio polisi, a'r angen am ddata gwell

Bydd mewnfudo yn parhau i gael ei lunio'n bennaf gan benderfyniadau Llywodraeth y DU ynghylch pwy all ddod i'r DU ac o dan ba amodau. Ac eto, mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am lawer o'r gwasanaethau a'r systemau sy'n effeithio ar bobl ar ôl iddynt gyrraedd — o'r maes iechyd i addysg, o integreiddio i gydlyniant cymunedol.

Heb ddata cyson a phenodol i Gymru, mae'n anodd deall yn iawn faint o bobl sy'n dewis gwneud Cymru yn gartref iddynt drwy waith, astudio neu lwybrau noddfa. Yn absenoldeb y dystiolaeth hon, mae trafodaethau mewn perygl o gael eu llywio gan ganfyddiad yn hytrach na'r realiti.

### Ffynonellau allweddol

- Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, **Amcangyfrifon poblogaeth ar gyfer Cymru a Lloegr: canol 2024** (Gorffennaf 2025)
- Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, **Mewnfudo rhyngwladol hirdymor, dros dro: y flwyddyn sy'n dod i ben fis Mehefin 2025** (Tachwedd 2025)
- Llywodraeth y DU, **Data awdurdodau lleol ac awdurdodau rhanbarthol ar grwpiau mewnfudo**
- Llywodraeth y DU, **Ystadegau mewnfudo**
- Llywodraeth y DU, **Cyhoeddiad chwarterol ar ystadegau'r system fewnfudo**
- Llywodraeth Cymru, **Demograffeg a mudo yng Nghymru** (Cyfrifiad 2021)

**Erthygl gan Claire Thomas, Helen Jones, Josh Jenkins a Samuel Jones, Ymchwil y Senedd, Senedd Cymru**



# Cyfansoddiad





# Datganoli – beth nesaf?

## Mae'r Seithfed Senedd yn dechrau ynghanol cwestiynau heb eu datrys am ddyfodol cyfansoddiadol Cymru. Ond pa fath o ddyfodol mae pobl yng Nghymru ei eisiau, a sut y gallai llywodraethau gydweithio'n well i wella canlyniadau?

Mae datganoli yng Nghymru wedi bod yn **esblygu'n barhaus** fwy na lai ers ei sefydlu 27 mlynedd yn ôl. Y newid diweddaraf – sef ehangu'r senedd a chael system etholiadol newydd – yw un o'r rhai mwyaf arwyddocaol hyd yn hyn. Ond i ble mae datganoli yn mynd o fan hyn?


Nod ehangu'r Senedd yw ceisio mynd i'r afael â **chyfyngiadau capasiti** ond nid yw'n datrys y ddadl barhaus ynghylch **a yw'r setliad datganoli presennol yn gynaliadwy**.

Un o'r heriau allweddol i'r Seithfed Senedd fydd gosod cyfeiriad y llwybr ar gyfer y bennod nesaf hon o ddatganoli.

### Opsiynau posibl ar gyfer y dyfodol

**Yn ôl arolwg barn diweddar**, mae cyfrannau sylweddol o boblogaeth Cymru yn cefnogi annibyniaeth (26%) neu ddiddymu'r Senedd (28%), ond nid oes gan y naill opsiwn na'r llall gefnogaeth mwyafrif poblogaeth Cymru. Yn lle hynny, mae'r **rhan fwyaf o blaid** parhau â rhyw fath o ddatganoli, boed hynny'n golygu cynnal y drefn bresennol neu newid pwerau'r Senedd.

**Ffigur 1: Canlyniadau arolwg yn gofyn i'r cyhoedd yng Nghymru sut y byddent yn pleidleisio pe bai refferenda'n cael eu cynnal yfory ar naill ai Cymru'n dod yn wlad annibynnol neu ddiddymu'r Senedd**




▸ **Ffynhonnell:** **Arolwg YouGov / Barn Cymru (5-12 Ionawr 2026)**

Gwnaeth y **Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru**, a gafodd ei sefydlu gan Lywodraeth Cymru yn 2022, ystyried y mater hwn yn fanwl a chynigiodd **dri 'opsiwn hyfyw'**:


- atgyfnerthu datganoli;
- ffederaliaeth; ac
- annibyniaeth.

Mae'r tri yn tybio y bydd rhyw fath o hunanlywodraeth yng Nghymru yn parhau, gyda rhai yn gofyn am fwy o newidiadau i'r ffordd y mae'r DU gyfan yn cael ei llywodraethu.

Roedd gwaith ymchwil a gynhaliwyd ar ran y **Comisiwn Annibynnol** yn gofyn i ymatebwyr pwy oeddent yn credu ddylai fod yn gyfrifol am rai meysydd polisi. Mewn meysydd nad oeddent eisoes wedi'u datganoli, roedd rhywfaint

o gefnogaeth ymhlith y cyhoedd i roi pwerau plismona a lles i Senedd Cymru a Llywodraeth Cymru, ond roedd barn gref y dylai San Steffan barhau i fod yn gyfrifol am bolisi mewnfudo a thramor.

**Ffigur 2: Canlyniadau arolwg a gafodd ei gynnal ar gyfer y Comisiwn Annibynnol ynghylch pwy y mae'r ymatebwyr yn credu y dylai fod yn gyfrifol am rai meysydd polisi yng Nghymru**




▸ **Ffynhonnell:** Y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru (2024)

Aeth y Comisiwn ymlaen i argymell y dylai pwerau pellach dros ddarlledu, ynni, cyfiawnder a phlismona, a gwasanaethau rheilffyrdd gael eu datganoli.

Ymrwymodd Llywodraeth flaenorol Cymru i ddatganoli pwerau pellach i'r Senedd. Ar ddiwedd y Chweched Senedd, cyhoeddodd **ddiweddariad ar y cynnydd** a wnaed ar ystod o feysydd. Roedd hyn yn cynnwys **datganiad ar y cyd** gyda Llywodraeth y DU ar ymrwymiadau ar gyfiawnder ieuenctid a phrawf,

ac **adroddiad ar ddatganoli Ystad y Goron**.

Os yw Llywodraeth newydd Cymru am fynd ar drywydd y materion hyn ymhellach, yna bydd ei pherthynas â Llywodraeth y DU yn allweddol. Yn y pen draw, bydd **angen Deddf gan Senedd y DU** er mwyn newid pwerau Senedd Cymru. Er bod Llywodraeth y DU wedi gwneud ymrwymiadau i **archwilio datganoli prawf a chyfiawnder ieuenctid**, mae wedi gwrthwynebu datganoli meysydd eraill, fel **plismona**, **Ystad y Goron** a **gwasanaethau rheilffyrdd**.


Un ystyriaeth allweddol i Lywodraeth newydd Cymru fydd a yw'n dymuno parhau i fynd ar drywydd datganoli pwerau ymhellach.

## Pwysigrwydd llywodraethau'n cydweithio'n dda

Mae arolygon barn cyhoeddus yn awgrymu bod pobl yng Nghymru eisiau i lywodraethau'r DU gydweithio'n well. **Yn ôl ymchwil a gynhaliwyd ar gyfer Policywise**, mae 95% o bobl yn yr Alban a Chymru eisiau cydweithredu cryfach rhwng eu llywodraethau a San Steffan.

Canfu fod 68% o bobl yng Nghymru yn teimlo nad yw llywodraethau Cymru a'r DU yn cydweithio'n dda ar hyn o bryd. Nid yw'r sefyllfa hon yn unigryw i Gymru, gyda 60% o ymatebwyr o'r Alban yn teimlo'r un peth.

**Ffigur 3: Canlyniadau arolwg a gynhaliwyd ar gyfer Policywise yng Nghymru a'r Alban ynghylch cysylltiadau rhynglywodraethol**




▸ **Ffynhonnell:** **Agweddau'r Cyhoedd Tuag at Gydweithredu Rhynglywodraethol yn yr Alban a Chymru (2026)**

Fodd bynnag, mae mwyafrif y boblogaeth yn credu y gallai llywodraethau gydweithio'n dda, ond nid ydynt yn gwneud hynny ar hyn o bryd. Yng Nghymru, mae 49% o bobl yn credu bod cydweithio agosach rhwng llywodraethau yn sicrhau bod buddiannau'r genedl yn cael eu hystyried wrth wneud penderfyniadau ledled y DU, gyda'r GIG (52%) yn cael ei ystyried fel y maes lle mae mwyaf o angen cydweithio agosach.

Roedd yr awydd hwn i lywodraethau gydweithio yn amlwg iawn hefyd yng ngwaith y **Comisiwn Annibynnol**. Canfu arolwg ar gyfer y Comisiwn fod 92% o bobl yn credu ei bod hi'n bwysig i lywodraethau'r DU a'r llywodraethau

datganoledig gydweithio.

Roedd nifer o gamau pwysig ymlaen i wella strwythur y berthynas rynglywodraethol rhwng llywodraethau Cymru a'r DU yn ystod y Chweched Senedd, gyda sefydlu **system newydd o gyfarfodydd rhynglywodraethol ffurfiol** a nod Llywodraeth y DU i **'ailosod' perthnasau** gyda'r llywodraethau datganoledig. Er hynny, roedd y **diffyg tryloywder** gyda rhai o'r strwythurau hyn wedi peri heriau craffu i'r Senedd.

Waeth pwy sy'n rhedeg Llywodraeth Cymru, mae'n amlwg bod pobl Cymru eisiau i'r berthynas rhwng llywodraethau wella er mwyn sicrhau bod y setliad datganoli presennol yn gweithio iddyn nhw ac i gefnogi'r gwasanaethau cyhoeddus y maen nhw'n dibynnu arnyn nhw.

## Yr her i'r Seithfed Senedd

Wrth i'r Seithfed Senedd ddechrau, mae'r ddadl gyfansoddiadol ymhell o fod wedi'i setlo. Er bod y cyhoedd yn parhau i gefnogi datganoli mewn egwyddor, **dim ond 36% o bobl yng Nghymru sy'n meddwl ei fod wedi bod yn beth da**, o'i gymharu â 48% yn yr Alban. Bydd rhaid i Aelodau newydd o'r Senedd a Llywodraeth newydd Cymru wynebu'r her o wneud i ddatganoli weithio er lles pobl Cymru.

Yn ogystal â manteisio i'r eithaf ar y pwerau sydd ganddi eisoes, mae dadl barhaus ynghylch a ddylai'r Senedd gael pwerau pellach, dros feysydd fel cyfiawnder, ynni a seilwaith rheilffyrdd.

Yr hyn sy'n amlwg o'r dystiolaeth yw bod pobl eisiau i lywodraethau gydweithio'n well, waeth beth fo'u dewisiadau cyfansoddiadol. Mae perthnasoedd rhynglywodraethol cryfach a dull mwy cydlynol o weithio ar y cyd yn cael eu hystyried yn sylfeini hanfodol ar gyfer beth bynnag a ddaw nesaf.

Nid oes modd pennu dyfodol cyfansoddiadol Cymru yn llawn mewn un tymor yn y Senedd, ond bydd gan y Seithfed Senedd rôl allweddol i'w chwarae wrth lunio pennod nesaf datganoli.

## Ffynonellau allweddol

- Comisiwn Annibynol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru, **Adroddiad Terfynol: Ionawr 2024** (2024)
- PolicyWISE, **Public Attitudes Toward Intergovernmental Cooperation in Scotland and Wales** (2026)
- Ymchwil y Senedd, **25 mlynedd o ddeddfu yng Nghymru** (2024)

**Erthygl gan Josh Hayman, Ymchwil y Senedd, Senedd Cymru**

# Ar ba faterion y caiff y Senedd ddeddfu?

Mae'r Senedd yn gweithredu o dan 'fodel pwerau a gedwir yn ôl'. Mae hyn yn golygu bod ganddi bwerau i ddeddfu ym mhob maes ac eithrio'r rhai a gedwir yn ôl i Senedd y DU.

Mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn nodi'r pwerau a gedwir yn ôl i Senedd y DU. Cyfeirir at feysydd nad ydynt wedi'u cadw yn ôl i Senedd y DU fel meysydd 'datganoledig'.

Y Goruchaf Lys sydd â'r gair olaf os bydd anghydfod yn codi ynghylch pŵer y Senedd i ddeddfu.

I gael rhagor o wybodaeth am bwerau deddfu'r Senedd, sganiwch y cod QR.

Yn ymarferol, mae hyn yn golygu y gall y Senedd ddeddfu mewn ystod o feysydd, gan gynnwys:

- Iechyd a gwasanaethau cymdeithasol
- Trafnidiaeth
- Tai
- Amaethyddiaeth
- Trethiant (rhai agweddau arno)
- Addysg
- Diwylliant
- Llywodraeth leol
- Yr amgylchedd
- Y Gymraeg

Gall rhai agweddau ar y meysydd hyn, er enghraifft o fewn trafnidiaeth, fod yn faterion a gedwir yn ôl i Senedd y DU. Sganiwch y cod QR am ddadansoddiad mwy manwl o bwerau'r Senedd.





# Datganoli a materion rhyngwladol

## Nid yw'r cyfrifoldeb am faterion rhyngwladol mor glir â'r hyn sy'n cael ei bortreadu'n aml, ac mae'n cael ei rannu rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.

Gall Llywodraeth Cymru, y Senedd, cyrff cyhoeddus ac eraill fod yn gyfrifol am roi trefniadau rhyngwladol ar waith.

Am y rhesymau hyn a mwy, mae'n bwysig nad yw'r Senedd yn colli golwg ar faterion rhyngwladol.

Fel pob gwlad, nid yw Cymru wedi'i heithrio o effeithiau datblygiadau rhyngwladol. Wrth i'r Chweched Senedd ddechrau yn ystod y pandemig, roedd Brexit a'i effeithiau'n amlwg iawn. Mae'r datblygiadau ers hynny wedi bod yn ddi-baid. Mae **ymosodiad llawn Rwsia ar Wcráin** a'r **gwrthdaro yn y Dwyrain Canol** yn enghreifftiau o faterion rhyngwladol sydd â chanlyniadau pellgyrhaeddol.

Mae datganoli yn rhoi cyfle i Lywodraeth Cymru gyflawni ei gweithgarwch rhyngwladol ei hun. Mae meysydd eraill, fel masnach, yn cynnwys cymysgedd o gyfrifoldebau y DU ac wedi'u datganoli. Mae gan hyd yn oed meysydd sydd o fewn cwmpas Llywodraeth y DU yn unig, fel amddiffyn, oblygiadau pellgyrhaeddol i Gymru.

Yng nghyd-destun ansicrwydd geo-wleidyddol a newidiadau i'r gyfundrefn fyd-eang, bydd angen i'r Seithfed Senedd a Llywodraeth Cymru benderfynu ar eu dulliau gweithredu priodol a sut i ymateb.

### Cysylltiadau rhyngwladol


Mae 'cysylltiadau rhyngwladol' yn faterion sydd wedi'u cadw'n ôl ac mae llywodraethau ar draws y DU yn cydweithio ar gysylltiadau rhyngwladol y DU.

Mae datganoli yn rhoi cyfle i Lywodraeth Cymru weithredu mewn capasiti rhyngwladol, fel cytuno ar gytundebau nad ydynt yn rhwymol i Gymru mewn meysydd datganoledig. Roedd gan Lywodraeth flaenorol Cymru nifer o gynlluniau rhyngwladol, fel ei **Strategaeth Ryngwladol**, **polisi masnach** a **Chenedl Noddfa**. Roedd ganddi hefyd **drefniadau eraill**, fel ei swyddfeydd

tramor a'i pherthnasoedd rhyngwladol blaenoriaeth, sydd i'w gweld yn Ffigur 1.

Ar ddiwedd y Chweched Senedd, galwodd y pwyllgor a oedd yn gyfrifol am gysylltiadau rhyngwladol ar lywodraethau'r dyfodol i fabwysiadu **'Cenhadaeth Cymru'**, sef cyfres o ddeuddeg egwyddor newydd a luniodd i arwain cysylltiadau rhyngwladol Cymru. Roedd y Pwyllgor yn credu y byddai mabwysiadu'r egwyddorion yn "gwarantu bod Cymru'n cyflawni ei huchelgeisiau o ran cysylltiadau rhyngwladol yn gyson ac yn gwireddu ei photensial".

**Ffigur 1: trefniadau rhyngwladol Llywodraeth Cymru**




▸ **Ffynhonnell:** **Ymchwil y Senedd** (2026)

## Cymorth tramor a datblygiad rhyngwladol

Mae 'cymorth datblygu a chydweithredu rhyngwladol' yn faterion sydd wedi'u cadw'n ôl ond mae datganoli yn rhoi cyfle i Lywodraeth Cymru gyflawni gweithgarwch.

Mae 'cymorth tramor' a 'datblygu rhyngwladol' yn dermau gwahanol. Mae 'cymorth tramor' yn ymwneud â'r cymorth sy'n cael ei ddarparu, yn aml mewn ymateb i argyfyngau, ac mae 'datblygu rhyngwladol' yn gyffredinol yn ymwneud â chyllid wedi'i dargedu gan wledydd datblygedig tuag at raglenni hirdymor mewn rhanbarthau difreintiedig a/neu ddatblygol. Yn hanesyddol, mae Llywodraethau Cymru wedi gwneud y ddau.

### Cymorth tramor

Roedd Llywodraeth flaenorol Cymru wedi gwneud rhoddion ariannol ac anariannol i apelau brys a gafodd eu lansio mewn ymateb i argyfyngau, fel trychinebau naturiol a gwrthdaro arfog. Er enghraifft, yn 2022 **rhoddodd £4 miliwn** i Apêl Dyngarol Wcráin y Pwyllgor Argyfwng Trychinebau (DEC), yn ogystal â **chyflenwadau meddygol**, a rhoddodd gyfanswm o £450,000 i **Apêl Dyngarol y Dwyrain Canol DEC** ers ymosodiadau Hamas ar 7 Hydref 2023.

### Datblygu rhyngwladol

Roedd ymagwedd Llywodraeth flaenorol Cymru at ddatblygu rhyngwladol yn seiliedig ar nod allweddol yn ei **Strategaeth Ryngwladol**, sef sefydlu Cymru fel 'cenedl gyfrifol yn fyd-eang', ac yn ei rhaglen hirsefydlog ar gyfer **Cymru ac Affrica**.

Dechreuodd ei chyllid ar gyfer rhaglen Cymru ac Affrica yn 2013-14 ac, o 2020 ymlaen, cafodd ei nodi yng **nghynllun gweithredu Cymru ac Affrica** Llywodraeth Cymru. Mae'r cynllun yn cynnwys rhaglen plannu coed Mbale yn Uganda. Cafodd y targed i blannu 25 miliwn o goed ei **gyflawni ym mis Mawrth 2025**.

Roedd p'un a ddylai Llywodraeth Cymru gyflawni'r gweithgaredd hwn ai peidio **yn aml yn destun dadl** yn ystod y Chweched Senedd.

## Masnach ryngwladol

Er bod masnach ryngwladol yn cael ei hystyried yn fater sydd wedi'i gadw'n ôl yn gyffredinol, mae agweddau pwysig arni wedi'u datganoli. Yn benodol, **Gweinidogion Cymru sy'n gyfrifol** am fioddiogelwch, diogelwch bwyd a

rheolaethau iechydol a ffytoiechydol yng Nghymru. Mae rheolaethau iechydol a ffytoiechydol yn diogelu iechyd anifeiliaid, iechyd planhigion ac iechyd y cyhoedd.

Yn 2025, gwerth **cyfanswm masnach nwyddau** Cymru oedd £39.5 biliwn. Partner masnach mwyaf Cymru yw'r Undeb Ewropeaidd, sydd werth £18.4 biliwn (47%). Gwerth yr ail a'r trydydd partneriaid mwyaf oedd yr Unol Daleithiau, sef £6.6 biliwn, a Tsieina, sef £2.4 biliwn. Ymhlith Aelod-wladwriaethau unigol yr UE, roedd masnach nwyddau gyda'r Almaen, Ffrainc ac Iwerddon o werth mwy na masnach gyda Tsieina, sef £3.8 biliwn, £2.9 biliwn a £2.8 biliwn.

Mae'r DU a'r UE yn trafod **trefniadau newydd** mewn meysydd datganoledig, a fydd â goblygiadau pwysig i Gymru a'r Senedd. Ymhlith y rhain yn bennaf mae cytundeb SPS, a allai leihau neu hyd yn oed ddileu'r angen am **wiriadau masnach mewn safleoedd rheoli ffiniau newydd**, a Bil Partneriaeth yr UE i **alinio rheolau'r DU â rheolau'r UE**.

Bydd trafodaethau'r DU a'r UE, **cytundebau masnach newydd**, **dargyfeirio masnach o borthladdoedd Cymru** a **gwydnwch porthladd Caergybi**, yn parhau i fod yn hanfodol i lif masnach Cymru hefyd.

## Cyfraith ryngwladol

Er y gall Llywodraeth Cymru weithredu mewn capasiti rhyngwladol, ni all ymrwymo i ymrwymiadau sy'n rhwymo'n gyfreithiol. Dim ond Llywodraeth y DU all wneud hyn ar ran y DU, ac mae'n gwneud hynny ar ran y pedair gwlad.

Mae rhwymedigaethau rhyngwladol yn cwmpasu dyletswyddau ac ymrwymiadau cyfreithiol y mae'r DU wedi cytuno iddynt, neu reolau cyffredinol cyfraith ryngwladol. Mae'r gwaith o'u gweithredu a'u harsylwi wedi'u datganoli, sy'n golygu bod yn rhaid i Weinidogion Cymru gydymffurfio â nhw ac maent yn gyfrifol am roi **dyletswyddau cyfraith ryngwladol** ar waith mewn meysydd datganoledig. Mae hyn yn arwain at oblygiadau i'r Senedd, y mae'n rhaid iddi chwarae rhan weithredol wrth graffu ar y ddeddfwriaeth hon a'i phasio.

Y Senedd yw'r unig ddeddfwrfa ddatganoledig sydd â **phroses graffu bwrpasol ar gyfer cytuniadau**. Roedd adroddiad y cyn-bwyllgor deddfwriaeth, '**Y gwersi a ddysgwyd yn sgil 100 o gytuniadau**' yn galw am i'r Senedd gael rôl ffurfiol ym mhroses Senedd y DU. Penderfyniad y Senedd newydd fydd a fydd y gwaith craffu hwn yn parhau, gydag unrhyw rôl ffurfiol yn ddibynnol ar benderfyniadau ar lefel y DU.

## Gweithio gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig

Yn hanesyddol, roedd cydweithredu rhwng llywodraethau ar draws y DU ar gysylltiadau rhyngwladol a chysylltiadau'r UE wedi'i gynnwys mewn dau goncordat. Roeddent yn rhan o **Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth** ar Ddatganoli yn 2013.

Roedd cynlluniau ar gyfer **Concordat Cysylltiadau Rhyngwladol** yn ffurfio rhan o **adolygiad 2022 o gysylltiadau rhynglywodraethol** ond ni ddaeth i'r fei. Cyflwynodd yr adolygiad nifer o gyrff newydd yr oedd gweinidogion o bob gwlad yn aelod ohonynt, gan gynnwys Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol (IMSC), sydd wedi **ystyried materion rhyngwladol**. Mae yna grwpiau penodol hefyd ar berthnasoedd a masnach rhwng y DU a'r UE. Ym mis Mawrth 2026, **dywedodd Prif Weinidog Cymru ar y pryd** fod Llywodraeth Cymru hefyd wedi pwyso am grŵp ar gysylltiadau rhyngwladol, ynghyd â Llywodraeth yr Alban.

Mae'r llywodraethau hefyd yn cydlynu ymateb y DU i wrthdaro, fel rhwng **Rwsia ac Wcráin**, **Israel a Gaza** ac **UDA/Israel ac Iran**. Bydd sut maent yn cydweithio ar faterion rhyngwladol yn ffactor hollbwysig yn y dyfodol.

## Dyfodol materion rhyngwladol

Bydd dull gweithredu newydd Llywodraeth Cymru yn hanfodol wrth benderfynu ar ddyfodol rhyngwladol Cymru. Wrth ymateb i ddatblygiadau byd-eang, bydd yn rhaid iddi lywio'r effeithiau ar Gymru, gan gynnwys bywydau beunyddiol pobl.

Mae pa lwybr y mae'r Senedd yn ei ddilyn yr un mor bwysig. Mae gan Aelodau newydd ddewisiadau i'w gwneud ynghylch a ddylid adeiladu ar waddol materion rhyngwladol y Chweched Senedd, a sut.

## Ffynonellau allweddol

- Ymchwil y Senedd, **Cysylltiadau rhyngwladol: a fydd Llywodraeth nesaf Cymru yn mabwysiadu Cenhadaeth Cymru?** (Mawrth 2026)
- Ymchwil y Senedd, **Cymru ac Wcráin: bedair blynedd yn ddiweddarach** (Chwefror 2026)
- Ymchwil y Senedd, **Gwrthdaro yn Iran: "mae'r effaith yn real ac mae eisoes yn digwydd", meddai'r Prif Weinidog** (Mawrth 2026)
- Ymchwil y Senedd, **Israel a Gaza yn y Senedd: yr hanes hyd yma** (Chwefror 2026)
- Ymchwil y Senedd, **Beth allai'r cytundeb diweddaraf rhwng y DU a'r UE ei olygu i Gymru?** (Mehefin 2025)
- Ymchwil y Senedd, **Arloeswyr seneddol? Craffu ar gytuniadau yn y Senedd** (Medi 2022)
- Llywodraeth Cymru, **Masnach nwyddau rhyngwladol - dangosfwrdd rhyngweithiol** (Mawrth 2026)

**Erthygl gan Sara Moran, Ymchwil y Senedd, Senedd Cymru**

# Cyfiawnder Troseddol yng **Nghymru**

**Pwy mae'n ei wasanaethu. Sut mae'n gweithio. Ble mae dan bwysau**

## Trosolwg o'r Gyfres

Trwy gyfres o erthyglau canolbwyntiedig, mae ein cyfres cyfiawnder troseddol yn esbonio sut caiff cyfiawnder troseddol ei ddarparu yng Nghymru, y heriau a wynebir ganddo, a'r ffactorau sy'n dylanwadu ar ei berfformiad.

## Erthyglau

**Bron yn llawn**

Pam mae Cymru'n ehangu capasiti carchardai nad oes eu hangen, o bosibl?

**Ymddiriedaeth mewn plismona**

Pam mae cydsyniad yn dal i fod yn bwysig

**Diogelu yn hytrach na chosbi?**

Cyfiawnder Ieuenctid yng Nghymru

**Datganoli cyfiawnder**

Pa gynnydd sy'n cael ei wneud?

**Diwygio Dedfrydu**

Beth sy'n newid a pham mae'n bwysig i Gymru

**Ôl-groniad Llys y Goron**

Argyfwng Lloegr neu broblem rhannu awdurdodaeth?

**Diwygio prawf**

Sefydlogrwydd yn gyntaf, datganoli yn ddiweddarach

**Colli ffydd mewn cyfiawnder**

Hyder y dioddefwr yn y system gyfiawnder

**Diffeithdir**

Mynediad at gymorth cyfreithiol

**Polisi cyfiawnder troseddol**

Myfyrdodau a chamau nesaf